- Neb yn cael eu gorfodi i fyw mewn llety dros dro neu beryglus megis pebyll, sgwatio neu adeiladau dibreswyl
- Neb yn byw mewn llety brys megis llochesi a hosteli heb gynllun ar gyfer ailgartrefu cyflym i lety fforddiadwy, diogel a pharchus
- Neb yn ddigartref oherwydd eu bod wedi gadael sefydliad cenedlaethol megis carchar neu'r system ofal
- Pawb sydd mewn perygl uniongyrchol o ddigartrefedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w atal rhag digwydd.

1 Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

2 Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

3 Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

Agored i niwed

Noda *Deddf Tai (Cymru) 2014* y byddai person sy'n agored i niwed yn llai abl na pherson digartref cyffredin i ymdopi ar eu pen eu hunain pe baent yn dod yn ddigartref ar y stryd.⁴ Yn ogystal, byddai person sy'n agored i niwed yn dioddef mwy o niwed na'r person digartref cyffredin.

Byddai'r person yn llai abl i ymorol amdano'i hun (o ganlyniad i'r rheswm hwnnw) petai'n dod yn ddigartref ar y stryd nag y byddai person digartref cyffredin sy'n dod yn ddigartref ar y stryd ac y byddai hynny'n arwain y person at ddioddef mwy o niwed na'r hyn a fyddai'n cael ei ddioddef gan y person digartref cyffredin.

Angen blaenoriaethol

Ystyrir bod aelwyd mewn angen blaenoriaethol os yw'n cynnwys plant dibynnol, menyw feichiog neu oedolyn sy'n agored i niwed. Mae grwpiau eraill wedi cael eu hychwanegu at y ddeddfwriaeth dros amser, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl ifanc rhwng 16-17 oed. Adran 70 o Ddeddf 2014 sy'n sefydlu'r categorïau o angen blaenoriaethol.

Cysylltiad lleol

Gall person gael cysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol os yw'r person yn byw neu wedi byw yno, yn gweithio yn yr ardal, os oes ganddo resymau teuluol neu amgylchiadau arbennig.

Bwriadoldeb

O dan y gyfraith, ystyrir bod rhywun wedi achosi eu digartrefedd yn fwriadol os ydynt yn bodloni pob un o'r tri amod canlynol: yn gwneud unrhyw beth neu'n methu â gwneud unrhyw beth yn fwriadol ac o ganlyniad i hynny mae'r person yn rhoi'r gorau i feddiannu llety sydd ar gael i'r person ei feddiannu ac y byddai wedi bod yn rhesymol i'r person barhau i'w feddiannu.

Yn 2019, daeth Adran 75(3) i rym, gan ehangu categorïau'r grwpiau hynny nad yw penderfyniadau bwriadoldeb yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, ni fydd y brif ddyletswydd yn ddyledus i'r ymgeiswyr yn y categorïau hyn, os canfyddir eu bod yn ddigartref yn fwriadol eto o fewn pum mlynedd.

Crynodeb Gweithredol

Nid yw ond yn iawn fod pobl sy'n ddigartref yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Cadwodd gwaith arbennig ledled Cymru yn ystod pandemig Covid-19, filoedd o bobl yn ddiogel a sicrhaodd fod rhai pobl yn derbyn cymorth am y tro cyntaf wrth dynnu rhwystrau i gymorth yn ôl. Nawr mae gennym gyfle i adeiladu ar y gwaith hwn, y gyfraith a'r ymarfer presennol i sicrhau nad ydym yn gadael neb allan.

Mae penderfyniadau polisi cyhoeddus yn effeithio ar ddigartrefedd, gan gynnwys y rheiny'n ymwneud â chyflenwad a fforddiadwyedd tai, diogelwch cymdeithasol, a pha gymorth sydd ar gael i bobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd, neu sydd wedi dioddef trawma.⁵ Gallwn adnabod set o ffactorau unigol, cymdeithasol, a strwythurol – y tu allan i amgylchiadau unigol – a all wthio rhywun i ddigartrefedd, ac un o'r mwyaf arwyddocaol yw tloedi.^{6,7}

Gorfodir pobl i adael eu cartrefi pan mae'r pwysau cynyddol o renti uchel

ac incymau isel yn mynd yn ormod. Heb gymorth y llywodraeth, gall cynnydd sydyn mewn pwysau, megis colli swydd, mynd yn sâl, neu adael perthynas dreisgar, wthio pobl yn gyflym i ddigartrefedd.

Mae cytundeb llethol ymhlith ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi bod *Deddf Tai (Cymru) 2014* wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n wynebu digartrefedd.⁸ Er gwaethaf niferoedd cynyddol o bobl yn cael eu gwthio at ymyl digartrefedd, mae cynghorau wedi llwyddo i atal a lleddfu digartrefedd i nifer cynyddol o bobl.

4 Golyga bod yn 'ddigartref ar y stryd' nad oes gennych hawl gyfreithiol i breswyllo mewn llety. Dyma'r prawf Pereira a sefydlwyd yn Neddf Tai 1996. Addaswyd y prawf yn dilyn cyfraith achos, a bennodd y dylid newid y cymharydd a ddefnyddir o 'berson digartref cyffredin ar y stryd' i 'berson cyffredin os gwneir yn ddigartref'. Aeth dyfarniad Hotak 2015 ymlaen i ddiffinio prawf agored i niwed hyd yn oed mwy cynhwysol, gan olygu yr ystyrir, ar hyn o bryd, bod y gyfraith yng Nghymru mewn perthynas â hynny yn llai cynhwysol na'r gyfraith yn Lloegr.

5 Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

6 Bramley, G., Fitzpatrick, S. (2018) Homelessness in the UK: who is most at risk?. *Housing Studies*. 33(1). 96-116

7 Bramley, G. (2017) *Homelessness projections: Core homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

8 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B. ac Wood, J. (2017) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2017*. Llundain: Crisis.

Roedd Deddf 2014 yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a oedd yn ceisio rhoi sail statudol i atal digartrefedd, a mynd i'r afael ag anghysondebau a gwendidau yn y fframwaith cyfreithiol. Gosodwyd Cymru wrth wraidd symudiad byd-eang tuag at roi lle canolog i atal digartrefedd mewn deddfwriaeth ac fel rhan o strategaeth y llywodraeth.⁹ Mae deddfwriaeth dda felly yn sylfaen hanfodol ar gyfer galluogi gwasanaethau a gweithluoedd i weithredu. Mae ein cynigon i greu dyletswydd ailgartrefu lawn, yn ceisio adeiladu ar lwyddiant y Ddeddf a chefnogi ein dyheadau i roi terfyn ar ddigartrefedd drwy sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael heb y cymorth sydd ei angen arnynt i ddianc rhag digartrefedd ac ailadeiladu eu bywydau.

Mae cydnabyddiaeth, fodd bynnag, nad yw'r Ddeddf yn gweithio i bob grŵp o bobl. Yn y blynyddoedd diwethaf, gadawyd 1 ym mhob 8 o bobl a oedd angen eu hailgartrefu heb gymorth i gael mynediad at gartref diogel. Yn 2019/20, nid oedd 3 ym mhob 10 o bobl (1,773) a oedd yn ddigartref yn gymwys am gymorth i'w hailgartrefu'r llynedd.¹⁰

Rydym yn rhoi eglurhad o'n cyfrifiadau o nifer y bobl sy'n symud i bob cam o'r system ddigartrefedd ym *Mhennod 3: Cymorth digartrefedd yng Nghymru heddiw*. Mae profion cymhwysra yna'n peri oedi cyn y gall pobl gael mynediad at gymorth i roi terfyn ar eu digartrefedd, yn hytrach na lleihau'r nifer o bobl sy'n gorfod wynebu digartrefedd.

Nod yr adroddiad hwn yw deall canfyddiadau a dealltwriaeth awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth o'r meini prawf cymhwysra, a'r realiti i'r unigolion hynny nad oes dyletswydd iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio gyda staff awdurdodau lleol a gwasanaethau

cymorth sut a pham y defnyddir meini prawf cymhwysra, eu heffaith ar y gweithluoedd hynny sy'n gyfrifol am weithredu'r meini prawf hynny neu ddarparu cymorth tai ehangach, a pha effaith maent yn eu cael ar unigolion a'u gallu i ddianc rhag digartrefedd. Dywedodd cyfranogwyr y canlynol wrthym:

- **Mae'r fframwaith cyfreithiol yn atal gwasanaethau rhag darparu'r cymorth a'r gefnogaeth y mae unigolion eu hangen i roi terfyn ar eu digartrefedd, sy'n arwain at nifer yn parhau i wynebu digartrefedd am gyfnodau hir.**
- **Ni fydd nifer fawr o'r rheiny nad ydynt gymwys am y brif ddyletswydd yn gallu sicrhau eu llety eu hunain. O ganlyniad, nid yn unig y mae nifer yn parhau'n ddigartref, ond yn aml bydd eu hamgylchiadau yn gwaethygu ymhellach cyn eu bod yn gallu cael mynediad at gymorth, gan gynnwys dychwelyd i lety neu ffurfiau mwy peryglus o ddigartrefedd, a dirywiad yn eu hiechyd a lles.**
- **Mae nifer yn colli ffydd yn y system ac yn colli gobaith y gall eu sefyllfa wella. I rai, gall hyn arwain at ddatgysylltu â'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'r holl bobl hynny nad ydynt yn gymwys am y brif ddyletswydd yn adrodd effaith emosynol negyddol a dirywiad yn eu hiechyd a lles. Mae nifer yn gofyn am gymorth unwaith eto yn ddiweddarach, ac, erbyn hynny, mae eu hanghenion cymorth wedi gwaethygu.**
- **Adnabwyd meini prawf cymhwysra fel adnodd pwysig wrth rannu adnoddau, gan gynnwys y cyflenwad cyfyngedig o lety digonol, ond bu i gyfranogwyr eu hadnabod hefyd fel rhwystr i**

wasanaethau rhag gweithredu i helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd rhywun.

Ym Mhennod 3, rydym yn trafod ymagwedd Llywodraeth Cymru yn ystod Covid-19 a'r cyfyngiadau, a'r cyfle mae hyn wedi'i greu i adeiladu ar y ddeddfwriaeth bresennol i gyflawni'r diwygiad cyfreithiol a gynigir yn yr adroddiad hwn.

Mae ein canfyddiadau yn ategu gwaith ymchwil blaenorol ynglŷn â pham y defnyddir y profion hyn, a bod rhai grwpiau o bobl yn wynebu'r rhwystrau hyn yn fwy nag eraill. Mae'r anghysondebau yn y cymorth yn dibynnu os ystyrir rhywun yn ddigartref a'r rhesymau pam eu bod wedi mynd yn ddigartref, yn dwysáu profiadau gwahanol staff awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth a phobl sy'n wynebu digartrefedd, a gallant ymestyn profiad rhywun o ddigartrefedd, fel y dengys yr astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn.¹¹

"Maent yno, a thra maent yno, ni fyddwch byth yn cael gwared ar ddigartrefedd, na fyddwch? Oherwydd byddwch yn gallu troi pobl i ffwrdd sy'n ddigartref, gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA2¹²

Canfu ein hymchwil fod pobl sy'n profi digartrefedd a gweithwyr cymorth wedi gweld yn glir effaith andwyol gadael pobl allan, gan gynnwys gwthio pobl ymhellach oddi wrth gymorth, colli cyswllt gyda phobl sydd ag anghenion cymorth uchel, a bod y diffyg cymorth yn dwysáu problemau eraill megis dyled, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Yn y

pen draw, mae'r profion yn ymestyn profiadau unigolion o ddigartrefedd drwy beri oedi cyn y gallant gael mynediad at gymorth.

"Roeddwn i'n teimlo fel pe bai neb yn gallu fy helpu, ydych chi'n deall beth dw i'n ei olygu? Oherwydd rwy'n ymddiried, rydych yn ymddiried yn y cyngor gan mai nhw yw'r prif un. A phan wnaethant droi rownd a dweud nad oeddent yn mynd i fy helpu eto, teimlais yn anobeithiol. Nid oeddwn yn gallu gweld ffordd allan ac roedd dyledion mawr yn cronni ac roedd popeth mor ddigalon."

– Cyfweiliad â pherson sydd â phrofiad byw

"Weithiau mae rhai pobl yn diflannu o'r golwg. Pan rydym yn dweud na, na allant gael llety gyda'r awdurdod lleol ac nad oes unrhyw beth ar gael gyda'r sector rhentu preifaf, maent yn rhoi'r gorau i ymgysylltu â ni, ac yna'n rhoi'r gorau i dderbyn cymorth. A byddwn yn ceisio mynd ar eu hôl a chysylltu â nhw ond weithiau, nid oes dim y gallwch ei wneud. Ac yna byddant yn dod yn ôl trwodd eto, mae fel drws cylchdroi."

– Darparwr gwasanaeth LAA4

Drwy ein hymchwil, rydym wedi clywed gan wasanaethau, awdurdodau lleol a'r rheiny sy'n profi digartrefedd bod yr ymateb yn ystod Covid-19 – er yr her, wedi cael canlyniadau cadarnhaol iawn. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â nifer o unigolion â phrofiadau estynedig o ddigartrefedd am y tro cyntaf, gan gynnwys nifer yn ymgysylltu â gwasanaethau triniaeth a chymorth iechyd meddwl, gyda goblygiadau cadarnhaol i'r unigolion hynny yn cefnu ar ddigartrefedd.¹³

9 Mackie, P., Thomas, I. (2016) Digartrefedd Sengl Trawsnewidiol yng Nghymru. Caerdydd: WISERD.

10 Ystadegau Llywodraeth Cymru: Digartrefedd. Ar gael yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness>

11 Campbell, A. J., (2011) *Effaith Penderfyniadau Digartrefedd Bwriadol ar Fywydau Aelwydydd Cymru*. Abertawe: Shelter Cymru

12 Mae LAA2 yn cyfeirio at Ardal Awdurdod Lleol 2. Gweler Tabl 1 am ragor o fanylion ynglŷn â'r ardaloedd astudiaeth achos ar gyfer ein gwaith maes.

13 Ymateb Cymorth Cymru (2020) i Senedd Cymru | Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Ar gael yn: <https://business.senedd.wales/documents/s103225/ELGC%20COV%2039%20-%20Cymorth%20Cymru.pdf>

Mae sicrhau bod pawb yn derbyn cymorth yn ystod y pandemig hefyd wedi darparu mewnwelediad i'r hyn a allai fod yn bosib, a'r buddion o adael neb heb y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae cyfuno adnoddau, cyfeiriad clir, a rhagor o weithio ar y cyd yn dangos y gellir goresgyn y rhwystrau sy'n atal cael gwared ar y profion, ac wrth symud ymlaen y gallwn adeiladu ar lwyddiant yr ymateb yn ystod y pandemig a newid y gyfraith er gwell.

"Mae'n eithaf braf gallu cefnogi rhywun, oherwydd gall fod yn dorcalonnus dweud wrth gleient, "Mae'n ddrwg gennym, ond ni allwn roi llety i chi."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA2

Byddai dyletswydd ailgartrefu lawn – sy'n gwneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu gadael heb gymorth oherwydd angen blaenoriaethol, cysylltiad lleol, a bwriadoldeb – yn golygu na fyddai neb sy'n wynebu digartrefedd yn cael eu gadael heb y cymorth sydd ei angen arnynt oherwydd y ffordd mae ein system ddigartrefedd wedi'i dylunio. Clywsom gan weithwyr cymorth tai y byddai hyn yn eu helpu i weithredu, a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i symud ymlaen o ddigartrefedd.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y profiad yn yr Alban, gan gynnwys cael gwared ar yr angen blaenoriaethol, y newidiadau arfaethedig i gysylltiad lleol a bwriadoldeb a gwaith y Grŵp Adolygu Atal. Mae Pennod 2 yn darparu trosolwg o'r gostyngiad yn y nifer o geisiadau digartrefedd statudol a'r lleihad mewn digartrefedd mynych, y gellir eu priodoli i gryfhau hawliau cyfreithiol i bobl sy'n wynebu digartrefedd. Mae Atodiad 1 yn darparu cymhariaeth o'r dyletswyddau yng Nghymru a'r Alban a dengys er bod *Deddf Tai (Cymru) 2014* yn darparu dull mwy cynhwysfawr i fwy o bobl, mae'r dull mwy hael yn yr Alban yn sicrhau

bod mwy o bobl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i ddianc rhag digartrefedd.

"Rwy'n credu bod llawer o fiwrocratiaeth a llawer iawn o waith y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud cyn y gallant ddechrau helpu pobl...Rwy'n credu bod maint y fiwrocratiaeth sydd gennym bellach wir yn amharu ar ein gallu i helpu pobl."¹⁴

– Cyfwelai Awdurdod Lleol, Adolygiad o Angen Blaenoriaethol

Awgryma ein canfyddiadau y byddai cael gwared ar asesiadau a phroffion yn caniatáu i staff ganolbwyntio ar fodloni anghenion pobl, yn hytrach na phrosesu ceisiadau. Clywsom rwystredigaeth gan rai gwasanaethau ac awdurdodau lleol fod yr amodoldeb yn y system ddigartrefedd yn creu rhwystrau ychwanegol i staff ac ymgeiswyr. Mae hefyd yn rhwystro staff rhag gwneud yr hyn sydd ei angen i fodloni anghenion pobl. Mae hyn yn ategu'r farn yn yr Alban fod cael gwared ar yr angen blaenoriaethol nid yn unig wedi helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd i fwy o bobl a lleihau digartrefedd mynych, ond mae wedi cael goblygiadau sylweddol i bolisi ac ymarfer digartrefedd ehangach.

"Ymddengys nad yw'r cylch yn cael ei dorri yma. Ond, yr hyn rwy'n ei olygu yw bod digartrefedd yn aml yn ganlyniad rhyw broblem sylfaenol arall, felly oni chaiff y broblem honno ei datrys yn y lle cyntaf, ni fydd y digartrefedd fyth yn dod i ben. Weithiau maent yn aros yr un fath; weithiau maent yn datblygu anghenion cymorth newydd."

– Swyddog Tai LAA1

Newid y gyfraith yw'r cam cyntaf i sicrhau nad oes neb yng Nghymru sy'n wynebu digartrefedd yn cael eu gadael heb y cymorth sydd ei angen

arnynt i sicrhau cartref. Er nad yw'r adroddiad hwn yn nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer diwygio, mae'n cyfeirio at yr ystod o ddiwygiadau sy'n ofynnol er mwyn cefnogi'r system ddigartrefedd ddelfrydol yr amlinellwn yma.

Clywsom gan staff cymorth fod angen i ni hefyd sicrhau newid a buddsoddiad ar frys yn y system ddigartrefedd ehangach i ymyrryd yn gynharach, a gyda'r adnoddau cywir. Byddai'n helpu i bontio tuag at ddatrysiadau a arweinir gan dai, gan sicrhau bod gan bawb yr urddas o le diogel i alw'n gartref, a byddai'n sicrhau bod cynghorau a gwasanaethau yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn seiliedig ar fewnwelediad i'r lefelau gwirioneddol o angen, ac yn cael eu cefnogi i ddarparu'r cymorth y mae pobl ei angen i ddianc rhag digartrefedd.

"...gallwn ganolbwyntio'r sgwrs ar y math o lety y gellir ei gynnig iddynt...A beth fyddai'n addas, beth na fyddai'n addas. Sy'n sgwrs fwy dymunol o lawer na, "Ydych chi'n mynd i gael llety neu beidio?" Wyddoch chi, hyd yn oed os gallwn argyhoeddi pobl i dderbyn beth bynnag a gynnigir iddynt, a gallwn ei herio os oes angen. Mae hynny'n sgwrs wahanol i, "Mae'n ddrwg

gennym, rydych yn mynd i fod ar y stryd heno."

– Gwasanaeth LAA6

O ganlyniad i waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd mae llawer o gonsensws ar draws y sector ac ymhlith pleidiau gwleidyddol ynglŷn â'r hyn sydd angen digwydd i roi terfyn ar ddigartrefedd. Mae hyn yn cynnwys cyflenwi mwy o gartrefi, gan gynnwys mwy o gartrefi cymdeithasol; dwysáu gwaith ar y cyd ac atal ar draws gwasanaethau cyhoeddus; sicrhau bod ein gweithluoedd yn cael eu talu a'u cefnogi'n ddigonol; a gwella mynediad at lety a chymorth.

Fel yr ydym wedi gweld gyda'r dyletswyddau yn Neddf 2014 a'r diwygiad yn yr Alban, gall ehangu dyletswyddau cyfreithiol i gefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd helpu i newid diwylliant y system a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ddianc rhag digartrefedd. Nid yw newid y gyfraith yn ateb i bob problem o ran rhoi terfyn ar ddigartrefedd, ond mae'n sicrhau bod gofyniad ar gynghorau, sef yr amddiffyniad olaf yn y system ddigartrefedd, i adael neb heb gymorth pan nad yw'r holl fesurau eraill i atal neu leddfu digartrefedd wedi gweithio.



14 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Pennod 1:

Cyflwyniad a chyd-destun polisi

Yn dilyn dyfodiad y pwerau deddfu sylfaenol i Senedd Cymru yn 2011, adnabuwyd mynd i'r afael â digartrefedd drwy ddeddfwriaeth fel blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Adnabuwyd deddfwriaeth yn rhywbeth hanfodol wrth wella canlyniadau i bobl sy'n wynebu digartrefedd ac atal pobl rhag cael eu gwrthio i ddigartrefedd yn lle cyntaf.¹⁵

Roedd *Deddf Tai (Cymru) 2014* yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth i Gymru a pholisi atal yn fwy eang.¹⁶ Nid oedd yr un wlad arall wedi mabwysiadu dyletswydd atal gyffredinol o'r fath, gan roi Cymru ar flaen y gad yn y symudiad byd-eang at atal digartrefedd fel rhan hanfodol o strategaethau digartrefedd y llywodraeth.¹⁷

Rhoddodd y fframwaith newydd bwyslais mawr ar ymyrryd yn gynharach a chymorth wedi'i deilwra at anghenion penodol aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd o

fewn 56 diwrnod. I'r rheiny sydd eisoes yn ddigartref pan maent yn cysylltu â'r awdurdod lleol, neu na ellir atal eu digartrefedd, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i leddfu eu digartrefedd. Mae darparu cymorth yn gynharach i fwy o bobl wedi sicrhau bod llai o bobl wedi gorfod wynebu goblygiadau digartrefedd.

Rhwng 2015 a 2020, mae nifer yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd neu sy'n wynebu digartrefedd wedi cynyddu 40 y cant ac 80 y cant yn y drefn honno.¹⁸ Er gwaethaf hyn, mae cyfraddau atal a leddfu wedi aros yn gyson (60-70 y cant a 41 y cant yn y drefn honno) ers cyflwyno'r Ddeddf.

Fodd bynnag, er gwaethaf cyflwyno fframwaith cyfreithiol mwy cynhwysfawr a hael, cadwodd y Ddeddf elfen allweddol o *Ddeddf Tai (Personau Digartref) 1977*, sy'n

amlinellu mewn deddfwriaeth y grwpiau o bobl a ystyrir bod ganddynt 'angen blaenoriaethol' am gymorth a dyletswydd statudol i'w cefnogi i sicrhau llety sefydlog, o bosib.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol nad yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithio i bobl grŵp o bobl sy'n cael eu gwrthio i ddigartrefedd. Canfu gwerthusiad o Ddeddf 2014, anghysondebau yn y dehongliad a'r gweithrediad o'r Ddeddf a'i rheolau.¹⁹ I bobl ifanc, pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl sy'n wynebu trais domestig a rhieni nad ydynt yn brif ofalwr plentyn, mae anghysondebau a bylchau rhwng fframweithiau cyfreithiol gwahanol, ynghyd ag anghysondebau yn y dehongliad o ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Golyga hyn y gall y cymorth a dderbyniwch ddibynnu ar bwy ydych a lle'r ydych yn ceisio cymorth, yn hytrach na'r cymorth sydd ei angen arnoch i ddianc rhag digartrefedd.

Yn 2020, derbyniodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru, mewn egwyddor holl argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Mae gwaith y Grŵp Gweithredu a strategaeth ddigartrefedd Llywodraeth Cymru²⁰ wedi dangos y gallai Cymru roi terfyn ar ddigartrefedd drwy ei wneud yn ddigwyddiad prin, byr ac unwaith:

- **Dylai digartrefedd fod yn brin:** mae mwy o fesurau i'w atal ac rydym yn manteisio ar gyfleoedd i helpu pobl yn llawer cynt i sicrhau nad ydynt yn colli eu cartref yn y lle cyntaf.

- **Pan fydd digartref yn digwydd, dylai fod yn fyr:** mewn rhai achosion nid oes modd atal digartrefedd ond dylai fod yn brofiad hynod fyr, a dylid helpu pobl i aros yn eu cartref neu eu hailgartrefu cyn gynted â phosib a darparu'r holl gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- **Ni ddylai digartrefedd ddigwydd fwy nag unwaith:** yn ogystal â bod yn fyr, dylai unrhyw brofiad o ddigartrefedd ond digwydd unwaith.

Dywedodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd, fod angen i'r system ddigartrefedd fynd drwy 'newid ar lefel system' yn yr ymagwedd at atal digartrefedd.²¹ Er gwaethaf hyn, mae'r gwaith a wnaed gan gynghorau ac eraill ers 2015 i atal digartrefedd yn darparu sylfaen i gyflawni dyletswydd ailgartrefu lawn.

Yn olaf, roedd Covid-19 yn mynnu ymateb gwahanol gan awdurdodau lleol ac eraill i amddiffyn y rheiny heb un man diogel i aros. Wrth i'r pandemig fynd rhagddo, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad y dylai pobl sy'n cysgu tu allan yn ystod y pandemig gael eu trin yn gyffredinol fel pobl sy'n agored i niwed at ddibenion asesu angen blaenoriaethol am ailgartrefu.²² Ers hynny, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi nodi na fyddai neb yn cael eu gorfodi i ddychwelyd i'r strydoedd, a bod y llywodraeth yn parhau'n ymrwymedig i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.²³

15 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B. ac Wood, J. (2017) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2017*. Llundain: Crisis.

16 Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

17 Mackie, P., Thomas, I., Bibbings, J. (2017) Homelessness Prevention: Reflecting on a Year of Pioneering Welsh Legislation in Practice. *European Journal of Homelessness*. 11(1). 81-107.

18 Ystadegau Llywodraeth Cymru: *Digartrefedd*. Ar gael yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness>

19 Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I., Madoc-Jones M., Wilding, A., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I., Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: adroddiad terfynol, Adroddiad Prosiect*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

20 Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

21 Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t.5

22 Llythyr gweinidog Cymru at awdurdodau lleol, ar gymhwyso bregusrwydd ac angen blaenoriaethol mewn perthynas â llety pobl sy'n cysgu tu allan yn ystod pandemig COVID-19 (28 Ebrill 2020). Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-04/guidance-for-local-authorities-in-supporting-people-sleeping-rough-covid-19_0.pdf

23 Datganiad Ysgrifenedig: Cam 2 o'r Cynllun Digartrefedd (Mai 2020) Ar gael yn: <https://gov.wales/written-statement-phase-2-homelessness-plan>

Mae consensws cynyddol ymhlith pleidiau gwleidyddol, gwneuthurwyr polisi a'r sector yng Nghymru ynglŷn â'r newid sy'n ofynnol i roi terfyn ar ddigartrefedd, yn bennaf wrth gyflenwi tai cymdeithasol ar rent, cryfhau ymatebion gwasanaethau cyhoeddus i ddigartrefedd, a buddsoddi mewn cymorth tai. Mae pob un o brif bleidiau gwleidyddol Cymru wedi ymrwymo i adeiladu'r nifer gofynnol o dai cymdeithasol ar rent,²⁴ gan sicrhau bod gan bawb fynediad at le diogel i alw'n gartref. Awgryma hyn y bydd yr eglurder ynghylch cyfeiriad gwleidyddol a'r consensws drwy bandemig Covid-19 yn parhau o dan lywodraeth nesaf Cymru, gan adeiladu ar lwyddiant yr ymateb i Covid-19.

1.1 Methodoleg Ymchwil

Nod ein gwaith ymchwil yw adeiladu ar gorff presennol o dystiolaeth am brofiadau'r rheiny sy'n wynebu digartrefedd o dan *Ddeddf Tai (Cymru) 2014*, a phrofiadau'r rheiny nad oes dyletswydd iddynt o dan Adran 75.

Llywododd adolygiad o'r llenyddiaeth bresennol, yn canolbwyntio'n benodol ar effaith meini prawf cymhwysra, ein dull, gan gynnwys effaith profion cymhwysra ar deithiau i mewn ac allan o ddigartrefedd; dirywiad anghenion tai a chymorth; effaith ar berthnasoedd personol, gwaith ac addysg; digartrefedd mynych a'r gallu i sicrhau llety diogel. Bu i ni ddibynnu'n fawr ar yr Adolygiad o Angen Blaenoriaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gais Llywodraeth Cymru yn 2019, sy'n darparu trosolwg cynhwysfawr o safbwyntiau awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth ynglŷn ag angen blaenoriaethol, gan gynnwys trosolwg

o'r broses o gael gwared ar y prawf yn yr Alban.²⁵

Bu i ni siarad â naw aelod o staff Opsiynau Tai awdurdodau lleol – rheolwyr a'r rheiny mewn rolau rheng flaen – ynghyd â naw aelod o staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth mewn chwe ardal astudiaeth achos. Cyfrannodd pum unigolyn â phrofiad byw o wynebu'r rhwystrau cymhwysra i'r ymchwil hefyd. Roedd ein gwaith ymchwil yn ceisio cael cipolwg newydd ar arferion a dealltwriaeth awdurdodau lleol a gwasanaethau ynghylch y defnydd o feini prawf cymhwysra, a'u heffaith.

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil yn defnyddio dull astudiaeth achos manwl mewn chwe ardal a oedd yn gynrychiadol yn ddemograffeg, yn gymdeithasol-economaidd ac yn ddaearyddol o Gymru. Llywiwyd y broses ddethol gan y deipoleg o awdurdodau lleol a ddatblygwyd yng nghyfres y Monitor Digartrefedd: Cymru.²⁶ O'r chwe awdurdod lleol gwreiddiol y cysylltwyd â nhw, cytunodd pump i gymryd rhan. Ceisiwyd awdurdod arall i gymryd lle'r awdurdod lleol nad oedd yn fodlon cymryd rhan. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng hydref 2020 a dechrau 2021. O ganlyniad i bandemig Covid-19, cynhaliwyd y gwaith ymchwil o bell ac yn ddigidol. Perodd y pandemig sawl her, yn enwedig o ran recriwtio cyfranogwyr gyda phrofiadau go iawn, yn rhannol oherwydd y symudiad i weithio o bell gan wasanaethau lleol sy'n cefnogi pobl a mynediad at offer TG. O ganlyniad, roedd y meintiau sampl yn llai na'r hyn roeddem wedi'i obeithio. Derbyniodd y pump o bobl â phrofiad byw y bu i ni siarad â nhw, dalebau siopa gwerth £20 am eu cyfranogiad.

24 Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis. t.289

25 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

26 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B. ac Wood, J. (2017) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2017*. Llundain: Crisis.

Tabl 1 – Crynodeb methodoleg ymchwil

Ardal astudiaeth achos	Teipoleg y Monitor Digartrefedd	Nifer y cyfweiliadau		
		Staff Opsiynau Tai	Staff gwasanaeth	Pobl â phrofiad go iawn
Ardal Awdurdod Lleol 1	Gwledig	2	1	
Ardal Awdurdod Lleol 2	Gwledig	2	1	
Ardal Awdurdod Lleol 3	Arall	1	1	
Ardal Awdurdod Lleol 4	Cymoedd	2	1	
Ardal Awdurdod Lleol 5	Trefol	Ni wnaeth neb gymryd rhan		2
Ardal Awdurdod Lleol 6	Trefol	1	4	
Arall	Trefol	1	1	3
Cyfanswm		9	9	5

Mae'r tabl uchod yn cyflwyno manylion y gwaith maes ar draws yr ardaloedd astudiaeth achos. Bu i ni siarad â naw aelod o staff Opsiynau Tai a naw aelod o staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth i gyd. Ceisiwyd cyfranogwyr gyda phrofiad go iawn o ddigartrefedd ar draws pob ardal astudiaeth achos, gan weithio'n agos â gwasanaethau cymorth. O ystyried heriau'r gwaith maes yn sgil y pandemig, bu'n rhaid edrych y tu hwnt i'r ardaloedd astudiaeth achos gwreiddiol.

Cafodd y cyfweiliadau eu dadansoddi a'u codio yn thematig ym meddalwedd dadansoddi data ansoddol Atlas.Ti

1.2 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn dechrau drwy archwilio'r system ddigartrefedd yng Nghymru a chyflwyno'r ddadl dros ddiwygiad cyfreithiol, gan dynnu ar ein gwaith ymchwil ynglŷn â sut mae unigolion yn cael mynediad at gymorth a'u profiadau o wneud hynny. Mae'n trafod ymateb Llywodraeth Cymru yn ystod pandemig Covid-19, y bu i gyfranogwr amlygu fel rhywbeth hanfodol yn newid safbwyntiau ynglŷn

â'r defnydd o brofion cyfreithiol ac sy'n darparu sylfaen ar gyfer cyflawni'r diwygiad cyfreithiol a gynigir yn yr adroddiad hwn arni. Yna, mae'n troi at drafod sut a pham y defnyddir y meini prawf, sy'n tynnu ar lenyddiaeth bresennol ac yn cael ei gefnogi gan ganfyddiadau ein hymchwil ein hunain. Yma, rydym yn darparu cipolwg ar y grwpiau hynny o bobl sy'n fwyaf tebygol o ganfod eu hunain yn anghymwys am y brif ddyletswydd, ac effaith pob prawf, gan gynnwys sut mae'r profion yn atal staff ac unigolion rhag cael mynediad at gymorth, goblygiadau'r diffyg cymorth i'r rheiny sydd ag anghenion cymorth, ac effaith ar les a synnwyr o obaith pobl. Wrth drafod pob prawf, mae'r adroddiad yn cyfuno safbwyntiau awdurdodau lleol a darparwyr cymorth gyda safbwyntiau'r rheiny sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd. Yn olaf, mae'r adroddiad yn darparu cipolwg ar yr egwyddorion a'r fframwaith sylfaenol ar gyfer y diwygiad cyfreithiol arfaethedig.

Jake

"Pe na bai gennyf gymorth ffrindiau a phethau felly, byddwn wedi gallu bod yn farw ar y stryd. Torrodd fy nghalon bod yn ôl ar y trywydd hwnnw. Torrodd fy nghalon. Go iawn."

Collodd Jake ei gartref pan roddodd ei gyflogwr rybudd iddo ar y llety oedd yn dod gyda'i swydd. Ni ellid cyllido ei rôl mwyach, felly roedd rhaid iddo adael ei gartref. Yn yr wythnosau cyn iddo adael, ceisiodd ddod o hyd i lety arall fforddiadwy, ond methodd. Roedd gorfod gadael yn brofiad 'syfrdanol'.

Roeddwn wedi gwneud popeth o fewn fy ngallu i chwilio am eiddo, ac yna, yn amlwg ymhen ychydig roedd rhaid i mi symud allan o'r lle. Felly fy newis olaf oedd y cyngor...mae'n gohirio eich holl fywyd mewn ffordd, rydych yn gyfforddus, rydych yn ddiogel, rydych yn credu bod popeth wedi'i sortio ac yna, yn sydyn, mae popeth yn mynd o chwith.

Heb unman i fynd, ffoniodd Jake y cyngor am gymorth, a ofynnodd am brawf o'i sefyllfa. Dywedodd wrthynt na allai aros gyda'i deulu. Darparodd dystiolaeth yn bersonol y diwrnod dilynol. O fewn deng munud, dywedwyd wrtho nad oedd yn y categori angen blaenoriaethol ac na allai'r cyngor ei helpu gyda llety.

[Dywedodd y cyngor] Nid oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i ti, gallwn

gynnig cymorth i ti drwy gynllun bond a phethau felly, ond ni allwn dy roi mewn llety brys, rwyf ti'n mynd i orfod dod o hyd i rywle.

Disgrifiodd hyn fel torcalonnus a chanfu ei hun yn cerdded strydoedd y dref leol heb unman i fynd. Roedd Jake wedi profi digartrefedd o'r blaen ond y tro hwnnw roedd y cyngor wedi'i helpu i gael mynediad at le mewn llety gyda chymorth a llwyddodd i ddefnyddio sefydlogrwydd y llety fel bloc adeiladu i'w helpu i fynd i'r afael â'i broblemau gyda chamddefnyddio sylweddau.

Roeddwn yn torri fy nghalon, yn crïo, dydw i ddim yn ddyn emosynol, ond fe daflodd fi oddi ar fy echel, go iawn.

Yr hyn roedd Jake yn ei chael hi'n anodd deall bryd hynny oedd bod y cyngor wedi gwrthod ei helpu am nad oedd yn ffitio yn unrhyw un o'r categorïau angen blaenoriaethol. Roedd yn teimlo fel pe bai wedi cael ei adael i ymorol amdano'i hun.

Roeddwn wedi cyrraedd pen fy nhennyn, nid oedd gennyf un man i fynd, gallwn naill ai gael cymorth

neu fyw ar y strydoedd, ac fe wnaeth hynny fy synnu, o ddifrif, nid oeddwn wedi'i ddisgwyl.

Er i'r cyngor gynnig cynllun bond blaendal rhent, ni chafodd manylion hyn eu hegluro i Jake na bod angen iddo fod mewn cyswllt rheolaidd â'r cyngor. Pan gysylltodd â'r cyngor yn ddiweddarach i ddarganfod a oedd ganddynt ddiweddariadau iddo, dywedwyd wrtho ei fod wedi cael ei dynnu oddi ar eu system achos oherwydd diffyg ymgysylltiad. Heb gydnabyddiaeth iawn o sefyllfa Jake, ni chafodd y cymorth yr oedd ei angen arno.

Yn y diwedd, ffraeodd hi [Swyddog Tai] gyda mi...Dywedais, nid oes gennyf gredyd, nid oes gennyf fynediad at eiddo, felly sut ydw i'n mynd i chwilio am leoedd os nad oes gennyf y mynediad? Nid oes gennyf dechnoleg, nid oes gennyf arian, mae angen y cymorth ychwanegol arnaf ac nid oeddent wedi egluro hynny i mi.

Yn ddi-fudd iddo, dywedwyd wrtho pe bai wedi cael ei wneud yn ddigartref rai wythnosau ar ôl i bandemig Covid ddechrau, yna byddai'r cyngor wedi ei gartrefu ar unwaith. Gwnaeth siarad â'r cyngor eto wneud iddo deimlo bod bai arno ef am ei ddigartrefedd.

Gwnaeth [Y Swyddog Tai] i mi deimlo'n ofnadwy ac ar ben hynny, roedd fy amgylchiadau yn ddigon drwg... Gwnaeth i mi deimlo fel y dyn drwg ac mai fy mai i oedd y cwbl nad oeddwn wedi gwneud hyn, nad oeddwn wedi chwilio am yr eiddo hwn, nad oeddwn wedi cysylltu â nhw.

Ar ôl cwyno am ei driniaeth, neilltuwyd swyddog tai newydd i Jake. Un nad oedd yn, 'robotaid' neu fel 'siarad â pheiriant...heb gydymdeimlad'.

Aeth Jake at y cyngor ym mis Chwefror, ond ni ddaeth o hyd i rywle newydd i fyw tan fis Tachwedd – bron i naw mis ar ôl iddo gysylltu y tro cyntaf am gymorth. Yn ystod y cyfnod

hwnnw, roedd yn 'syrffio sofffa' a oedd yn ei atgoffa'n anffodus o'r amser caled yr aeth drwyddo y tro diwethaf roedd yn ddigartref.

Pe na bai gennyf gymorth ffrindiau a phethau felly, byddwn wedi gallu bod yn farw ar y stryd. Torrodd fy nghalon bod yn ôl ar y trywydd hwnnw. Torrodd fy nghalon. Go iawn.

Canfu'r diffyg diogelwch ac ansicrwydd sy'n nodweddiadol o 'syrffio sofffa' yn anodd eu rheoli: roedd bob amser ar bigau, yn byw allan o fag ac yn ofni y byddai'n cael ei droi allan. Canfu ei hunan yn cymryd gwrth-iselyddion eto ac yn yfed yn achlysurol.

Roedd diffyg cartref yn cyfyngu ar ei allu i ddod o hyd i waith gyda darpar gyflogwyr yn anfodlon cymryd y ganolfan waith fel ei gyfeiriad. Datblygodd Jake ymdeimlad cynyddol o anobaith am ei ddyfodol. Ychwanegodd pandemig Covid at hynny, a wnaeth hi'n fwy anodd iddo aros gydag eraill oherwydd y cyfnodau clo.

Roedd yn amhosib a dweud y gwir, ni welais oleuni ar ddiwedd y twnnel am amser hir.

Dim ond drwy hap a damwain – ac amgylchiadau trist – y newidiodd pethau er gwell i Jake. Bu farw cymydog hyn i lawr y grisiau i'w fam a chynigodd y landlord, yn gwybod am amgylchiadau Jake, y fflat oedd bellach yn wag iddo.

Mae wedi newid fy mywyd yn llwyr. Mae wedi newid fy mywyd yn llwyr.

Cafodd Jake waith fel swyddog diogelwch, ac mae'n cysgu a bwyta'n well unwaith eto. Gan fyfyrto ar ei 'gymorth' gan y cyngor, mae'n dymuno pe bai ganddynt gymorth priodol yn ei le i'r rheiny sy'n anghymwys a phe bai pethau yn cael eu hegluro'n glir. Byddai hyn wedi helpu i leddfu ei ofn mwyaf o orfod cysgu ar y stryd.

Pennod 2:

Y ddadl dros adael neb allan – “oni ddylai fod yna rwyd ddiogelwch i bawb sy'n ddigartref?”²⁷

Mae *Deddf Tai (Cymru) 2014* wedi mwynhau cryn gefnogaeth. Mae wedi helpu i wella canlyniadau, cydweithio, rhannu arferion, ac wedi cefnogi newid diwylliannol ar draws y sector. Mae hefyd wedi dangos pwysigrwydd a photensial dull yn seiliedig ar atal ac ymyrryd sy'n canolbwyntio ar y person.²⁸

Fodd bynnag, er gwaethaf y fframwaith cyfreithiol mwy cynhwysfawr a greodd y Ddeddf, mae bylchau o hyd yn y gefnogaeth sy'n rhan o'r system. O

ganlyniad, mae rhai pobl yn cael eu gadael heb gymorth i roi terfyn ar eu digartrefedd.

Ers 2015, mae 1 ym mhob 8 o bobl (9,261 o bobl) heb dderbyn y brif ddyletswydd ar ôl canfod nad oeddent yn y categori angen blaenoriaethol neu eu bod wedi achosi eu digartrefedd yn fwriadol.²⁹ Yn 2019/20, gadwyd 3 ym mhob 10 o bobl (1,773 o bobl) a oedd yn ddigartref ac wedi'u hasesu o dan Adran 75 – lle ystyrir y brif ddyletswydd neu ailgartrefu – heb y

27 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Mousteri, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

28 Mackie, P., Thomas, I. (2016) *Digartrefedd Sengl Trawsnewidiol yng Nghymru*. Caerdydd: WISERD

29 Cyfrifir y ffigur o 9,261 o bobl drwy luosi nifer yr aelwydydd nad ydynt yn y categori aelwyd person sengl gyda 2 (drwy dynnu nifer yr aelwydydd sengl o gyfanswm nifer yr aelwydydd). Yna, caiff hyn ei adio at nifer yr aelwydydd sengl dros y cyfnod 2015/16 i 2019/20. Defnyddir y lluosydd 2 oherwydd tybir bod aelwydydd o unrhyw faint mwy yn deuluoedd gyda phlant ac felly byddent yn gymwys am y brif ddyletswydd. Tybir bod aelwydydd heb fod yn sengl, nad yw'r ddyletswydd yn ddyledus iddynt, yn debygol o fod yn gyplau.

cymorth oedd ei angen arnynt i roi terfyn ar eu digartrefedd.³⁰

Mae'r profion cymhwysra wedi cael eu disgrifio yn 'rhyfedd', 'rhyfedd o hen ffasiwn', 'mymrwyl ac eithaf goddrychol', a 'rhwystr rhag cael...gwasanaethau'.^{31,32} Maent yn anghydnaws â dull atal a lleihau niwed Deddf 2014 ac yn llesteirio ymdrechion i roi terfyn ar ddigartrefedd drwy adael llawer i barhau i wynebu digartrefedd heb gymorth.

Mae ein system bresennol hefyd yn anghydnaws â'r symudiad a ddymunir tuag at dulliau sy'n canolbwyntio mwy ar y person ac yn cael eu llywio gan drawma.³³ Pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd dulliau wedi'u llywio gan seicoleg a thrawma i staff a gweithluoedd a sut y gall asesiadau agored i niwed eu hunain fod yn drawmatig i rai ymgeiswyr.

“Ydy cael angen blaenoriaethol yn ei gwneud hi'n ofynnol i bobl ailadrodd profiadau trawmatig a siarad am y niwed maent wedi'i ddioddef yn eu bywyd, onid yw hynny'n cael effaith negyddol?...Ydy rhoi'r person hwnnw drwy'r profiad yna...ydy o wir yn angenrheidiol? A ddylem fod yn gwneud hynny i bobl?”

– Cyfwelai o'r trydydd sector, Adolygiad o Angen Blaenoriaethol³⁴

Mae'r ymateb yn ystod pandemig Covid-19 wedi dangos i ni y gallwn, gyda chyfeiriad gwleidyddol, arweinyddiaeth a chyllid, ddarparu

cymorth i fwy o bobl ddianc rhag digartrefedd. Er bod y fframwaith cyfreithiol wedi lleihau'n llwyddiannus nifer y bobl sy'n wynebu'r ffurfiau gwaethaf ar ddigartrefedd, nid yw'n atal pobl rhag cael eu gwrthio i ddigartrefedd yn y lle cyntaf. Tra bod y ddeddfwriaeth bresennol yn amlwg yn helpu i wneud digartrefedd yn fwy prin drwy atal, gall weithio yn erbyn y nod o wneud digartrefedd yn ddigwyddiad byr ac unwaith. Fel yr awgryma ein gwaith ymchwil, gall rhai pobl gael eu gadael yn ddigartref am gyfnod hwy a phrofi sawl ffurf ar ddigartrefedd oherwydd eu bod yn cael eu gadael heb gymorth am bwy ydynt, lle maent yn byw a sut maent wedi dod yn ddigartref.³⁵

Mae gennym nawr y cyfle i adeiladu ar yr ymateb yn ystod Covid-19 a newid ein fframwaith presennol er gwell, drwy sicrhau nad oes neb yn mynd heb gymorth.

Canfyddiadau'r gwaith ymchwil – y ddadl dros newid

Bu i awdurdodau lleol weld rhyw faint o werth yn y meini prawf cymhwysra fel ffordd o rannu adnoddau prin ond bu iddynt gydnabod bod y system wedi'i dylunio mewn ffordd sy'n eu hatal rhag darparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl a rhoi terfyn ar eu digartrefedd.

Roedd ein canfyddiadau yn ategu gwaith ymchwil cynharach fod meini prawf cymhwysra yn creu rhwystrau; y rheiny sydd 'mewn' a'r rheiny sydd

30 Ystadegau Llywodraeth Cymru: Aelwydydd sydd wedi derbyn cymorth yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd. Ar gael yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistanthasbeenprovided-by-outcome-householdtype>

31 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Mousteri, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

32 Ibid.

33 Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

34 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Mousteri, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

35 Sanders, B., Boobis, S., ac Albanese, F. (2019) *'It was like a nightmare' The reality of sofa surfing in Britain today*. Llundain: Crisis.

'allan'.³⁶ Mae hyn yn creu gwrthdaro rhwng yr hyn y mae staff rheng flaen yn gwybod sydd ei angen i roi terfyn ar eu digartrefedd, a'r hyn sy'n cael ei annog gan y gyfraith.

"Os ydych yn cyflwyno meini prawf cymhwysra rydych ar unwaith, wel, mae'n rhywbeth mae pobl yn mynd i'w wynebu, digartrefedd, waeth beth fo'u sefyllfa, os nad ydynt yn ticio'r bocsys maent yn mynd i fod yn ddiartref ac yn aml nid yw hynny'n gweithio tuag at y nod o leihau neu atal digartrefedd yn gyfan gwbl oherwydd mae'n anochel y bydd rhywun bob amser yn disgyn drwy'r craciau a ddim yn cael eu hachub gan y rhwyd ddiogelwch."

– Darparwr gwasanaeth LAA2

"Ni fydd y meini prawf cymhwysra yn rhoi terfyn ar ddiartrefedd oni bai y ceir gwared arnynt."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA2

Newidiodd profiadau o Covid-19 safbwyntiau rhai ymatebwyr ynglŷn â'r hyn sy'n bosib, yn eu tyb nhw. Nododd gwasanaethau fanteision gallu ymgysylltu ag unigolion y gwrthodwyd cymorth iddynt droeon, a'r hyn roedd gwasanaethau yn gallu ei gyflawni.

"Rwy'n credu ei fod erioed wedi bod yn "ffaith" sefydledig i ddyfynnu, na

allwn roi llety i bawb, nad oes modd rhoi llety i bawb. Yn syml nid dyna'r achos ac rydym wedi gweld nawr gyda Covid eu bod, pan oedd angen iddynt, wedi dod o hyd i lety."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Awgrymodd rhai bod yr ymateb yn ystod Covid-19 wedi dangos natur fyrweledol y meini prawf cymhwysra. Darparodd gyfranogwyr enghreifftiau o'r gwelliannau sylweddol i amgylchiadau'r rheiny sydd wedi cael llety yn ystod y pandemig, ond a oedd wedi cael eu gwrthod o'r blaen. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd rhan amlaf yn ddynion sengl.

"Yn enwedig yn ystod [pandemig] Covid, rydym wedi cael llawer o ddynion sengl yn dychwelyd, ac yn amlwg y tro hwn maent wedi cael llety. Ac mewn rhai ffyrdd, mae hynny'n beth cadarnhaol, oherwydd rydych yn teimlo nawr eich bod yn gallu gwneud rhywbeth i helpu'r bobl hynny."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA2

Mae'r profion hefyd yn atal staff rheng flaen mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth rhag darparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl ac atal unrhyw ddirywiad yn amgylchiadau pobl. Cyfeiriodd eraill at natur drom o ran adnoddau a baich gweinyddol y profion, gan ategu

Dyletswyddau cyfreithiol a digartrefedd mynych

Awgryma dadansoddiad o geisiadau ar gyfer cymorth digartrefedd yn Abertawe o fis Ionawr 2012 i fis Rhagfyr 2015, fod nifer fawr o bobl yn wynebu digartrefedd ar fwy nag un achlysur. Yn Abertawe yn 2015, roedd 1 ym mhob 4 o ymgeiswyr wedi cysylltu â'r awdurdod am gymorth ar ryw adeg yn ystod y tair blynedd flaenorol.³⁷ Mae hyn o ddiddordeb i'n cynigion, o ystyried bod lleihad mewn digartrefedd mynych yn yr Alban wedi cael ei gysylltu'n gadarnhaol â chryfhau hawliau i bobl sy'n wynebu digartrefedd, yn arbennig cael gwared ar yr angen blaenoriaethol o'r system ddiartrefedd statudol.³⁸

36 Mackie, P. (2014) The Welsh homelessness legislation review: delivering universal access to appropriate assistance? *Contemporary Wales* 27 (1). 1-20.

37 Thomas, I., Mackie, P. (2020) *Measuring Repeat Homelessness*. Abertawe: ADR Wales.

38 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. ac Wilcox, S. (2012) *Y Monitor Digartrefedd: Yr Alban 2012*. Llundain: Crisis.

gwaith ymchwil blaenorol ynglŷn â sut mae hyn yn tynnu oddi wrth y ffocws ar ddod o hyd i ddatrysiadau a datrys problemau.³⁹

"Rwy'n aml yn canfod fy hun yn brwydro rhwng adrannau i wneud yn siŵr bod y person, y person ifanc dan sylw yn cael y flaenoriaeth maent yn gymwys amdani yn nhermau meini prawf."

– Darparwr gwasanaeth LAA2

Arweiniodd y gwersi yn ystod pandemig Covid-19, ynghyd â chydabod y rhwystrau mae'r profion yn eu peri a'r anghysondebau wrth eu cymhwysu, at gyfranogwyr yn cydnabod nad ydynt yn gydnaws â rhoi terfyn ar ddiartrefedd a bod newid cyfreithiol yn ofynnol.

"Maent yno, a thra maent yno, ni fyddwch byth yn cael gwared ar ddiartrefedd, na fyddwch? Oherwydd byddwch yn gallu troi pobl i ffwrdd sy'n ddiartref, gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA2

2.1 Pam newid cyfreithiol?

Dim ond cam cyntaf yw newid

Gwersi o'r Alban – pwysigrwydd newid cyfreithiol

Mae datblygiadau yn yr Alban yn pwysleisio pwysigrwydd newid deddfwriaethol. Ers datganoli, mae'r Alban wedi arwain y DU – ac Ewrop – drwy sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt. Bwriad diwygiadau, megis cael gwared ar yr angen

39 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

40 Ibid. t.47

41 Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I., Madoc-Jones M., Wilding, A., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I., Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: adroddiad terfynol, Adroddiad Prosiect*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

42 Ibid.

43 Bramley, G., Fitzpatrick, S., Wood, J., Sosenko, F., Blenkinsopp, J., Littlewood, M., Frew, C., Bashar, T., McIntyre, J., a Johnsen, S. (2019). *Hard Edges Scotland: New conversations about severe and multiple disadvantage*. Sefydliad Lankelly Chase.

44 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

45 Connell, A. (2017) *Datblygu a gweithredu Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Gwersi i Bolisi ac Ymarfer yng Nghymru*. Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

deddfwriaethol yn y broses o sicrhau y gallwn roi terfyn ar ddiartrefedd i fwy o bobl. Er na fydd deddfwriaeth ei hun yn rhoi terfyn ar ddiartrefedd, mae'n un o'r ffactorau sbarduno cryfaf sydd ar gael i ni.⁴⁰ Daeth Deddf 2014 yn sgil cydnabyddiaeth fod newid deddfwriaethol yn hanfodol i hybu gwelliannau a mynd i'r afael ag anghysondebau wrth gymhwysu Deddf Tai (Personau Digartref) 1977.^{41,42,43}

Awgryma llenyddiaeth bresennol ar effaith y meini prawf cymhwysra fod profion yn tynnu sylw at y system a phrosesu ymgeiswyr a bod eu natur oddrychol yn arwain at anghysondebau – gan ategu pryderon am fframwaith 1977 lle'r oedd ymarfer yn "camgyfieithu'r hyn roedd y ddeddfwriaeth yn ei ddweud mewn gwirionedd."^{44, 45} Yn ein gwaith ymchwil, clywsom gan awdurdodau lleol a gwasanaethau fod gallu helpu pawb drwy Covid-19 wedi golygu y gallai gwasanaethau ganolbwyntio ar roi'r cymorth iawn i bobl.

Yn bwysicaf oll, fel y dengys ein gwaith ymchwil, tra mae meini prawf cymhwysra yn bodoli, ni allwn roi terfyn ar ddiartrefedd.

blaenoriaethol a chynigion i gael gwared ar gysylltiad lleol a bwriadoldeb oedd cael gwared ar rwystrau i atal effeithiol, cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar y person a thosturiol, a rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i aelwydydd.

Lleihaodd fframwaith estynedig yr Alban o hawliau cyfreithiol, ddisgresiwn ac anghysondebau drwy greu fframwaith cyfreithiol mwy syml a chryno. Arweiniodd cael gwared ar yr angen blaenoriaethol at ffocws mwy cryf ar ddeall a bodloni anghenion y rheiny sy'n wynebu digartrefedd a blaenoriaethau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd a oedd yn gweithredu fel rhwystrau i ymyrryd effeithiol yn cael eu disodli. Dywedodd Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban:

"Mae Ymrwymiad Digartrefedd 2012 – i roi'r hawl i lety sefydlog i bob person digartref yn anfwriadol – yn sefyll fel un o lwyddiannau mwyaf arwyddocaol Senedd yr Alban yn nhermau rhyngwladol. Mae wedi derbyn canmoliaeth fyd-eang a nodi'n glir iawn y math o gymdeithas y dymuna Albanwyr fyw ynddi. Mae hefyd wedi arwain at ystod o newidiadau mewn polisiau ac arferion tai a digartrefedd sydd wedi trawsnewid y modd y caiff anghenion pobl ddigartref eu bodloni. Mewn cwta ddegawd, rydym wedi gweld newid o system yr oedd nifer yn teimlo ei bod yn dad-ddyneiddio, annheg a dad-rymusol i ddull sy'n canolbwyntio ar y person ac yn ceisio dod o hyd i ddatrysiadau priodol i bawb."⁴⁶

Yn dilyn cael gwared ar yr angen blaenoriaethol yn yr Alban, gwelwyd leihad o 19 y cant yn nifer y ceisiadau digartrefedd statudol, y gellir ei briodoli i bolisi a mesurau gweinyddol wedi'u targedu ac ehangu hawliau ailgartrefu statudol i bobl ddigartref sengl.⁴⁷

Hyd yn oed gyda'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd fwyaf blaengar ym Mhrydain Fawr, mae'r Alban wedi parhau i ystyried sut y gall wella ei fframwaith cyfreithiol ei hun er mwyn cryfhau hawliau, galluogi gwasanaethau i weithredu, ac atal pobl rhag wynebu digartrefedd.

Dywedodd adroddiad Grŵp Gweithredu yr Alban ar Ddigartrefedd a Chysgu Tu Allan: *"Yng nghyd-destun ystyried sut mae cyflawni'r canlyniadau gorau posibl, yn benodol i'r rheiny gyda'r anghenion mwyaf cymhleth, mae darpariaethau bwriadoldeb a chysylltiad lleol...yn codi'r mater o rwystrau posib o fewn y system ar yr un pryd ag y mae dulliau 'wedi'u llywio gan seicoleg' yn cael eu mabwysiadu ar atal."*

Mae'r Grŵp Adolygu Atal dan arweiniad Crisis, wedi datblygu fframwaith cyfreithiol sy'n cwmpasu iechyd, iechyd cyhoeddus, gofal cymdeithasol, y system carchar, gwasanaethau plant a theuluoedd, landlordiaid preifat, ac ysgolion. Mae'r cynigion yn cyflwyno dyletswyddau ar ystod o gyrff cyhoeddus i ofyn a gweithredu er mwyn atal digartrefedd.⁴⁸

46 Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban http://www.scottish.parliament.uk/S4_InfrastructureandCapitalInvestmentCommittee/Inquiries/SFHA.pdf

47 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. ac Wilcox, S. (2012) *Y Monitor Digartrefedd: Yr Alban 2012*. Llundain: Crisis. t.viii

48 Reid, B. (2021) *Preventing Homelessness in Scotland. Recommendations for legal duties to prevent homelessness: A report from the Prevention Review Group.*

Pennod 3:

Cymorth digartrefedd yng Nghymru heddiw


Roedd Deddf 2014 yn ddarn pwysig iawn o ddeddfwriaeth, yn pwysleisio ymyrryd yn gynharach a chymorth wedi'i deilwra at anghenion penodol aelwydydd ynghynt i atal digartrefedd ac atal dirywiad yn amgylchiadau rhywun.

O dan Ddeddf 2014 dim ond yn ystod ail gam yr asesiad y caiff profion eu cymhwyso, os yw ymdrechion i atal

neu leddfu digartrefedd wedi bod yn aflwyddiannus. Yn ymarferol, golyga hyn y dylai pawb gael cymorth i dderbyn neu leddfu eu digartrefedd o fewn 56 diwrnod, beth bynnag fo'r cysylltiad lleol, bwriadoldeb, neu angen blaenoriaethol, cyn belled ag y cânt eu hasesu yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod.



Ffigwr 1 – Diffiniadau ar gyfer pob Cam a lle y cymhwysir profion cymhwysra



Byddai'r 'brif ddyletswydd' (neu ddyletswydd ailgartrefu Adran 75) yn ddyledus i ymgeisydd os gallant fodloni pob un o'r profion canlynol:


- Mae **angen blaenoriaethol** yn asesu a yw rhywun yn perthyn i gategori arbennig a fyddai'n pennu a ydynt mewn angen blaenoriaethol am gymorth.⁴⁹
- Mae **cysylltiad lleol** yn pennu a oes gan unigolion naill ai gysylltiadau lleol neu os ydynt wedi byw neu weithio yn yr ardal lle maent yn ceisio cymorth.⁵⁰
- Mae **bwriadoldeb** yn pennu a yw ymgeisydd wedi gwneud rhywbeth neu fethu â gwneud rhywbeth yn fwriadol sydd wedi arwain at eu digartrefedd.⁵¹

Mae rhywun yn gymwys am gymorth os ydynt yn ddinesydd y DU ai peidio gyda mynediad at gronfeydd cyhoeddus.⁵² Mae dyletswyddau yn ddyledus iddynt os gallant ddangos eu bod yn profi digartrefedd neu mewn perygl o hynny, o fewn 56 diwrnod. Mae'r 'brif ddyletswydd' (neu'r ddyletswydd ailgartrefu o dan Adran 75 y Ddeddf) yn ddyledus iddynt os ydynt mewn categori angen blaenoriaethol, yn gallu dangos cysylltiad lleol, ac nid ydynt wedi achosi eu digartrefedd yn fwriadol.

49 Deddf Tai (Cymru) 2014 a70
 50 Deddf Tai (Cymru) 2014 a81
 51 Deddf Tai (Cymru) 2014 a77
 52 Deddf Tai (Cymru) 2014 a.61.2

Ffigwr 2 – Y broses ddigartrefedd a chanlyniadau ar gyfer Cam Un, Dau a Thri yn 2019-20

Proses deddfwriaeth ddigartrefedd Cymru, gan gynnwys data canlyniadau ar gyfer Camau Un (Cymorth i atal) Dau (Cymorth i Sicrhau) a Thri (Digartref – yn amodol ar asesiad A75) 2019-20



*Arall yn cynnwys cymorth wedi'i wrthod, diffyg cydymffurfiaeth a rhesymau eraill
 O ganlyniad i natur grynsyth data, mae llinellau bylchog yn awgrymu y dylid tybio bod achosion wedi cael eu trosglwyddo Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Tabl 2 – Nifer yr aelwydydd yn gwneud cais am gymorth a oedd yn wynebu digartrefedd neu dan fygythiad digartrefedd ymhen 56 diwrnod ers 2015/16

2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
7,128 o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd (A66); 65% wedi'u hatal	9,231 o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd (A66); 62% wedi'u hatal	9,072 o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd (A66); 66% wedi'u hatal	10,737 o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd (A66); 68% wedi'u hatal	9,993 o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd (A66); 67% wedi'u hatal
6,891 o aelwydydd wedi'u hasesu'n ddigartref (A73); 45% wedi'u lliniaru	10,908 o aelwydydd wedi'u hasesu'n ddigartref (A73); 41% wedi'u lliniaru	11,277 o aelwydydd wedi'u hasesu'n ddigartref (A73); 41% wedi'u lliniaru	11,715 o aelwydydd wedi'u hasesu'n ddigartref (A73); 41% wedi'u lliniaru	12,339 o aelwydydd wedi'u hasesu'n ddigartref (A73); 41% wedi'u lliniaru
<ul style="list-style-type: none"> • Yn amodol ar ddyletswydd i asesu (A75) 3,228 • 1,611 (50%) gydag angen blaenoriaethol ac anfwriadoldeb (A75); 1,284 (80%) wedi cael cartref yn llwyddiannus • 1,617 heb ddyletswydd (50%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn amodol ar ddyletswydd i asesu (A75) 3,459 • 2,073 (81%) gydag angen blaenoriaethol ac anfwriadoldeb (A75); 1,617 (78%) wedi cael cartref yn llwyddiannus • 1,386 (40%) heb ddyletswydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn amodol ar ddyletswydd i asesu (A75) 3,954 • 2,229 (56%) gydag angen blaenoriaethol ac anfwriadoldeb (A75); 1,746 (78%) wedi cael cartref yn llwyddiannus • 1,725 (44%) heb ddyletswydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn amodol ar ddyletswydd i asesu (A75) 4,491 • 2,631 (59%) gydag angen blaenoriaethol ac anfwriadoldeb (A75); 2,091 (79%) wedi cael cartref yn llwyddiannus • 1,860 (41%) heb ddyletswydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn amodol ar ddyletswydd i asesu (A75) 4,659 • 3,060 (66%) gydag angen blaenoriaethol ac anfwriadoldeb (A75); 2,388 (78%) wedi cael cartref yn llwyddiannus • 1,599 (34%) heb ddyletswydd

Tabl 3 – Nifer yr ymgeiswyr cymwys (unigolion/teuluoedd) a'r rheiny sydd heb angen blaenoriaethol neu'n ddigartref yn fwriadol pob blwyddyn ers 2015/16

	Cymwys, digartref a chydag angen blaenoriaethol ond yn fwriadol	Cymwys, digartref ond heb angen blaenoriaethol	Unigolion/teuluoedd dan fygythiad o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn	Unigolion/teuluoedd wedi cael eu hasesu'n ddigartref yn ystod y flwyddyn
2015/16	273	1,344	7,128	6,891
2016/17	126	1,260	9,231	10,908
2017/18	159	1,566	9,072	11,277
2018/19	201	1,659	10,737	11,715
2019/20	129	1,470	9,993	12,399

Ers 2015/16, mae nifer y bobl sy'n cysylltu â'u hawdurdod lleol am gymorth a aseswyd fel dan fygythiad o ddigartrefedd neu'n profi digartrefedd wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall. Er gwaethaf hyn, mae cyfraddau atal a lleddfu wedi aros yn gyson.⁵³

Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o bobl wedi cael eu gadael heb y gymorth sydd ei angen arnynt ar ôl cael eu hystyried yn anghymwys pan gawsant eu hasesu o dan ddyletswydd ailgartrefu Adran 75.



53 Ystadegau Llywodraeth Cymru: Digartrefedd. Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness>

Canfyddiadau'r ymchwil – Y realiti o ran cael mynediad i gymorth

Er bod Deddf 2014 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu rhoi ar waith, rhoddodd cyfranogwyr yr ymchwil enghreifftiau o anghysondebau sylweddol o ran sut a phryd roedd meini prawf cymhwysra yn cael eu defnyddio, a'r anawsterau yr oedd rhai'n eu hwynebu o ganlyniad i hyn.

Nododd un gwasanaeth enghreifftiau lle nad oes asesiad llawn o anghenion unigol. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau presennol o ran staff rheng-flaen yn gwneud penderfyniadau ar sail bregusrwydd, gan arwain at rai unigolion yn methu â bod yn 'gymwys' ar gyfer y brif ddyletswydd.^{54, 55}

"Dw i'n meddwl weithiau bod ymagwedd ddifater, "O wel, mae pawb yn isel eu hysbryd felly does dim rhaid i ni". Ti'n gwybod? Nid yw'n golygu eich bod ag angen blaenoriaethol, mae pawb yn isel eu hysbryd dan eich amgylchiadau. Ac felly, ie, weithiau mae fel 'na. Dyna'r ymagwedd reng-flaen."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Mae hyn yn debygol o fod oherwydd y trothwy bregusrwydd eithaf uchel yng Nghymru. Sefydlodd y prawf 'Pereira', yn Neddf 2014, 'y person digartref cyffredin' fel y cymharydd ar gyfer bregusrwydd, gan olygu 'person digartref cyffredin ar y stryd'.⁵⁶ Mae dyfarniad Hotak yn Lloegr wedi ail-ddiffinio'r cymharydd i fod yn 'berson

cyffredin', sy'n lleihau'r trothwy y byddai rhywun yn cael ei ddiffinio'n fregus yn *Neddf Lleihau Digartrefedd 2017*.⁵⁷

I rai unigolion, gall hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng bod yn amodol i'r brif ddyletswydd neu beidio. Daethom i'r casgliad bod pobl ag anghenion iechyd meddwl 'lefel isel' neu broblemau camddefnyddio sylweddau yn aml yn cael eu heffeithio gan y trothwy bregusrwydd eithaf uchel, sy'n ategu canfyddiadau gwaith ymchwil presennol.⁵⁸

"Felly, bydden i'n dweud y bobl hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl lefel is, materion iechyd corfforol o bosib, ond nid ydynt yn "ddigon sylweddol" i'w gwneud nhw'n gymwys am angen blaenoriaethol."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Amlygodd gwasanaethau sy'n gweithredu dros sawl awdurdod lleol anghysondebau o fewn a rhwng awdurdodau, gydag ymagweddau gwahanol o lefelau anghenion gwahanol y mae'n rhaid i rywun eu harddangos i gael mynediad i gefnogaeth.

"Rydym yn cael llawer o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl ond gan eu bod nhw'n, mae'n cael ei drin gan y meddyg teulu, er enghraifft, felly nid ydynt yn rhan o'r braced angen blaenoriaethol. Mae'n ymddangos bod gwahaniaeth, ac rwyf wedi sylweddoli arno gydag awdurdodau lleol gwahanol hefyd, o ran beth sy'n sbarduno angen blaenoriaethol i rywun

gyda materion iechyd meddwl. Gall fod yn fath o feddyginiaeth mewn un awdurdod lleol, neu gall fod y ffaith bod rhywun mewn cyswllt gyda CPN [Nyrs Seiciatreg Cymunedol] mewn awdurdod lleol arall. Mae'n amrywio, does dim byd cadarn sy'n nodi, dyma yw angen blaenoriaethol."

– Gwasanaeth LAA4

Nododd awdurdodau lleol a gwasanaethau mewn rhai ardaloedd, waeth beth fo'r angen blaenoriaethol, y byddai rhyw fath o gefnogaeth yn cael ei chynnig, gan amlygu'r gwahaniaethau o ran cael mynediad i gefnogaeth ledled Cymru.

"Felly maen nhw [awdurdod lleol] yn defnyddio prawf angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, os nad yw rhywun – os oes penderfyniad nad yw'n angen blaenoriaethol – byddant fel arfer yn dal i gynnig gwasanaethau dydd, dyna maent yn ei alw. Felly gall hynny fod yn rhywbeth fel lle ar y llawr neu lety hostel, pod, rhywbeth felly."

– Gwasanaeth LAA6

"...mae'r rhan fwyaf o bobl sydd heb anghenion blaenoriaethol yn bobl sengl, ac rydym wastad wedi darparu llety. Wedyn, os nad ydynt yn gymwys, efallai dim hawl [i gael arian cyhoeddus] neu os nad oes cysylltiad lleol, byddem yn dal i roi llety brys iddyn nhw."

– Rheolwr Opsionau Tai LAA6

Mae gan y 'loteri' hon ganlyniadau drwg i lawer. Er y bydd rhai o'r rheiny nad oes ganddynt hawl i ddyletswydd yn llwyddo i gael rhyw fath o lety, gwyddom bod llawer yn dal i gael trafferth, ac o ganlyniad maent yn gofyn am gefnogaeth eto'n nes ymlaen. Mae gwasanaethau'n nodi pan fo pobl yn cyflwyno am gefnogaeth

yn nes ymlaen, mae eu hanghenion cymorth yn llawer mwy, a'r sefyllfa dai wedi gwaethygu.

"Rwy'n mynd i weld pobl yn eithaf aml sydd heb angen blaenoriaethol, ac mae'n amlwg iawn bod ganddynt angen blaenoriaethol... ry'n ni'n mynd drwy'r cylch ohonyn nhw'n bod mewn sefydliad iechyd meddwl, gyda ni, yn ôl ar y strydoedd. Ry'n ni'n gwybod bod gan lawer yr anghenion hyn, ond ni fyddant yn eu rhoi nhw i lawr fel blaenoriaeth."

– Gwasanaeth LAA6

Bu i wasanaethau nodi dynion sengl a phobl sy'n cysgu ar y stryd fel y prif grŵp o ymgeiswyr sy'n wynebu'r rhwystrau hyn yn gyson, sy'n ategu gwaith ymchwil blaenorol.⁵⁹ Dengys tystiolaeth mai'r grŵp hwn o bobl wnaeth elwa fwyaf o'r diwygiadau cyfreithiol yn yr Alban.⁶⁰

"Ymgeiswyr gwrywaidd, sengl, o leiaf 30 oed bydden i'n ddweud. Ti'n gwybod, jest cyrraedd y... mynd heibio'r angen blaenoriaethol oherwydd mewn gwirionedd nid yw bwriadoldeb a chysylltiad lleol yn broblem os oes gennych angen blaenoriaethol sefydledig. Dyna'r peth cyntaf y mae'r cyngor yn edrych arno. A bydden i'n dweud, ie, y brif bobl sy'n dioddef o hynny yw oedolion, gwrywod sengl."

– Gwasanaeth LAA6

Roedd gan wasanaethau ac awdurdodau lleol gofnodion gwahanol o'r broses asesu a'r gefnogaeth oedd ar gael i ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai oedd heb hawl i ddyletswydd. Adroddodd awdurdodau lleol bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn deg, a'i amgylchiadau'n cael eu harchwilio'n llawn, a bod pob un yn cael rhyw fath o gymorth, waeth beth fo'i gymhwysedd.

54 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

55 Bretherton, J., Hunter, C., a Johnsen, S. (2013) 'You can judge them on how they look...: Homelessness Officers, Medical Evidence and Decision-Making in England', *European Journal of Homelessness*. 7(1). 69-92.

56 Penderfyniadau Llys Apêl Cymru a Lloegr (Is-adran Sifil)>> Pereira, R (ar gais) v Bwrdeistref Camden, Llundain [1998] EWCA Civ 863 (20 Mai 1998). Ar gael yn: <http://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/1998/863.html>

57 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t.14

58 Ibid. t.14

59 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

60 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. ac Wilcox, S. (2012) *Y Monitor Digartrefedd: Yr Alban 2012*. Llundain: Crisis.

David



"...yn feddylol, mae'n dy chwalu. Mae'n ofnadwy. Ni fyddwn yn ei ddymuno ar unrhyw un. Dw i ddim yn deall sut oedden nhw'n cael rhoi bagiau cysgu i mi gan nad oedd unrhyw un i fod i gysgu ar y stryd."

Cafodd David le mewn hostel yn rhan o'r mesurau llety argyfwng yn ystod Covid-19 yr oedd ei gyngor lleol wedi'u rhoi ar waith. Roedd wedi ceisio cymorth gan y cyngor ar ôl gorfod gadael cartref ei fam o ganlyniad i'w perthynas yn chwalu. Gofynnwyd i David adael yr hostel oherwydd honiadau o ymddygiad drwg. Pan ailymwelodd â'r asiantaeth oedd yn gweithredu ar ran Opsiynau Tai y cyngor yn ystod y pandemig, cafodd fag cysgu, a dim cymorth pellach.

Mae gan David hanes o broblemau iechyd meddwl ac roedd dod yn ddigartref yn heriol tu hwnt iddo. Dywedodd yr asiantaeth wrtho ei fod wedi gwneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol gan iddo gael ei droi allan o'r hostel, ac felly nid oedd yn gymwys i gael cymorth mwyach ac nid oedd yn flaenoriaeth. Roedd David yn flin ac yn teimlo ei fod wedi cael ei drin yn annheg, heb unrhyw gydnabyddiaeth o'i sefyllfa fregus iawn. Cafodd ei adael heb unrhyw le i droi ato, a chysgodd David ar y stryd am dair noson.

Bagiau cysgu, mae hi wedi mis Hydref, beth ydw i, beth ydw i'n ei wneud gyda bag cysgu y tu allan?

Disgrifiodd y ffordd yr oedd staff wedi siarad ag ef mewn ffordd nawddoglyd, ac yn ei fychanu, gan gymryd yn ganiataol mai ei fai ef oedd ei sefyllfa.

Ro'n nhw'n siarad gyda fi fel pe byddwn yn blentyn pump oed gan fy mod i'n ifanc, ac roedd hi'n gallu dweud fy mod yn dechrau gwylltio... parhaodd i siarad â mi fel plentyn.

Cafodd cysgu ar y stryd effeithiau niweidiol pellach ar ei iechyd meddwl a'i les. Roedd wedi colli gobaith o gael rhagor o gymorth gan y cyngor, ac roedd yn poeni y byddai profiadau o'r fath yn ei yrru i ddefnyddio cyffuriau eto, yr oedd wedi peidio ers tro.

...yn feddylol, mae'n dy chwalu. Mae'n ofnadwy. Ni fyddwn yn ei ddymuno ar unrhyw un. Dw i ddim yn deall sut oedden nhw'n cael rhoi bagiau cysgu i mi gan nad oedd unrhyw un i fod i gysgu ar y stryd.

Cysylltodd David â gwasanaeth digartrefedd ieuencid lleol wnaeth ddweud bod ganddo ddau opsiwn: un oedd mynd ar restr aros tai'r cyngor, neu geisio dod o hyd i rywbeth yn y sector rhentu preifat. Ar ôl i'w hyfforddwr gwaith Credyd Cynhwysol awgrymu iddo gysylltu â Crisis, llwyddodd i ddod o hyd i fflat un ystafell. Darparodd Crisis gymorth i chwilio am eiddo priodol a fforddiadwy, a hefyd blaendal ymlaen llaw.

Roedd dod o hyd i gartref newydd yn nodi diwedd cyfnod anodd David o syrffio-soffa, ac roedd yn golygu bod modd iddo ganolbwyntio ar y dyfodol. Disgrifiodd y pedwar mis a gymerodd iddo ddod o hyd i gartref newydd fel y rhai mwyaf arwyddocaol o'i fywyd, o ran yr effaith negyddol arno. Mae bod â lle diogel i aros ynddo yn golygu y gall David fynd i'r afael â'i anghenion iechyd meddwl a chwilio am waith eto.

Cysgu allan yng Nghymru

Mae gwaith ymchwil presennol wedi dangos bod pobl sy'n cysgu ar y stryd ymysg y rhai sydd wedi elwa leiaf dan Ddeddf 2014.^{61, 62} Mae'r data cysgu ar y stryd llawn ddiwethaf a gyhoeddwyd yng Nghymru cyn i'r pandemig Covid-19 gyrraedd y DU yn dangos dros gyfnod o bythefnos yn Hydref 2015, amcangyfrifwyd bod 240 o bobl yn cysgu ar y stryd, gan godi i 405 dros yr un cyfnod yn 2019, sy'n gynydd o 69 y cant. Yn ystod y pandemig, mae adroddiadau gwybodaeth lleol yn dangos ar 31 Rhagfyr 2020, bod 61 o unigolion yn cysgu ar y stryd ledled Cymru. Mae hyn yn ostyngiad o'r 96 o unigolion oedd yn cysgu ar y stryd ar 30 Tachwedd 2020.⁶³ Dim ond o ganlyniad i'r camau a gymerwyd yn ystod Covid-19, a chodi meini prawf cymhwysra y mae niferoedd sylweddol o bobl sy'n cysgu ar y stryd wedi gallu cael mynediad i gefnogaeth ailgartrefu, ac mae awdurdodau lleol wedi gallu lleihau nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn eu hardaloedd yn sylweddol.

"Rwy'n fodlon ein bod yn archwilio pob achos ac os oes angen blaenoriaethol amlwg, ti'n gwybod, ni'n darparu ar gyfer hynny... a dw i'n meddwl mai'r ymgeiswyr sengl sydd heb angen blaenoriaethol o bosibl. Ond os oes rheswm i gredu bod gan rywun angen blaenoriaethol; er enghraifft os ydyn nhw'n dweud eu bod yn dioddef o orbryder, iselder... byddem yn sicr yn ymchwilio i hynny ymhellach. Nid ydym yn gweithredu unrhyw bolisi cyffredinol sy'n nodi na allwch gael unrhyw beth os ydych yn ymgeisydd sengl."

– Swyddog Tai ALI LAA4

Roedd staff mewn awdurdodau lleol hefyd o'r farn nad oedd bod heb angen blaenoriaethol fel mater o drefn yn golygu nad oedd ymgeiswyr yn gymwys am gymorth. Amlygodd rhai awdurdodau lleol achosion ble roedd rhai unigolion wedi cael eu cefnogi i gael mynediad i lety er nad oedd ganddynt hawl i'r brif ddyletswydd.

"Cyn y pandemig, pe byddai rhywun heb angen blaenoriaethol byddem fel arfer yn ceisio gweithio gyda phobl oedd angen llety beth bynnag; felly, peidio â gofyn iddynt adael llety dros dro, ond ceisio dod o hyd i ryw fath o lety a rhoi cymorth o ran y costau cyntaf gyda'r cymorth oedd ar gael."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA1

Roedd gwasanaethau mewn rhai achosion yn cytuno y byddai awdurdodau lleol yn dal i geisio cefnogi unigolion nad oeddent yn gymwys ar gyfer y brif ddyletswydd.

"Dw i'n meddwl bod yr awdurdod lleol yn eithaf da mewn gwirionedd. Maent yn eithaf hyblyg o ran edrych ar bobl, eu bregusrwydd, a byddant yn ymchwilio, a hynny mewn ffordd sensitif hefyd. A hyd yn oed os nad oes gan rywun yr angen blaenoriaethol, byddant yn ceisio dod o hyd i rywbeth lle gallant eu cefnogi."

– Gwasanaeth LAA4

Mae hyn yn peri'r cwestiwn am yr amser sy'n cael ei dreulio'n prosesu ceisiadau i bennu cymhwysra ac yn amlygu'r tensiynau a glywsom yn ein hymchwil rhwng beth mae staff rheng-flaen yn gwybod sydd ei angen ar bobl a beth sy'n cael ei annog gan y gyfraith.

Mae'r anghysondebau o ran defnyddio'r meini prawf, dehongliad a'r 'lefelau derbynol' gwahanol o fregusrwydd – gan gynnwys y gallu i staff unigol ddiystyru'r meini prawf – o bosib yn dadlau dros system gyfreithiol fwy syml a chadarn fyddai'n rhoi mwy o eglurder i ymgeiswyr a staff i sicrhau nad oes unrhyw un yn peidio â chael y cymorth sydd ei angen arnynt.

"Felly, pobl sengl, mae mwyafrif y bobl sydd heb angen blaenoriaethol yn bobl sengl, ac rydym wastad wedi darparu llety. Wedyn, os nad ydynt yn gymwys, efallai dim hawl [i gael arian cyhoeddus] neu os nad oes cysylltiad lleol, byddem yn dal i roi llety brys iddyn nhw."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA6

3.1 Sut a pham y defnyddir y profion

Mae hawliau a dyletswyddau statudol yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi gwaith cydweithredol a phartneriaeth ac mae ganddynt effaith rymusol ar weithluoedd a'r rhai sy'n wynebu digartrefedd.⁶⁴ Mae diffyg yr hawliau hynny yn cael eu "nodi'n glir gan wasanaethau digartrefedd, sy'n aml yn cael eu gadael i 'gario'r baich' pan ddylai gwasanaethau eraill gamu i'r adwy."^{65, 66}

Gall deddfwriaeth hefyd yrru newid dyfnach, adeiladu dealltwriaeth a rennir am flaenoriaethau a chreu a chefnogi diwylliant ac ymddygiad. Oherwydd effaith ddiwyllianol a gwydnwch deddfwriaeth mae'r profion yn dal i fodoli yn ein fframwaith cyfreithiol, er bod cydnabyddiaeth y gall y profion fod yn niweidiol a chreu rhwystrau at gefnogaeth effeithiol.

Mae ein hymchwil ac astudiaethau blaenorol wedi dangos bod cyfres gliriach o amddiffyniadau cyfreithiol i bobl ddigartref wedi cael effaith bwerus ar y rhai sy'n ceisio cymorth. Beth sy'n amlwg ym mhob un o'r astudiaethau achos profiad byw o ddigartrefedd yn ein hymchwil yw'r effaith negyddol y mae cael eu gadael rhag cael cefnogaeth yn ei chael ar synnwyr o ddiogelwch pobl o ran gwybod pa gymorth sydd ar gael.⁶⁷

Canfyddiadau'r ymchwil – Dogni adnoddau prin

Yn aml, mae awdurdodau lleol yn disgrifio profion cymhwysra fel ffordd o ddweud y gwahaniaeth rhwng y rheiny sydd angen cymorth fwyaf a'r rhai sydd ei angen leiaf. Maent yn cynnig elfen o reoli dros fynediad i adnoddau prin y mae galw mawr amdanynt, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth fwyaf yn gallu cael eu blaenoriaethu.⁶⁸

Mae hyn yn fwy gwir i awdurdodau lleol sy'n gweithredu mewn cyfnod o gyfyngiadau o ran adeiladu tai fforddiadwy, cyllidebau dan bwysau, a newidiadau lles sy'n gyrru pobl i ddigartrefedd ac yn cyfyngu ar yr

61 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Mousteri, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

62 Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. (2018). *Bywyd ar y strydoedd: atal a thaclo cysgu ar y stryd yng Nghymru*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

63 Er nad oes modd cymharu'r casgliad data diweddaraf ar gysgu ar y stryd gyda data blaenorol, mae'r data'n dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd ers y cyfrifiad swyddogol ym mis Tachwedd 2019. Ystadegau Llywodraeth Cymru: Digartrefedd. Ar gael yn: <https://gov.wales/national-rough-sleeper-count>; Darpariaeth lety i'r digartref a chysgu ar y stryd: Rhagfyr 2020. Ar gael yn: <https://gov.wales/homelessness-accommodation-provision-and-rough-sleeping-december-2020>

64 Watts, B. (2014) Homelessness, empowerment and self-reliance in Scotland & Ireland: the impact of legal rights to housing and homeless people. *Journal of Social Policy*. 43(4).

65 Bramley, G., Fitzpatrick, S., Wood, J., Sosenko, F., Blenkinsopp, J., Littlewood, M., Frew, C., Bashar, T., McIntyre, J., a Johnsen, S. (2019). *Hard Edges Scotland: New conversations about severe and multiple disadvantage*. Sefydliad Lankelly Chase.

66 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Mousteri, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

67 Watts, B. (2014) Homelessness, empowerment and self-reliance in Scotland & Ireland: the impact of legal rights to housing and homeless people. *Journal of Social Policy*. 43(4). 793-810

68 Mackie, P., Thomas, I. (2016) *Digartrefedd Sengl Trawsnewidiol yng Nghymru*. Caerdydd: WISERD

opsiynau sydd ar gael iddynt.⁶⁹

Bu i bob cyfranogwr bwysleisio nad yw'r meini prawf cymhwysra yn adnodd maleisus yn fwriadol, ond eu bod yn cael eu defnyddio fel mesurau effeithiol sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddogni mynediad i lety. Roedd y teimladau hyn yn gyffredin ymysg cyfranogwyr awdurdod lleol ein hymchwil.

"Dw i'n meddwl o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, mae'n rhaid bod rhyw ffordd o flaenoriaethu a rheoli'r adnoddau sydd gennym."
– Swyddog Tai LAA1

"Y prif heriau sydd gennym, sydd wedi'u nodi yn ein strategaeth ddigartrefedd ranbarthol, yw diffyg llety addas – boed hynny'n brinder tai dros dro neu gymdeithasol, dim digon o dreiddio i mewn i'r sector rhentu preifat, ac angen am fwy o dai â chymorth – mae'n amlwg bod diffyg llety sy'n ein galluogi ni neu unrhyw awdurdod i gyflawni dyletswyddau'n llwyddiannus."
– Rheolwr Gwasanaeth LAA3

Roedd darparwyr gwasanaeth yn cydnabod yr heriau a achoswyd gan ddiffyg llety a chymorth, yn enwedig o ystyried y nifer cynyddol o bobl sy'n gofyn am gymorth gan yr awdurdod lleol.

"Dw i hefyd yn meddwl ei fod [cymhwysra] yn gweithio ar gyfer materion eraill felly mae" adnoddau ac ati... does dim digon o leoedd i bobl felly os ydych yn lleihau nifer y bobl sydd, sori, os ydych yn lleihau nifer y bobl sy'n gymwys i gael llety, mae'n lleihau'r angen am lety."
– Darparwr gwasanaeth LAA2

"...mae'n anodd pan mae rhywun yn ffonio ac yn dweud ei fod yn ddigartref. Mae'n rhaid iddynt

[awdurdodau lleol] weithredu ar unwaith. Mae'n rhaid iddynt weithredu ar unwaith i geisio dod o hyd i rywle addas ar eu cyfer. A chyn belled ag sy'n bosibl, mae'n rhaid iddo fod yn addas a dw i'n meddwl eu bod yn defnyddio cymaint ag y gallant fel bod dim angen poeni am hynny, gan fod ganddynt ddigon i boeni amdano'n barod."

– Darparwr gwasanaeth LAA3

Gall y diffyg gwasanaethau cymorth a ariennir yn ddigonol er mwyn ymyrryd i helpu i atal digartrefedd olygu mai awdurdodau lleol yw'r opsiwn cyntaf a'r opsiwn olaf i lawer sy'n wynebu digartrefedd. Yn 2021, argymhellodd y Grŵp Adolygu Atal yn yr Alban y dylai fod cyfrifoldeb a rennir ledled y gwasanaethau cyhoeddus i atal a dod â digartrefedd i ben drwy ofyn am sefyllfa dai pobl, gweithredu os bydd problem yn cael ei chanfod, a chydweithio i sicrhau bod gan bawb rywle diogel i aros.⁷⁰ Noda'r adroddiad bod gan nifer fawr o bobl sy'n wynebu digartrefedd iechyd salach, ac anghenion ychwanegol am gymorth meddygol a chymorth arall, a all yrru pobl i fod yn ddigartref.⁷¹

"Dw i'n meddwl mai un cymhelliant yw niferoedd... Dw i'n meddwl mai mater arall yw prinder adnoddau yn X. Nid ydynt yn cael digon o gyllid a does dim – fel dywedais i, nid oes ganddynt y gwasanaethau rheng-flaen amgen hynny, gwasanaethau porth, unrhyw beth felly."
– Darparwr gwasanaeth LAA6

"Dw i yn meddwl, ie, o ran costau, ac argaeledd, a phethau felly i awdurdodau lleol dw i wirioneddol ddim yn credu ei fod yn realistig o gwbl, ac mae'n eithaf anffodus bod rhaid rhoi cyfyngiadau ar waith bron, er mwyn sicrhau bod y cyfanswm sydd ar gael yn ddigonol

i nifer y bobl fydd yn gymwys."
– Darparwr gwasanaeth LA2

Nododd cyfranogwyr ein hymchwil fod y meini prawf yn bragmataidd ac yn 'ddrygioni angenrheidiol'. Roeddynt yn cefnogi'r bwriad i waredu'r profion, ond yng nghyd-destun diffyg llety a chymorth, roeddynt yn credu bod angen y profion.

"Dw i'n meddwl o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, mae'n rhaid bod rhyw ffordd o flaenoriaethu a rheoli'r adnoddau sydd gennym. "Dw i'n meddwl o ystyried yr adnoddau sydd gennym... mae'n rhaid bod rhyw ffordd o flaenoriaethu a rheoli'r adnoddau sydd ar gael."
– Swyddog Tai LAA1

I awdurdodau lleol, mae profion cymhwysra yn eu galluogi i gefnogi'r rheiny yr ystyrir sydd angen y gefnogaeth fwyaf. Gwnaethant nodi pryderon ynghylch yr adnoddau oedd ar gael iddynt, gan gynnwys cyflenwad tai a diffyg cyffredinol o lety i berson sengl, byddai diffyg blaenoriaethu'n gwanhau ansawdd y gefnogaeth sydd ar gael i'r rheiny gyda'r anghenion cymorth mwyaf.

"A dw i'n meddwl, eto, mae'n rhaid bod rhyw ffordd o flaenoriaethu'r defnydd hwnnw. Mae dileu angen blaenoriaethol yn syniad da iawn, ond os na fyddwn yn cael yr adnoddau i gynorthwyo pawb, ni fydd yn gweithio oherwydd byddwn yn gweld niferoedd cynyddol o lety dros dro, a dim lle i bobl symud ymlaen iddo. Ac wedyn pobl gydag anghenion cymorth cymhleth efallai, neu anghenion uwch, efallai y byddant yn mynd ar goll yn y system os byddwn yn trin pawb yn yr un ffordd. Mae rhai pobl yn gallu chwilio am eu llety eu hunain, ac

mae ar rai pobl angen cefnogaeth. A dw i'n meddwl pe byddem yn trin pawb yn union yr un ffordd, ni fyddai gennym adnoddau digonol, ac wedyn efallai bydd rhai pobl yn mynd ar goll yn y system. Ond, ie, dw i'n meddwl ei fod i gyd yn ymwneud ag adnoddau mewn gwirionedd."
– Swyddog Tai LAA1

Adroddodd rhai awdurdodau lleol bod defnyddio'r meini prawf cymhwysra yn darparu ffordd o reoli pryderon ynghylch cynnig llety a chymorth i bawb sy'n cyflwyno'n ddigartref, yn ogystal â rheoli llwythi gwaith staff o fewn terfynau'r adnoddau prin. Roedd rhai cyfranogwyr yn poeni pe na fyddai unrhyw feini prawf, byddai ymgeiswyr dan anfantais.

Ym Mhennod 6, rydym yn amlinellu ymatebion gan gyfranogwyr ein hymchwil ac yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiad o angen blaenoriaethol oedd yn amlygu costau biwrocraidaidd a gweinyddol y rhwystrau cymhwysra, gan gynnwys y teimlad y byddai dileu'r profion cymhwysra drwy bandemig Covid-19 – a dileu'r angen blaenoriaethol yn yr Alban – yn rhyddhau staff i ganolbwyntio ar ddod o hyd i ddatrysiadau parhaus i unigolion.

3.2 Canlyniadau anfwriadol profion cymhwysra

Ystyrir profion cymhwysra yn helaeth fel rhai sy'n achosi unigolion i ddod yn fwy bregus, gyrru anghysondebau ac yn llyncu adnoddau.^{72, 73} Clywsom yn ein hymchwil nad yw'r rhai sydd ag anghenion cymorth 'lefel isel', gan gynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn aml yn cyrraedd y trothwy uchel ar gyfer

69 Baptista, I., Benjaminsen, L., Pleace, N. (2015). *Rheolau cysylltiad lleol a Mynediad at Wasanaethau Digartrefedd yn Ewrop*. Brwsel: FEANTSA

70 Reid, B. (2021) *Preventing Homelessness in Scotland. Recommendations for legal duties to prevent homelessness: A report from the Prevention Review Group*.

71 Ibid. tt.22-25

72 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

73 Bramley, G., Fitzpatrick, S., Wood, J., Sosenko, F., Blenkinsopp, J., Littlewood, M., Frew, C., Bashar, T., McIntyre, J., a Johnsen, S. (2019). *Hard Edges Scotland: New conversations about severe and multiple disadvantage*. Sefydliad Lankelly Chase.

Denise



“Cefais gyngor [gan y Cyngor] i ddal fy ngafael ar y fflat, i beidio â gwneud fy hun yn ddigartref, er bod fy nyledion yn cynyddu. Felly, yn ystod y cyfnod hwnnw, ro’n i’n cael chwalfa nerfus hir iawn, dw i’n meddwl.”

Derbyniodd Denise hysbysiad Adran 21 enwir troi allan heb fai gan ei landlord i adael y fflat yr oedd yn byw ynddo gyda’i phlant a’i phartner. Ar ôl ymweld â’r Cyngor, eglurodd Denise y cafodd ei phlant lety drwy’r gwasanaethau cymdeithasol, ond nid hi, a dywedodd y cyngor wrthi i ddychwelyd i’r fflat. Ar ôl gorffen ei pherthynas gyda’i phartner treisgar, ni allai fforddio’r

rhent, ac roedd yr ôl-ddyledion yn cynyddu. Roedd yn teimlo fel ei bod wedi’i hanghofio. Ar ôl siarad gyda’i landlord, cytunodd i roi rhagor o amser iddi i ddod o hyd i rywle mwy fforddiadwy i symud iddo. Ar ôl cael gwybod am hyn, nid oedd y cyngor yn ystyried Denise fel rhywun oedd yn wynebu digartrefedd mwyach, gan nad oedd y landlord yn gorfodi’r Adran 21.

Ro’n nhw [y cyngor] i weld yn barod i helpu ac yn garedig pan es i mewn, doedden nhw ddim yn gas, nac i weld yn beirniadu nac unrhyw beth felly, ond ni chlywais unrhyw beth wedyn, cefais ychydig o daflenni i fynd adref gyda mi a dyna ni.

Doedd dim modd i Denise aros yn y fflat gan ei bod yn poeni am fygythiadau ei chyn-bartner. Yn hytrach, dechreuodd syrffio-soffas a dywedodd y cyngor wrthi, ar ôl iddi gysylltu â nhw eto, i beidio â gadael y fflat. Pe byddai’n gadael y fflat, dywedwyd wrthi y byddai’n cael ei hystyried yn ddigartref yn fwriadol, ac felly ni fyddai modd ei helpu.

Cefais gyngor [gan y Cyngor] i ddal fy ngafael ar y fflat, i beidio â gwneud fy hun yn ddigartref, er bod fy nyledion yn cynyddu. Felly, yn ystod y cyfnod hwnnw, ro’n i’n cael chwalfa nerfus hir iawn, dw i’n meddwl.

Bu i iechyd meddwl Denise ddiodef gan ei bod wedi cronni cyfansymiau mawr iawn o ôl-ddyledion rhent o’i chyn-gartref, ac ansicrwydd ynghylch ei dyfodol. Aeth pethau’n fwy cymhleth wedyn pan fu farw mam Denise, a chafodd Denise dŷ oedd bron yn adfeiledig nad oedd modd byw ynddo yn yr ewyllys. Er iddi barhau i syrffio-soffas mewn cartrefi ambell i ffrind, roedd y Cyngor yn dal i fynnu nad oedd yn ddigartref. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith nad oedd ganddi fynediad i’r fflat mwyach, ac roedd y landlord hyd yn oed wedi clirio’r hen fflat.

Felly, yn syml, dywedon nhw nad oeddwn yn gymwys achos, wel, dywedon nhw nad oeddwn i’n gymwys oherwydd byddwn i wedi gallu mynd i dŷ fy mam, nad oedd modd byw ynddo bryd hynny, na’r fflat.

Roedd yn teimlo’n flin am ‘aros’ yn y fflat ar ôl dilyn cyngor y Cyngor. Roedd syrffio-soffas yn dal i effeithio ar ei hiechyd meddwl i’r fath raddau bod

ei ffrindiau wedi dechrau cysylltu â’r cyngor ar ei rhan.

Roedd fy iechyd meddwl mor wael fel nad oeddwn yn gallu siarad. Ro’n i’n cerdded o amgylch y lle gyda sbectol haul, nid oeddwn yn gallu edrych ar unrhyw un, ro’n i’n crïo drwy’r amser, ro’n i’n ofnadwy o isel.

Bu i effaith asesiad y cyngor o sefyllfa Denise – un o ddigartrefedd bwriadol posibl – ei gadael mewn sefyllfa amhosib; roedd yn poeni am weithrediadau ei hen landlord ac yn poeni am golli ffrindiau gan ei bod hi’n teimlo fel ei bod yn cymryd mantais o’u caredigrwydd. Heb gefnogaeth ei ffrindiau, roedd yn poeni y gallai fod wedi bod ar y strydoedd.

Rydych yn ymddiried yn y cyngor gan mai nhw yw’r prif un. A phan wnaethant droi rownd a dweud nad oeddent yn mynd i fy helpu eto, teimlais yn anobeithiol. Nid oeddwn yn gallu gweld ffordd allan ac roedd dyledion mawr yn cronni ac roedd popeth mor ddigalon.

Yn anffodus, bu i iechyd Denise waethygu ymhellach, roedd rhaid iddi dreulio peth amser yn yr ysbyty. Yn ystod ei chyfnod yn gwella, cafodd gefnogaeth gan Gymorth i Fenywod a Crisis a mynd ar gwrs ar ddod o hyd i lety a chynnal tenantiaeth. O ganlyniad, gwnaeth gais am fflat tai â chymorth oedd yn cael ei hysbysebu, a chafodd ei chais ei dderbyn. Cafodd yr ôl-ddyledion rhent ar yr hen fflat eu clirio, ac roedd y gymdeithas dai’n gefnogol o’i chais.

Heb y bygythiad o fod ar y stryd, a chyda rhywle i alw’n gartref iddi, mae wedi gallu ailadeiladu ei pherthynas gyda’i phlant, ac mae’n gobeithio gweld mwy o’i hwyrion ac wyresau yn y dyfodol hefyd. Unwaith y mae cyfyngiadau Covid-19 yn dod i ben, mae’n edrych ymlaen at gymryd rhan mewn gweithgareddau a ddarperir gan sefydliadau lleol.

bregusrwydd, sy'n ategu canfyddiadau mewn gwaith ymchwil arall.⁷⁴ Os nad yw rhywun yn gymwys na'n cael cymorth, gall ei amgylchiadau waethygu a bydd y digartrefedd yn parhau.⁷⁵

Gall gofyn i unigolion brofi eu bregusrwydd gael canlyniadau negyddol drwy atgyfnerthu gwahaniaethau rhwng y rhai sy'n cael eu hystyried fel bod ganddynt fwy o anghenion. Yn ogystal, nododd cyfranogwyr bryderon ynghylch rhai ymgeiswyr yn gorfod profi bregusrwydd ac adrodd am drawma.⁷⁶

"...nid yw'n ddigon o berson caeth. Nid yw'n ddigon o glaf iechyd meddwl. Nid yw'n ddigon o droseddwr, ti'n gwybod. Nid yw'n ddigon o unrhyw beth i gael pecyn. Felly byddai hi'n dod yn un o'r rheiny fyddai'n cael eu gadael yn y system – nes bod argyfwng yn digwydd."⁷⁷
– Adroddiad *Hard Edges Scotland*

Bu i uwchgyfeiriadau blaenorol o'r system ddigartrefedd amlygu anghysondebau o ran asesu bregusrwydd, a defnydd o'r profion cymhwysra.⁷⁸ Clywsom yn ein hymchwil bod hyn yn benodol broblemus mewn ardaloedd gyda galw mawr.

"Mae llawer ohono'n agored, ti'n gwybod, pan ti'n edrych ar fregusrwydd meddygol, boed hynny'n gorfforol neu'n feddyliol. Mae peth ohono'n destun dadl a, ti'n gwybod, gallent fod yn

llwyddiannus wrth apelio, ond mae'r swyddog rheng-flaen o bosibl sy'n gweld pobl sy'n cael eu cyfeirio gan eu bod nhw'n teimlo'n isel, ti'n gwybod, ym mhob achos gan eu bod nhw'n cyflwyno'n ddigartref, mae pawb dan straen."
– Darparwr gwasanaeth LAA6

Disgrifiodd un cyfranogwr unigolion yn cael eu troi i ffwrdd cyn cael asesiad llawn gan fod staff Opsiynau Tai'n rhagweld na fydd ganddynt gysylltiad lleol. Roeddynt yn disgrifio hyn fel diffyniaeth, ac yn groes i egwyddorion y Ddeddf.

"Dw i'n teimlo mai porthgadw yw hynny. Rwy'n deall bod eu [awdurdodau lleol] hadnoddau'n brin, a dw i'n deall eu bod yn awyddus i ddiogelu'r adnoddau hyn. Ond o'n safbwynt ni – does dim angen cysylltiad lleol – does dim angen cysylltiad lleol ymlaen llaw. ...Ti'n gwybod, mae'r gyfraith yn eithaf clir o ran pryd ddylid ei ystyried. Dw i'n meddwl ei fod yn ofnadwy. Ti'n gwybod, maent yn osgoi'n llwyr rhoi asesiad o gwbl mewn rhyw ffordd, jest yn eu cyfeirio at gyswllt lleol, tîm ailgysylltu."
– Darparwr gwasanaeth LAA6

Drwy asesu bregusrwydd, gall profion cymhwysra orfodi pobl i ddod yn fwy bregus cyn y gallant gael mynediad i gymorth. Roedd gwasanaethau cymorth ac awdurdodau lleol yn cydnabod y canlyniadau i unigolion os nad oeddynt yn bodloni'r trothwy o ran bregusrwydd neu'r meini prawf

74 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

75 Taylor, P. (2020) The Regressive Power of Labelling People As Vulnerable. Ar gael yn: <https://paulitaylor.com/2020/06/25/the-regressive-power-of-labelling-people-as-vulnerable/>

76 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t.34

77 Bramley, G., Fitzpatrick, S., Wood, J., Sosenko, F., Blenkinsopp, J., Littlewood, M., Frew, C., Bashar, T., McIntyre, J., a Johnsen, S. (2019). *Hard Edges Scotland: New conversations about severe and multiple disadvantage*. Sefydliad Lankelly Chase.

78 Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I. Madoc-Jones M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: adroddiad terfynol, Adroddiad Prosiect*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

cymhwysra, yn enwedig i'r rheiny yr oedd eu hawdurdod lleol yn opsiwn olaf.

"Y ddyletswydd ddigartrefedd rheng-flaen, ti'n meddwl wel nhw yw'r gobaith olaf, byddan nhw'n fy helpu. A phan dydyn nhw ddim, dw i'n meddwl bod llawer yn colli gobaith yn yr holl broses, a dod yn llwyr anobeithiol. A dyna pryd maent yn symud ymlaen at gamddefnyddio sylweddau ac yn stopio ymgysylltu â gwasanaethau, ac mae'n dorcalonnus."
– Darparwr gwasanaeth LAA6

"Dw i'n meddwl beth fydden i'n ddweud yw yn aml mae pobl gydag anghenion cymhleth...ochr yn ochr â phob amser rydych yn cysylltu ac yn ceisio ymgysylltu gyda gwasanaethau, dw i'n meddwl bod rhwystr, felly mae hynny'n cymhlethu pethau ymhellach. Yn y diwedd, rydych yn eu helpu i drwytho eu hunain mewn digartrefedd."
– Darparwr gwasanaeth LAA1

Mae asesu bregusrwydd a chymhwysra hefyd yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, ac mae angen i staff archwilio a deall a yw rhywun yn gymwys am gymorth ai peidio. Mae rhai hefyd wedi codi pryderon y gall deall bregusrwydd fynd y tu hwnt i sgôp a chymhwysra proffesiynol timau Opsiynau Tai.⁷⁹ Roedd yr Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yn cynnwys enghreifftiau o staff yn defnyddio peiriannau chwilio ar-lein i ddeall meddyginiaeth a chyflyrau iechyd wrth asesu pa mor fregus oedd rhywun.⁸⁰ Bydd hyn yn anochel yn arwain at amrywiaeth rhwng ac o fewn awdurdodau lleol.

79 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

80 Ibid.

81 Ibid.

82 Campbell, A. J., (2011) *Effaith Penderfyniadau Digartrefedd Bwriadol ar Fywydau Aelwydydd Cymru*. Abertawe: Shelter Cymru.

"Dros y flwyddyn, dw i'n siŵr y byddai llawer o unigolion wedi cael eu troi i ffwrdd ar sail bregusrwydd, gan nad oedd eu hiechyd meddwl yn cael ei ddeall o bosib, oherwydd nad ydym yn arbenigwyr."⁸¹
– Cyfranogwr Awdurdod Lleol, Adolygiad o Angen Blaenoriaethol

3.3 Anghenion cefnogaeth cynyddol

Mae ein hymchwil yn adlewyrchu canfyddiadau presennol sy'n nodi y gall digartrefedd pobl ddod yn fwy dwys os nad oes ganddynt hawl i ddyletswydd, ac os na allant ddod o hyd i ddatrysiaid eu hunain i ddod â'u digartrefedd i ben. Mae llawer yn cyflwyno'n ddigartref eto yn nes ymlaen, yn aml gydag anghenion cefnogaeth mwy difrifol.⁸²

Mae awdurdodau lleol yn rhoi peth cefnogaeth i'r rheiny heb hawl i ddyletswydd – atgyfeirio a chyfeirio, cefnogaeth i gael mynediad i denantiaeth rhent preifat neu hostel, er enghraifft – fodd bynnag roedd cyfranogwyr yn cydnabod y gall peidio â bod â hawl i'r brif ddyletswydd arwain at oblygiadau negyddol i rai.

"Rydym yn ceisio...yn amlwg mae gennym hosteli digartref yn X. Rydym yn eu cyfeirio nhw at asiantau preifat ac ati. Y mwyafrif, nid ydym yn gwneud llawer o benderfyniadau o fwriadoldeb, ond pan rydym yn gwneud hynny, maent yn datrys eu hunain yn y pen draw. Un neu ddau, dw i'n meddwl, penderfyniadau bwriadoldeb, maent ar y strydoedd, ond mae hynny'n brin iawn, iawn, iawn."
– Swyddog Tai LAA2

"Rydym yn gweld pobl yn cyflwyno eto ac eto... maent yn fwy bregus mae'n debyg. Mae pobl nad ydynt yn flaenoriaeth ac sy'n cael cynnig peth cymorth yn gyffredinol yn helpu eu hunain yn y pen draw. Bydden i'n dweud os oes bregusrwydd arall, dyna pryd fydd pobl yn dod i'r amlwg. Felly efallai eu bod wedi cael cynnig rhywbeth a'i gael, ac wedyn yn ei golli, ac maent yn dod yn ôl."

– Rheolwr ALI

Eglurodd gwasanaethau cymorth sut byddant yn parhau i weithio gyda phobl sy'n cael eu cyfeirio at hosteli a llety dros dro arall os nad oes hawl i'r brif ddyletswydd, ond roeddynt yn cydnabod bod hyn yn heriol. I rai, mae'r amgylcheddau hyn yn gwaethygu eu hanghenion cymorth ac mae hyn yn arwain at rai pobl yn peidio ag ymgysylltu gyda gwasanaethau a chefnogaeth os nad oes ddyletswydd i'w helpu i gael llety.

"Efallai eu bod [defnyddwyr gwasanaeth] wedi bod yno sawl tro, neu efallai eu bod wedi bod yn llety brys rheng-flaen y cyngor, ond nid dyna beth maen nhw ei eisiau, felly dyna pam dydyn nhw ddim yn ymgysylltu o fy mhrofiad i. A dw i'n meddwl, oherwydd ein bod, gan fod llawer o gleientiaid wedi'u hamgylchynu maent yn mynd rownd a rownd, dw i'n meddwl ein bod yn eu nabod yn dda ac rydym yn gwybod eu bod wedi bod yn yr ardal, felly gallwn eu gwarantu."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Roedd awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r angen i gefnogi'r rheiny nad oedd yn gymwys ar gyfer y brif ddyletswydd, yn ystyried y canlyniadau posib i'r unigolion hyn, gan gynnwys yr opsiynau prin oedd ar gael iddyn nhw.

"Yn amlwg os ydym yn ymwybodol bod rhywun yn debygol o beidio â bod â chysylltiad lleol a bwriadoldeb, wedyn ti'n gweithio ychydig yn galetach yn yr

achosion hynny, yn amlwg gyda bwriadoldeb, oherwydd nid wyt ti eisiau gadael y person hwnnw mewn sefyllfa heb ffordd o gael ei hun allan o ddigartrefedd, oherwydd ni yw, mewn ffordd, y cam olaf. Os na allwn ni helpu, bydd yn anodd iawn iddynt gael llety yn y dyfodol."

– Swyddog Tai LAA2

Fodd bynnag, roedd ymdrechion i gynorthwyo gyda ddyletswydd yn aml yn anodd gan fod llwybrau cefnogaeth yn gyfyngedig yn aml ac weithiau'n dibynnu ar yr opsiynau llety oedd ar gael i awdurdodau lleol, gan bwysleisio pa mor sylweddol yw newid cyfreithiol yn rhan o ystod o ddiwygiadau ehangach, gan gynnwys atal ehangach ac ymagwedd ddigartrefedd ar sail tai.

"Nid oes ganddynt lawer o opsiynau mewn gwirionedd. Yn y tymor byr, byddai'r awdurdod lleol yn darparu llety dros dro neu deulu a ffrindiau, rhywle ble gallant hunan-wasanaethu, does dim llochesi nos fan hyn, mae gennym hosteli felly'n amlwg nid yw hosteli, nid yw'n gweithio ar sail llochesi nos, mae ar sail atgyfeirio ac mae'n rhaid iddynt gyfwrdd â'r person ac ati. Felly nid yw'n digwydd ar unwaith a dyna ni, gallwch fynd i un o'r hosteli i gael pabell."

– Darparwr gwasanaeth LAA2

Rhododd un gwasanaeth enghraifft o unigolyn oedd yn ddigartref yn fwriadol ar ôl cael ei droi allan o lety dros dro oherwydd anghenion cefnogaeth na gafodd eu bodloni a diffyg cydweithio ledled gwasanaethau.

"Nawr mae e jest yn cysgu ar y stryd. Gofynnais iddo ble roedd yn cysgu. Dywedodd fod ganddo garej rhywun, a bod matres ar y llawr. Mae'n cysgu yno. Ac nid oedd yn gallu cael mynediad i weithiwr cymorth. Roedd yn camddefnyddio alcohol. Nid oedd yn gallu cael mynediad i weithiwr cymorth."

Cymerodd chwe wythnos iddo allu cael cymorth gennym ni. Roedd hyn yn golygu ei bod hi'n rhy hwyr i herio'r penderfyniad i beidio â'i wasanaethu."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Adroddodd cyfranogwyr yn ein hymchwil bod pobl nad oedd ganddynt hawl i'r brif ddyletswydd yn profi pwysau tebyg, gan gynnwys beth roeddynt yn ei ystyried yn ddirywiad yn amgylchiadau pobl lle nad oedd yr anghenion cefnogaeth yn cael eu bodloni. Roedd y rhai gyda phrofiad byw yn teimlo nad oedd llawer o obaith y byddai pethau'n newid os nad oeddynt yn cael cefnogaeth.

"Ymddengys nad yw'r cylch yn cael ei dorri yma. Ond, yr hyn rwy'n ei olygu yw bod digartrefedd yn aml yn ganlyniad rhyw broblem sylfaenol arall, felly oni chaiff y broblem honno ei datrys yn y lle cyntaf, ni fydd y digartrefedd fyth yn dod i ben. Weithiau maent yn aros yr un fath; weithiau maent yn datblygu anghenion cymorth newydd."

– Swyddog Tai LAA1

Gall pobl ifanc fod mewn perygl penodol o ddychwelyd i amgylcheddau byw peryglus neu gael eu gwahanu rhag rhwydweithiau cefnogaeth, yn ôl ymchwil ar ddigartrefedd ymysg y rhai sy'n gadael gofal.⁸³ Mae hyn yn peri risg o niwed ac yn eu hachosi i beidio ag ymgysylltu gyda gwasanaethau.

"Cawsant eu danfon adref, ond wedyn maent yn dod yn ôl pan fydd pethau'n gwaethygu, ti'n gwybod. Os yw pethau wedi mynd o chwith ac ati, ti'n gwybod, gyda fy llys-dad neu gariad newydd mam neu beth bynnag. Dyna yw'r peth, mae'n cael effaith fawr ar bobl ifanc yn bendant."

– Darparwr gwasanaeth LAA1

Disgrifiodd rhai cyfranogwyr sut all unigolion golli gobaith a pheidio ag ymgysylltu gyda chefnogaeth pan fyddant yn cael gwybod nad oes ganddynt hawl i ddyletswydd. Ar ôl ceisio cymorth gan awdurdod lleol, sy'n aml yn obaith olaf i rywun, gall clywed nad oes modd i'r awdurdod lleol helpu arwain atynt yn colli ffydd yn y system. Disgrifiodd staff gwasanaeth sut mae pobl yn aml yn peidio ag ymgysylltu gyda gwasanaethau, a pha gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Maent yn disgrifio hyn fel pobl yn colli gobaith ac yn syrthio drwy'r rhwyd. Mae cyfraniadau Jake a Pawl yn dangos hyn.

"Dw i'n ceisio eu ffonio ac anfon e-bost yn eithaf aml i weld sut maen nhw, dw i'n gweld nhw'n colli gobaith ac awydd pob tro. Maent yn mynd yn anobeithiol, mae hynny'n drist iawn i'w weld."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

"[Maent] yn llwyr yn peidio ag ymgysylltu gyda gwasanaethau ac o bosibl yn syrthio drwy'r rhwyd math o beth, does neb yn gwybod ble maen nhw, nid oes gan unrhyw un rif cyswllt ar gyfer y person, mae pawb yn poeni a bydden i'n tybio bod y person yn meddwl nad yw unrhyw un yn malio beth bynnag."

– Darparwr gwasanaeth LAA2

Mae gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd iawn i barhau ag ymgysylltu gyda'r unigolion hyn, gan ei ddisgrifio'n frwydr nad oes modd ei hennill nes bod yr unigolyn yn cyflwyno i gael cefnogaeth yn nes ymlaen, ac yn aml mae'r sefyllfa wedi gwaethygu erbyn hynny.

"Weithiau mae rhai pobl yn diflannu o'r golwg. Pan rydym yn dweud na, na allant gael llety gyda'r awdurdod lleol ac nad oes unrhyw beth ar gael gyda'r sector rhentu preifat, maent yn rhoi'r gorau i ymgysylltu"

83 Bridgeman, J., Russell, H. (2020). *Peidiwch â Gadael i mi Syrthio drwy'r Craciau: Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc â Phrofiad o Ofal yng Nghymru.*

â ni, ac yna'n rhoi'r gorau i dderbyn cymorth. A byddwn yn ceisio mynd ar eu hôl a chysylltu â nhw ond weithiau, nid oes dim y gallwch ei wneud. Ac yna byddant yn dod yn ôl trwodd eto, mae fel drws cylchdroi."
– Darparwr gwasanaeth LAA4

Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu natur lawn adnoddau a biwrocraidd amodoldeb, a'r canlyniadau i wasanaethau cymorth ehangach sy'n deillio o'r opsiynau prin i'r rheiny nad ydynt yn cael cefnogaeth. Maent hefyd yn ategu'r manteision o'r ymagwedd a roddwyd ar waith yn ystod Covid-19, a darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i bawb er mwyn dianc rhag digartrefedd, y mae'r adroddiad hwn yn ei ystyried nesaf.

3.4 Ymateb argyfwng Covid-19

Erbyn diwedd 2020, roedd bron i 6,000 o bobl wedi cael llety dros dro hunangynhaliol a chefnogaeth i symud ymlaen o ddigartrefedd. Gwelsom wir werth cartref, pam ei bod hi'n iawn i unrhyw un sy'n wynebu digartrefedd gael cymorth gan eu cyngor, a gwelodd staff y buddion o allu rhoi'r help sydd ei angen ar bobl sy'n wynebu digartrefedd.

Ar ddechrau'r pandemig, darparodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ar asesu bregusrwydd, gan nodi "Wrth bennu bregusrwydd ymgeisydd, dylid cymharu gyda 'pherson digartref cyffredin' ac nid y person digartref mwyaf bregus." Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu bod rhywun oedd yn profi digartrefedd neu mewn perygl o ddod yn ddigartref yn ystod y pandemig yn cael hawl i'r brif ddyletswydd.⁸⁴

84 Llythyr gweinidog Cymru at awdurdodau lleol, ar gymhwyso bregusrwydd ac angen blaenoriaethol mewn perthynas â llety pobl sy'n cysgu tu allan yn ystod pandemig COVID-19 (28 Ebrill 2020). Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-04/guidance-for-local-authorities-in-supporting-people-sleeping-rough-covid-19_0.pdf

85 Boobis, S., Albanese, F. (2020) *The impact of COVID-19 on people facing homelessness and service provision across Great Britain*. Llundain: Crisis.

86 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t.47

Ar gyfer cyfranogwyr yn ein hymchwil, roedd y newid hwn yn drawsffurfiol, gan eu galluogi nhw i gefnogi pobl fyddai fel arfer yn cael eu troi i ffwrdd, neu bobl oedd yn cael cymorth am y tro cyntaf.

"Gwnaethom drin unrhyw un oedd yn ddigartref fel pe byddai ganddo angen blaenoriaethol oherwydd y newid hwn mewn deddfwriaeth... dw i'n meddwl bod llawer wedi cael llety na fyddai fel arfer yn ei gael, ac yn gyntaf oherwydd y newid mewn deddfwriaeth, a dw i'n meddwl bod llawer o bobl wedi elwa o hynny."
– Rheolwr Opsiynau Tai LAA1

Bu i awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth yn yr ymchwil hon ac ymchwil flaenorol Crisis adrodd bod y ffocws ar fodloni anghenion cefnogaeth a dod o hyd i ddatrysiadau wedi'i alinio fwy, nid yn unig gydag ethos y Ddeddf, ond yn unol â sut roedd staff eisiau ymateb i bobl oedd yn wynebu digartrefedd.⁸⁵ Mae hyn yn adlewyrchu cyfraniadau cyfranogwyr o'r Alban yn yr adolygiad o angen blaenoriaethol.

"Beth wnaethon ni oedd creu peiriant...Nid oedd yn dda i, yn gyntaf, y defnyddwyr gwasanaeth yn bennaf, ac nid oedd yn dda i staff... nid yw llawer o bobl yn meddwl dw i eisiau treulio fy niwrnod yn yr un hen drefn o wneud penderfyniadau cyfreithiol, ac mae cymhelliant y rhan fwyaf o bobl dros weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio'n fwy ar y gwasanaeth."
– Cyfwelai o'r trydydd sector, adolygiad o angen blaenoriaethol⁸⁶

Ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru £10 miliwn i wasanaethau digartrefedd i weithio'n gyflym i roi llety i'r rheiny oedd yn cysgu ar y stryd neu mewn llety dros dro all fod yn risg iechyd y cyhoedd yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn sylweddol fwy o gyllid fesul awdurdod lleol yng Nghymru o'i gymharu gydag ymateb cyllid digartrefedd yn ystod Covid-19 yn Lloegr.⁸⁷

Cafodd ymagwedd Cam 2 Llywodraeth Cymru i sicrhau "nad oes angen i unrhyw un ddychwelyd i'r stryd" gefnogaeth gan £50 miliwn o reffeniw a chyllid cyfalaf, gyda phob awdurdod lleol yn gallu bidio am gyllid i gefnogi'r symudiad at ymagweddau ailgartrefu cyflym ynghylch digartrefedd.⁸⁸

Canfyddiadau'r ymchwil – ymateb Covid-19

Rhoddodd argyfwng Covid-19 ymateb digynsail ar waith, gan newid canfyddiadau staff o ran beth sy'n bosibl. Cyfeiriodd llawer o bobl at y nifer oedd wedi cael eu troi i ffwrdd yn y gorffennol oedd bellach yn derbyn cefnogaeth, ac sydd wedi symud ymlaen o ddigartrefedd.

"Dw i ddim yn 100% hyderus, ond dw i'n eithaf hyderus y bydd casgliad bach o bobl sydd wedi bod yn y system yn X ers deng mlynedd, gyda sefyllfa dai ansefydlog, yn ddigartref ac fel arall, sydd, oherwydd hyn, wedi cael cyfle i newid eu bywydau – a dyna pam rydym i gyd yn dewis gweithio yn y sector."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA3

Cafodd y meini prawf cymhwysra eu disgrifio'n ddifffygol yng nghyd-destun profiadau'r cyfranogwyr o'r pandemig; gan fethu ag ymdrin ag achos craidd dros rai o bobl yn dod yn ddigartref ac yn cyfrannu at rai unigolion yn dod i mewn i'r system ac yn ei gadael sawl tro, gan ymestyn eu profiad o ddigartrefedd.

"Reit, oherwydd yn bersonol dw i ddim yn credu mewn drysau

cylchdroi, nid yw [sefydliad] yn credu mewn drysau cylchdroi ac mae'r timau Opsiynau Tai yma'n ceisio eu hosgoi. Oherwydd yn y bôn, os nad ydych yn ymarferol yn ceisio atal y drws cylchdroi, rydych yn helpu i'w agor eto."

– Darparwr gwasanaeth LAA1

Roedd gwasanaethau ac awdurdodau lleol yn ystyried hyn yn gyfle hanfodol i fynd i'r afael ag anghenion ac ymgysylltu gyda rhai unigolion am y tro cyntaf. Mae hyn yn pwysleisio'r graddau y gall y gyfraith yng Nghymru wrthdaro gyda'r hyn y mae staff yn gwybod sydd ei angen ar bobl.

"Rydym wedi sylweddoli bod gennym griw craidd o bobl sy'n hanesyddol wedi bod yn cysgu ar y stryd ac sydd wedi bod mewn ac allan o lety, o fewn cyrraedd ac yna'n diflannu, un ai oherwydd rhesymau'n ymwneud â'r ddalffa neu sefyllfa dai ansefydlog, syrffio-soffas neu beidio â chael mynediad i wasanaethau. Mae wedi bod yn gyfle da i ni ailgysylltu gyda rhai ohonynt. Dyma'r cyfnod hiraf erioed i ni gynnal cyswllt gyda llawer o bobl."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA3

"Bydden i'n awgrymu bod y bobl sengl sydd bellach yn ein llety dros dro, sydd wedi cynyddu'n

87 Boobis, S., Albanese, F. (2020) *The impact of COVID-19 on people facing homelessness and service provision across Great Britain*. Llundain: Crisis. t.6

88 Datganiad Gweinidogol Cymru ar Gam 2 Cynllun Digartrefedd Llywodraeth Cymru (28 Mai 2020). Ar gael yn: <https://gov.wales/written-statement-phase-2-homelessness-plan>

sylweddol, mae'n debyg mai nhw oedd y rhai na fyddai wedi cael hawl i ddyletswydd gan yr awdurdod lleol i'w helpu i chwilio am lety a sicrhau llety cyn-Covid."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA1

Mae rhai pobl wedi ailymgysylltu gyda gwasanaethau ar ôl cael gwybod bod y meini prawf cymhwysra wedi cael eu gohirio. Er i hyn gynyddu'r galw am wasanaethau a llety, roedd cyfranogwyr yn ein hymchwil yn ystyried hyn yn ganlyniad positif. Roeddent yn ymwybodol o'r hyn oedd angen ei newid er mwyn parhau â'r ffordd hon o weithio a sicrhau bod pawb yn cael y cymorth sydd ei angen, gan gynnwys parhau â'r cyllid a'r gefnogaeth drwy Covid-19, a'r ymagwedd a amlinellwyd gan gynlluniau digartrefedd Cam 2.⁸⁹

"Yn amlwg rydym wedi cael llawer o gleientiaid yn dychwelyd nawr, pobl rydym wedi dweud wrthym o'r blaen "Na, nid oes gen ti angen blaenoriaethol, ni allwn roi llety i ti", maent wedi cnocio ar y drws ac yn amlwg maent yn ymwybodol bod ganddynt ffordd o gael llety hirdymor."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA2

Fodd bynnag, roedd ymwybyddiaeth bod yr ymateb Covid-19 yn arddangos yn union beth sy'n bosibl pe byddai'r amgylchiadau iawn, y penderfynoldeb a'r adnoddau ar gael i ddarparu. Amlygodd llawer ohonynt sut roedd ymateb Covid-19 Llywodraeth Cymru wedi creu 'normal newydd' a disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Roedd yr ymateb yn dangos ei bod hi'n bosibl goresgyn rhwystrau atal y broses o ddileu'r meini prawf cymhwysra, pe byddai'r adnoddau a'r penderfynoldeb ar gael i gyflawni hyn.

Roedd hyn yn gwneud rhai'n bryderus, ond roedd staff yn gwybod beth oedd

angen ei newid er mwyn parhau â'r ymagwedd hon. Roedd hyn yn ategu canfyddiadau ymchwil ehangach Crisis gydag awdurdodau lleol a gwasanaethau cefnogaeth er mwyn deall effaith Covid-19 ar ddarpariaeth gwasanaeth.⁹⁰

"Dw i'm yn deall sut y byddant yn gallu tynnu nôl yr amddiffyniadau hynny oddi wrth bobl pan maent wedi dangos eu bod yn gallu rhoi llety i bawb neu roi rhyw fath o angen blaenoriaethol i bawb."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Er gwaethaf pryderon ynghylch y diffygion strwythurol, gan gynnwys argaeledd tai fforddiadwy, mae elfennau o'r ymateb yn ystod Covid-19 yr oedd gwasanaethau ac awdurdodau lleol yn gobeithio parhau â nhw, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, a hyblygrwydd a chyflymder rhai ymatebion gwasanaeth.

"[Mae] rhai pethau sy'n wirioneddol dda ynghylch cynnig gwasanaethau'n gyflym i bobl gyda materion iechyd meddwl i gael asesiad, torri drwy'r tâp coch, pethau felly. Dw i'n meddwl yn y dechrau, rhoddodd Covid gyfle i bobl i wneud pethau'n wahanol iawn a chymryd risgiau a thorri corneli, ac roedd hynny'n ddefnyddiol iawn."

– Rheolwr ALI

Mae'r newidiadau hyn i ddarpariaeth gwasanaeth a ffyrdd o weithio gyda gwasanaethau eraill a phobl sy'n wynebu digartrefedd hefyd wedi arwain at ganlyniadau gwell i'r rheiny sydd angen cefnogaeth.

"Rhai o'r pethau TG, felly gweithio o bell ac ati, mae pobl yn hoffi sgwrs ar WhatsApp mewn gwirionedd, ti'n gwybod, pethau felly ac mae llawer yn hollol fodlon gyda chadw

mewn cyswllt felly. Felly mae llawer o'r gwaith cefnogi, mae wedi ei wneud yn... Mae wedi newid gwaith cefnogi i lawer o bobl. Bydd dal angen gwaith wyneb yn wyneb ond dw i'n meddwl bydd angen i ni wneud hynny'n ddiogel a gwneud y pethau eraill, felly dw i'n meddwl bod hynny wedi bod yn bositif. ...dw i'n meddwl bod rhai perthnasoedd wedi datblygu na fyddai o bosib wedi cael eu datblygu fel arall gyda sefydliadau a rhwng sefydliadau."

– Rheolwr ALI

Disgrifiodd gwasanaethau cymorth sut mae cyfathrebu gwell ac ymagwedd gwneud pob dim wedi eu galluogi i weithio'n fwy effeithlon gydag unigolion. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn yr Alban ynghylch sut mae gwaredu'r angen blaenoriaethol wedi newid y ffocws at ddatrys problemau.⁹¹

"Dw i'n meddwl mai'r normal newydd i ni yw perthynas waith agos iawn a chodi'r ffôn a siarad gyda rhywun yn hytrach na, ti'n gwybod, nid dyna yw fy nghylch

gwaith i. Mae'n fater i rywun arall. Rydym oll wedi bod yn gweithio gyda phobl ac yn ceisio gweithio gyda nhw i ddatrys y problemau unigol."

– Gwasanaeth LAA1

Mae dileu'r meini prawf cymhwysra fel elfen hanfodol o'r ymateb Covid-19 yng Nghymru – a llwyddiant yr ymagwedd honno – yn arddangos bod dileu'r meini prawf o'r system ddigartrefedd statudol yn bosibl. Roedd llwyddiant yr ymagwedd yn dangos gyda'r adnoddau angenrheidiol, cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chyfeiriad gwleidyddol clir, mae'n bosibl sicrhau nad oes unrhyw un yn peidio cael y cymorth sydd ei angen i ddianc rhag digartrefedd.

Mae'r fframwaith sy'n canolbwyntio ar atal a grëwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a'r cyfeiriad a'r cyllid a ddarparwyd gan Gam 2 ymagwedd Llywodraeth Cymru, yn creu sail i adeiladu ar lwyddiant yr ymagwedd yn ystod y pandemig, a sicrhau nad oes unrhyw un yn mynd heb gefnogaeth.



89 Boobis, S., Albanese, F. (2020) *The impact of COVID-19 on people facing homelessness and service provision across Great Britain*. Llundain: Crisis

90 Boobis, S., Albanese, F. (2020) *The impact of COVID-19 on people facing homelessness and service provision across Great Britain*. Llundain: Crisis.

91 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Pennod 4:

Beth rydym yn ei wybod am: bwriadoldeb

Yn wahanol i angen blaenoriaethol a chysylltiad lleol, mae bwriadoldeb yn unigryw i'r DU. Mae penderfyniadau digartrefedd bwriadol yn aml yn ymwneud ag ôl-ddyledion rhent, gadael llety addas ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r egwyddor bwriadoldeb hefyd yn bresennol yn y system ehangach, gan gynnwys dyrannu tai cymdeithasol.⁹²

Canfu gwerthusiad o Ddeddf 2014, anghysondebau yn y dehongliad o fwriadoldeb.⁹³ Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bod penderfyniadau bwriadoldeb yn rhwystr i ganlyniadau positif. Nododd rhai bod bwriadoldeb

yn cael ei ddefnyddio i "borthgadw' mynediad i wasanaeth.⁹⁴ Ym mis Rhagfyr 2019, cafodd A75(3) y Ddeddf 2014 ei gweithredu, gan ehangu'r categorïau o ymgeiswyr nad oedd yn gorfod cyflawni'r prawf.⁹⁵

Gall penderfyniadau digartrefedd bwriadol hefyd ychwanegu rhagor o bwysau drwy gyfyngu'n sylweddol ar yr opsiynau sydd ar gael i unigolion.⁹⁶ Daeth Shelter Cymru i'r casgliad bod penderfyniadau bwriadoldeb yn gwaethgu'r cylch o anghenion cefnogaeth nad ydynt yn cael eu bodloni, "gyda'r baich adnoddau hirdymor y mae hyn yn ei awgrymu".^{97, 98}

92 Campbell, A. J., (2011) *Effaith Penderfyniadau Digartrefedd Bwriadol ar Fywydau Aelwydydd Cymru*. Abertawe: Shelter Cymru

93 Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I. Madoc-Jones M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: adroddiad terfynol, Adroddiad Prosiect*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

94 Ibid.

95 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (2 Rhagfyr 2019).

Ar gael yn: <https://gov.wales/written-statement-commencement-section-753-housing-wales-act-2014>

96 Albanese, F. (2018) *Intentionality in the homelessness system in Great Britain*. Brwsel: FEANTSA

97 Campbell, A. J., (2011) *Effaith Penderfyniadau Digartrefedd Bwriadol ar Fywydau Aelwydydd Cymru*. Abertawe: Shelter Cymru

98 Rosengard, A., Laing, I., Ridley, J., Hunter, S. (2007) *Closing the Opportunity Gap: Findings of a Literature Review on Multiple and Complex Needs. Project Report*. Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban.

Canfyddiadau'r ymchwili – Defnydd cyfyngedig o fwriadoldeb

O'n trafodaethau ni, bwriadoldeb oedd y maen prawf lleiaf dadleuol o'r tri, gan adlewyrchu'n helaeth nifer cyfyngedig yr ymgeiswyr oedd yn ddigartref yn fwriadol mewn ystadegau statudol. Eglurodd awdurdodau lleol nad yw bwriadoldeb yn cael ei ddefnyddio'n aml, ac os caiff ei ddefnyddio, mae'n ddewis olaf.

Fodd bynnag, ymysg y gwasanaethau cymorth y gwnaethom siarad â nhw, roedd llawer o drafodaeth ac anghytundeb dros ei ddefnydd. Roeddent yn beirniadu'r ffordd y gall roi bai ar yr unigolyn am ei ddigartrefedd, a hefyd yn gallu ymestyn profiadau digartrefedd.

"Dw i'n meddwl bod bwriadoldeb i'w weld yn rhywbeth na ddylai fyth gael ei ddefnyddio, oherwydd gall yr hyn sy'n arwain at ddigartrefedd fod yn gymhleth ac yn amrywiol iawn ac mae rhai pobl yn cael eu hunain heb... dim ffrindiau, ond nid ydyn nhw'n gwybod sut i ofyn am gymorth hyd yn oed os ydynt yn aros yn yr un ardal ac yn ddigartref. Dw i'm yn meddwl y dylai bwriadoldeb fod yn rhywbeth o bwys. Byth. Dw i'm yn gallu credu eu bod wedi'i ddefnyddio. Mae'n gwneud i mi deimlo'n eithaf sâl."
– Darparwr gwasanaeth LAA3

Awgrymodd awdurdodau lleol nad oedden nhw'n gweld problem o ran dileu bwriadoldeb fel maen prawf, gydag un awdurdod yn nodi eu bod yn bwrpasol yn ei osgoi lle bo'n bosibl, sy'n arddangos pa mor amrywiol oedd gweithredu'r prawf.

"I mi, dylai pethau fel bwriadoldeb fod yn gam olaf. Ni ddylem fod yn defnyddio bwriadoldeb yn helaeth; dylai'r niferoedd fod yn isel – dw i'n siŵr eu bod nhw. Bydden i'n eithaf bodlon ar ddileu bwriadoldeb yn

llwyr, fel y gallwn helpu mwy o bobl."
– Rheolwr Gwasanaeth Tai LAA3

"Dw i'n ceisio osgoi bwriadoldeb cymaint ag sy'n bosibl... rydym yn ceisio osgoi'r sefyllfa ble rydym yn gweld bwriadoldeb, os ydym yn ei ragweld, ond rydym yn ceisio gweithio'n galetach ar yr achos a cheisio cael llety iddynt dan ddyletswydd 73."
– Rheolwr Gwasanaeth Tai LAA2

Ymhellach i hyn, adroddodd awdurdodau lleol bod bwriadoldeb yn faen prawf anodd ei roi ar waith, gan awgrymu drwy archwilio manwl – gan gyfeirio eto at natur ddwys a gweinyddol y profion – byddai'n aml yn amherthnasol.

"Mae'n cael ei ddefnyddio ond eto i fod yn onest nid oes gennym lawer o achosion sy'n nodi bwriadoldeb. Ac yn ddiweddar – wel, mae'r ddeddfwriaeth wedi newid eto ac felly rydym yn ymestyn y cymorth sydd ar gael dan ddyletswyddau Adran 75 i rai aelwydydd sydd wedi nodi bwriadoldeb. Felly, ie, rydym yn dal i ddefnyddio bwriadoldeb ond nid yw'n hawdd dod o hyd i fwriadoldeb rhywun; mae'n brawf eithaf cymhleth ac os yw'n cael ei gyflawni'n gywir... yn y rhan fwyaf o achosion mae pobl yn cael y brif ddyletswydd yn y pen draw am wn i."
– Swyddog Tai LAA1

Fodd bynnag, roedd gan ddarparwyr gwasanaeth sy'n gweithio gyda phobl sy'n profi digartrefedd bersbectif gwahanol, gyda rhai'n adrodd am gynnydd o ran defnydd, gyda goblygiadau sylweddol i rai.

"Bydden i'n dweud fy mod o bosibl wedi gweld cynnydd mewn bwriadoldeb o ran diweddu'r ddyletswydd fel bod pobl yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi gwneud eu hunain yn ddigartref

yn fwriadol drwy adael llety dros dro. Felly, bydden i'n dweud bod bwriadoldeb yn dal i gael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer teuluoedd heb blant pan fo pobl, er enghraifft, wedi camymddwyn mewn llety dros dro, ti'n gwybod, mae'r ddyletswydd wedi dod i ben oherwydd bwriadoldeb."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Nododd gwasanaethau cymorth nad yw ymgeiswyr eu hunain yn aml yn ymwybodol o'r rheol bwriadoldeb, sy'n eu gwneud nhw'n agored i niwed os ydynt yn gwrthod cynnig am lety. Maent yn awgrymu bod penderfyniad bwriadoldeb yn creu darlun anghywir o amgylchiadau person.

"...os ydyn nhw'n gwrthod llety, yna maent yn cael eu hystyried fel rhywun sy'n gweithredu'n fwriadol (bwriadoldeb). Dw i'm yn meddwl bod pobl yn gwybod hynny a dw i'm yn meddwl bod pobl yn gwybod yn union beth mae hynny'n ei olygu oherwydd gallet ti ddadlau nad yw unrhyw un yn gweithredu'n fwriadol go iawn, does neb yn dewis byw ar y stryd, ac os ydyn nhw maent yn lleiafrif."

– Darparwr gwasanaeth LAA2



Pawl

“Doedd gen i ddim meddyg hyd yn oed tan tua mis Ebrill, mis Mai, felly ie, dw i’n meddwl tra fy mod yn y B&B ac yn cael yr holl bethau gweithiwr cymorth drwy [Wallich]. Ie, drwy nhw ges i’r cysylltiadau – yr holl rwydweithiau cefnogaeth a’r pethau’n ymwneud ag iechyd meddwl.”

Mae Pawl wedi bod yn profi digartrefedd ers tua pedair blynedd pan ddaeth y pandemig. Ar ôl gadael y fyddin a’i berthynas gyda’i wraig yn chwalu, roedd wedi symud rhwng syrffio-soffas a chysgu mewn pabell.

“Ro’n i’n byw oddi ar ewyllys da fy ffrindiau am oddeutu tair neu bedair blynedd a dweud y gwir.”

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd wedi ceisio cael cefnogaeth gan yr awdurdod lleol sawl tro. Bob amser, roedd yn ei chael hi’n anodd gwneud unrhyw gynnydd a chael y cymorth oedd ei angen arno i gael llety sefydlog. Daeth i’r amlwg bod opsiynau cymorth ar gau iddo, ac mai’r unig bosiblwydd oedd cael ei roi ar y rhestr i wneud cais am dai cymdeithasol – gyda rhybudd y gallai gymryd blynyddoedd.

“O fy safbwynt i, mae’n ymddangos eu bod yn ceisio eich perswadio i beidio â mynd ar y rhestr dai. Maen nhw jest yn rhoi rhesymau i chi i beidio â mynd ar y rhestr.”

Roedd yr ymgysylltiad a gafodd gydag Opsiynau Tai dros y blynyddoedd yn gwneud iddo deimlo fel eu bod wedi’i anghofio, a ddim yn ei barchu, gan ei wthio ymhellach i ffwrdd o gefnogaeth.

“Roedd yr un peth bob tro, maent yn dy ddiystyru cymaint ag y galli di ddychmygu.”

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gweddill bywyd Pawl ar stop yn llwyr. Roedd ganddo PTSD heb ddiagnosis ers ei gyfnod yn y fyddin oedd yn effeithio ar ei iechyd meddwl, nid oedd yn gallu gweithio, a gwaethygodd ei berthynas gyda’i blant.

Roedd Pawl yn syrffio-soffas pan ddigwyddodd y pandemig ym mis Mawrth 2020. Daeth i’r amlwg yn gyflym nad oedd ei sefyllfa fyw’n ddiogel.

“Ie doedd dim ffordd y gallwn i aros, does dim syrffio-soffas yn ystod pandemig. Sut alli di fynd i dai pobl pan maent yn ceisio cadw pellter cymdeithasol, a ti’n ddiartref, a gofyn, o alla’i gysgu ar dy sofffa plis?”

Ar y pwynt hwn, cafodd Pawl ei orfodi i fynd allan ar y strydoedd eto a sylweddolodd y byddai angen iddo gysylltu â’r cyngor eto. Cafodd lety mewn gwely a brecwast dan yr ymyrraeth Pawl i Mewn er mwyn rhoi llety i bawb oedd yn cysgu ar y stryd yn ystod y pandemig. Er bod Pawl wedi cael llety mewn cyfleuster gwely a brecwast, cafodd glywed ar y pwynt hwn nad oedd cofnodion yn dangos bod ganddo gysylltiad lleol â’r ardal, a bod y cyngor yn ceisio ei gysylltu gydag awdurdod lleol arall cyn gynted â phosibl. Roedd hyn yn syndod i Pawl, oherwydd heblaw am ei gyfnod yn y fyddin, roedd wedi byw yn yr ardal awdurdod lleol ers iddo fod yn saith oed.

“Roedd fy nheulu wedi cynnal cyfeiriad yn X ac ro’n i wedi defnyddio hwnnw fel fy nghyfeiriad preswyl gydol fy nghyfnod yn y fyddin. Felly, mae’n rhaid am nad oeddwn i’n talu’r dreth gyngor, doedd gen i ddim cysylltiad lleol. Oherwydd yn amlwg yn y fyddin ti’n talu ffi yn lle’r dreth gyngor, felly mae’n rhaid nad oeddwn i wedi fy nghofrestru fel person, dw i’m yn gwybod. Roedd hi’n eithaf anodd clywed nad oeddwn i’n perthyn i rywle yr oeddwn wedi byw yno ers 30 mlynedd.”

Roedd cyfnod Pawl yn y fyddin, a’r blynyddoedd yr oedd wedi’u treulio’n syrffio-soffas wedi effeithio’r cofnod o’i breswylfa yn yr ardal. Roedd yn rhaid i Pawl brofi ei gysylltiad lleol â’r ardal awdurdod lleol cyn y gallai gael

mynediad i gefnogaeth barhaus. Yn y cyfamser, roedd gan Pawl lety mewn cyfleuster gwely a brecwast ond roedd ei orbryder a’r ansicrwydd o ran gorfod symud i rywle arall nad oedd yn gyfarwydd iddo’n cynyddu.

Yn ffodus i Pawl, gyda chefnogaeth gan wasanaethau digartrefedd lleol cafodd ei broblemau cysylltiad lleol eu datrys ac roedd yn gallu mynd yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol, a phrofi ei fod wedi byw yn yr ardal awdurdod lleol ers pan roedd yn blentyn. Er hyn, ni chafodd wybod yn llawn am y newid penderfyniad hwn.

“Ni wnaeth unrhyw un fy ffonio a dweud, o ie OK mae gennym yr wybodaeth honno i gyd ac rydym yn iawn, mae hynny’n iawn, maent yn eich gadael chi a does neb yn ffonio, does neb yn ffonio i ddweud, o ie mae gen ti gysylltiad lleol, galli di aros yno.”

Ar ôl tua tri mis yn y gwely a brecwast, cafodd Pawl ei symud i lety â chymorth, ac ar ôl tri mis arall llwyddodd i gael tŷ cymdeithasol un ystafell wely. Yn ystod y cyfnod hwn, ymgysylltodd yn llawn gyda chefnogaeth iechyd meddwl am y tro cyntaf ers iddo adael y fyddin, a chafodd y cymorth oedd ei angen arno ar gyfer ei PTSD.

“Doedd gen i ddim meddyg hyd yn oed tan tua mis Ebrill, mis Mai, felly ie, dw i’n meddwl tra fy mod yn y B&B ac yn cael yr holl bethau gweithiwr cymorth drwy [Wallich]. Ie, drwy nhw ges i’r cysylltiadau – yr holl rwydweithiau cefnogaeth a’r pethau’n ymwneud ag iechyd meddwl.”

Yn lle cael ei wthio nôl i’r strydoedd, cysgu yn ei babel neu ddibynnu ar garedigrwydd ei ffrindiau, mae Pawl yn edrych tua’r dyfodol. O gartref diogel a sefydlog, mae’n adeiladu ei berthynas gyda’i blant, yn gweithio ar ei iechyd meddwl ac yn weithredol yn chwilio am waith.

Pennod 5:

Beth rydym yn ei wybod am: cysylltiad lleol

Bwriad meini prawf cysylltiad lleol yw sicrhau nad yw unrhyw awdurdod lleol yn talu costau anghymesur am ailgartrefu pobl syn cysgu ar y stryd yn eu hardal.^{99, 100} Mae awdurdodau lleol yn ystyried cysylltiad lleol fel rhywbeth sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau llety gwell drwy gyfyngu'r boblogaeth sy'n gymwys.^{101, 102}

"Dw i'n meddwl os caiff yr holl feini prawf cymhwysra eu dileu, dw i'n meddwl y bydd angen i'r llywodraeth geisio rhoi digon o refeniw i awdurdodau lleol i adeiladu... cyfalaf i adeiladu rhagor o unedau."

– Rheolwr LAA2

"Nid oes llety gennym. Does unman i symud ymlaen ato. Prin iawn, iawn yw'r tai newydd sy'n cael eu hadeiladu, felly mae prinder llety i bobl sengl yn y fwrdeistref beth bynnag. Mae gennym ddiffyg tai fforddiadwy, rhentu preifat."

– Swyddog Tai LAA4

99 Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. (2018). *Bywyd ar y strydoedd: atal a thaclo cysgu ar y stryd yng Nghymru*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

100 Baptista, I., Benjaminsen, L., Pleace, N. (2015). *Rheolau cysylltiad lleol a Mynediad at Wasanaethau Digartrefedd yn Ewrop*. Brwsel: FEANTSA

101 Ibid.

102 Ibid.

Mae'r ymateb yn ystod Covid-19 wedi pwysleisio'r diffyg llety gwirioneddol a'r heriau o ran symud unigolion ymlaen o lety dros dro. Roedd hyn yn waeth fyth i awdurdodau heb stoc.

"O ran llety, rydym wedi dyblu'r capasiti llety bron, felly pe byddai hyn yn parhau... wel, dyma'r lefel y bydden ni'n gweithio arni. Ond o ran symud pobl ymlaen a dod o hyd i lety parhaol, byddai hynny'n rhoi pwysau hefyd o ran yr adnoddau gan fod hynny, yn enwedig o ran tai cymdeithasol, yn brin iawn. Mae pobl wedi bod yn aros ers misoedd i rywbeth ddod ar gael drwy'r gofrestr dai fel ag y mae, felly pe byddai niferoedd hyd yn oed yn fwy bydden i'n dychmygu y byddai'n hirach fyth wedyn."

– Rheolwr Opsynau Tai LAA1

"Dw i'n meddwl bod angen newid diwylliant ar draws y gwasanaethau. Mae hynny'n dibynnu ar eich ffocws yn y gwaith. Ydw i'n ceisio helpu rhywun

neu ydw i'n ceisio amddiffyn fy ngwasanaeth? Ti'n gwybod, dyna yw'r meddylfryd cudd y mae llawer yn gweithredu oddi arno. Dw i'n clustnodi'r cyllid hwn ar gyfer y gwasanaeth hwn ac yn cyfyngu pwy all gael mynediad iddo."

– Darparwr gwasanaeth LAA1

Mae tystiolaeth o amrywiaeth sylweddol o ran dehongliad rheolau cysylltiadau lleol ac enghreifftiau o'r diwylliant o'r rheolau'n cael eu defnyddio gyda'r polisi ehangach.¹⁰³ Ni ddylid ystyried cysylltiad lleol wrth gyflawni dyletswyddau i atal neu liniaru digartrefedd. Fodd bynnag, mae'r Cod Canllawiau yn nodi y gellir rhoi blaenoriaeth i bobl sydd â chysylltiad lleol cyn belled â bod camau rhesymol yn dal i gael eu cymryd gyda phob aelwyd.^{104, 105} Gellid gadael y rhai sy'n lleiaf abl i ddangos cysylltiad lleol heb yr help sydd ei angen arnynt.¹⁰⁶

"Dydw i ddim yn hoffi'r prawf cysylltiad lleol. Yn sicr rydyn ni wedi cael pobl sydd wedi dod atom ac unwaith eto mae hyn yn amlwg yn ôl gair cleientiaid bod pobl wedi cysylltu ag awdurdod lleol arall, wedi cael gwybod nad oes ganddynt gysylltiad lleol â'r ardal honno, er y byddem ni fwy na thebyg yn dadlau bod ganddyn nhw, ac wedi cael eu gwrthod."¹⁰⁷

– Cyfranogwr darparwr gwasanaeth, Adolygiad o angen blaenoriaethol

Defnyddir meini prawf cysylltiad lleol yn ehangach hefyd, gan gynnwys o fewn polisiau dyrannu tai, bondiau

103 Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I., Madoc-Jones M., Wilding, A., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I., Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: adroddiad terfynol, Adroddiad Prosiect*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

104 Llywodraeth Cymru (2016) *Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

105 Mackie, P., Thomas, I. (2016) *Digartrefedd Sengl Trawsnewidiol yng Nghymru*. Caerdydd: WISERD

106 Baptista, I., Benjaminsen, L., Pleace, N. (2015). *Rheolau cysylltiad lleol a Mynediad at Wasanaethau Digartrefedd yn Ewrop*. Brwsel: FEANTSA

107 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustier, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

108 Baptista, I., Benjaminsen, L., Pleace, N. (2015). *Rheolau cysylltiad lleol a Mynediad at Wasanaethau Digartrefedd yn Ewrop*. Brwsel: FEANTSA

109 Ibid.

110 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustier, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

a meini prawf cronfeydd atal. Mae hyn yn llesteirio ymdrechion atal a lliniaru drwy gyfyngu ar fynediad at gymorth.^{108, 109}

"Fe wnes i ei gwneud yn glir iddo y gallai wneud cais ble bynnag yr hoffai ond yn y pen draw mae cymaint o bethau o ran atal digartrefedd yn dibynnu ar gysylltiad lleol. Er enghraifft, mae gan ein cofrestr tai faen prawf cysylltiad lleol ynghlwm wrthi..... Mae gan ein cynllun bondiau faen prawf cysylltiad lleol ynghlwm ag ef...."¹¹⁰

– Cyfranogwr Awdurdod Lleol, Adolygiad o angen blaenoriaethol

Canfyddiadau'r ymchwil – Diogelu adnoddau lleol

Cysylltiad lleol a greodd y drafodaeth a'r diddordeb mwyaf ymhlith cyfranogwyr ymchwil, gyda staff awdurdodau lleol yn bennaf o blaid a staff gwasanaeth cymorth yn aml yn fwy beirniadol o'r prawf. I awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai mewn dinasoedd mawr, ystyrir bod cysylltiad lleol yn fodd i sicrhau bod tai ac adnoddau'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer trigolion lleol yr ardal.

"Pe bai cysylltiad lleol yn cael ei ddiddymu bydd ardaloedd a fyddai'n profi mewnlifiad o bobl o ardaloedd eraill o bosibl; mae rhai ardaloedd yn fwy poblogaidd nag eraill. Ond rwy'n credu bod yn rhaid cael ffordd o'i reoleiddio rywsut."

– Swyddog Tai LAA1

Amcanestyniadau o'r angen am dai

Er na all tai yn unig roi terfyn ar ddigartrefedd, mae'r diffyg tai fforddiadwy yn rhwystr hirdymor. Mae amcangyfrifon o'r angen am dai ar gyfer pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd ac ar gyfer pobl ar incwm isel yn awgrymu bod angen 4,000 o gartrefi cymdeithasol newydd arnom bob blwyddyn am 15 mlynedd.¹¹¹ Dylai'r cyflenwad gael ei lywio gan asesiadau o'r farchnad dai leol, gan ystyried anghenion tai aelwydydd digartref presennol a rhagamcanol – er enghraifft tai meddiannaeth sengl a thai i bobl ifanc.

"Rwy'n credu bod cysylltiad lleol yn golygu eich bod yn defnyddio adnoddau lleol ar bobl leol, ... Wyddoch chi, dim ond swm penodol o grant sydd gennych chi felly dim ond maint penodol o ddarpariaeth sydd gennych chi ac yna rydym yn gwybod ei fod yn ein galluogi i ddefnyddio hynny'n lleol ar bobl sydd mewn trafferthion yn lleol."

– Rheolwr ALI

Roedd awdurdodau lleol yn deall pam y gallai pobl symud rhwng ardaloedd ond roeddent yn teimlo bod diogelu mynediad i lety yn hanfodol o ystyried diffyg tai addas. Mae hyn yn adleisio ymchwil gynharach sy'n awgrymu bod pobl yn symud i fod yn agosach at rwydweithiau cymorth, lleoedd o bwysigrwydd personol, ac i gyrchu cyfleoedd.¹¹²

"...oherwydd bod X yn lle eithaf braf ac felly rydych chi'n gweld llawer o bobl sydd eisiau dechrau o'r newydd sydd wedi bod yma ar wyliau ac yn penderfynu dod yn ôl yma. Yn aml iawn maen nhw'n dweud, "O, roeddwn i yma pan oeddwn i'n blentyn", neu, "Roeddwn i'n arfer dod yma ar wyliau ac mae'n lle mor braf i fyw". Felly, mae'n ymwneud â blaenoriaethu mewn gwirionedd oherwydd eu bod [tai] mor brin."

– Swyddog Tai LAA1

111 Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

112 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

113 Mackie, P., Thomas, I. (2016) *Digartrefedd Sengl Trawsnewidiol yng Nghymru*. Caerdydd: WISERD

"Fe wnaif fi ddweud fy mod yn gallu deall pam ... cafodd ei gyflwyno. Oherwydd rydych chi am i'r person hwnnw gael rhyw lun o berthyn, am wn i. Ond nid yw hynny'n wir bob amser. Nid yw'n un peth sy'n addas i bawb. Mae'n rhaid i chi edrych ar unigolyn beth sydd wedi dod â nhw atoch chi, beth yw eu hamgylchiadau ac nid yw cysylltiad lleol yn briodol."

– Darparwr gwasanaeth LAA3

Roedd barn darparwyr gwasanaethau yn amrywio yn ôl eu daearyddiaeth. Roedd y rhai mewn ardaloedd trefol yn tueddu i adleisio'r canfyddiadau presennol bod pobl yn dod o ardaloedd eraill gan ragweld gwell gwasanaethau a mwy o dai ar gael.¹¹³ Dywedodd un darparwr gwasanaeth mewn dinas fawr y byddai gwasanaethau'n cael eu llethu heb feini prawf cysylltiad lleol.

"Byddai llifddor [sic] o bobl efallai o awdurdodau lleol eraill yn dod i X i ddefnyddio'r adnoddau yn X, gan nad oedd gan eu hawdurdodau lleol yr adnoddau hynny. Felly, rwyf yn deall yr effaith ariannol ar yr awdurdod lleol, am wn i. Dyna pam, i raddau, rwy'n deall am gysylltiad lleol."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Roedd mwy o amrywiaeth barn ymhlith gwasanaethau yn yr

Cipolwg ar debygrwydd a chymhelliad i geisio am gymorth mewn awdurdod gwahanol

Er bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod pobl yn symud i ardaloedd mwy 'cyfoethog o ran gwasanaeth', mae'n llai cyffredin ac arwyddocaol nag y mae awdurdodau lleol yn ei gredu.¹¹⁴ Mae'r rhai sy'n ceisio cymorth y tu allan i'w hawdurdod lleol 'cartref' fel arfer yn adrodd am ddau ddylanwad ysgogol neu fwy:

- Ffactorau gwthio fel colli cyflogaeth, dianc rhag perygl neu erledigaeth, awdurdodau 'cartref' di-fudd ac amodau parôl neu fechniaeth.
- Mae ffactorau gwthio yn cynnwys cael ffrindiau yn yr ardal, ymweliadau blaenorol â'r ardal ac wedi preswyllo mewn ardal o'r blaen.¹¹⁵

Er gwaethaf hyn, dangosodd ymchwil a wnaed gyda'r rhai â phrofiad o ddigartrefedd y byddai hanner y cyfranogwyr hynny'n aros yn eu hardal awdurdod lleol 'newydd', hyd yn oed pe byddai cymorth yn cael ei wrthod iddynt. Mae hyn yn bennaf oherwydd ofn dychwelyd adref, ffrindiau, cyfleoedd cyflogaeth a gwell darpariaeth trydydd sector neu eglwysig.¹¹⁶

Mae ymchwil gan Crisis yn tynnu sylw at y ffaith bod unigolion yn llawer mwy tebygol o dynnu at yr ardaloedd hynny lle mae ganddynt rwydweithiau cymorth sy'n bodoli eisoes, mynediad i gyflogaeth a chyfleoedd eraill ac, ar gyfer ardaloedd trefol, canfyddiadau o fwy o ddiogelwch ac anhysbysrwydd, yn hytrach na chael mynediad i ardaloedd 'cyfoethog o ran gwasanaeth'.¹¹⁷

Mae ymchwil bresennol hefyd yn herio'r dybiaeth bod gan y rhai sy'n profi digartrefedd – ac yn enwedig y rhai sy'n cysgu ar y stryd – yr adnoddau i deithio i gael mynediad at wasanaethau a ddarperir mewn mannau eraill mewn awdurdod arall. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei gadarnhau yn y dystiolaeth.^{118, 119}

ardaloedd hynny gyda llai o 'alw'.

Ar gyfer rhai gwasanaethau eraill yn yr un ardal, roedd cred, os yn briodol, y gallai ailgysylltu ag awdurdod 'cartref' rhywun fod yn gadarnhaol ac na ddylai achosi unrhyw niwed. Roedd disgwyl y byddai pobl yn cael cefnogaeth a chymorth gan awdurdod priodol.

"Mae cysylltiad lleol, o'i ddefnyddio'n briodol o leiaf, yn arf effeithiol i ddiogelu adnoddau. Ac ni ddylai arwain at yr ymgeisydd yn dod

yn ddigartref ar y stryd. Efallai na fyddant yn cael eu lletya lle maen nhw am gael eu lletya, ond mae honno'n sgwrs wahanol rwy'n meddwl."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

"Felly rwy'n credu os bydd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol nad yw'n mynd i arwain at yr un trychinebau ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb – lle os gwneir penderfyniad negyddol i'r ddau benderfyniad hynny, mae gennych

114 Ibid.

115 Ibid.

116 Homeless Link (2015) *Repeat Homelessness in Brighton*. Llundain: Homeless Link

117 Johnsen, S., Jones, A. (2015) *The reconnection of rough sleepers within the UK: an evaluation*. Llundain: Crisis.

118 Mackie, P., Thomas, I. (2016) *Digartrefedd Sengl Trawsnewidiol yng Nghymru*. Caerdydd: WISERD

119 Baptista, I., Benjaminsen, L., Pleace, N. (2015). *Rheolau cysylltiad lleol a Mynediad at Wasanaethau Digartrefedd yn Ewrop*. Brwsel: FEANTSA

Ymchwil Crisis i brofiadau o ailgysylltu

Canfu ymchwil gan Crisis ar ailgysylltu yn Lloegr tra bod rhai pobl sy'n cysgu ar y stryd yn yr astudiaeth yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn y cyfnod cyn ac yn ystod y broses ailgysylltu, roedd y rhai na chafodd fawr o gefnogaeth yn fwy niferus. Canfu'r astudiaeth hefyd fod gwiriadau ôl-ailgysylltu yn brin iawn, gan arwain at lawer o unigolion wedi'u hailgysylltu yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi'u 'gwthio i ffwrdd'.

Tynnodd yr astudiaeth sylw hefyd at gyfyngiadau sylweddol data a gasglwyd ar ganlyniadau ailgysylltu a'r heriau y mae hyn yn eu cyflwyno o ran gwella canlyniadau i unigolion ailgysylltu. Gallai canlyniadau amrywio'n ddramatig o gadarnhaol (cefnogaeth ac ymgysylltiad) i negyddol (cysgu ar y stryd yn yr ardal sy'n eu derbyn oherwydd bod y gwasanaethau a gynigir yn gyfyngedig neu'n gyfyngedig o ran amser). Yn ogystal, canfu'r astudiaeth lefelau sylweddol o ymwrthedd ymhlith y rhai sy'n cysgu ar y stryd a oedd yn credu y gallent fod mewn perygl o niwed drwy ddychwelyd i'w 'hawdurdod cartref', neu na fyddai'r gwasanaethau a gynigiwyd iddynt yn diwallu eu hanghenion tai ac anghenion eraill yn briodol. Canfu Crisis fod unigolion, mewn amgylchiadau o'r fath, fel arfer yn parhau i gysgu ar y stryd neu'n dychwelyd i gysgu ar y stryd, a hynny yn eu hawdurdod presennol neu 'gartref', gan adleisio ein canfyddiadau o gibddallineb meini prawf cymhwysra.¹²⁰

risg uchel iawn o fod yn ddigartref ar y stryd."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Nid oedd yr holl wasanaethau yn y maes hwn yn rhannu'r farn hon. Teimlai un gwasanaeth fod yr un awdurdod lleol yn cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol yn rhy gynnar, heb asesiad llawn, gydag ymgeiswyr yn aml yn cael eu cyfeirio at y tîm ailgysylltu yn gynnar.

"Mae gan X rhywfaint o broblem gyda chysylltiad lleol gan fod ganddyn nhw'r hyn maen nhw'n ei alw'n dîm ailgysylltu. Nid ydynt yn derbyn y bobl hyn ac yna'n gwneud atgyfeiriad cysylltiad lleol priodol o dan Adran 80 o Ddeddf Tai (Cymru). Maen nhw'n cyfeirio pobl ac nid ydynt yn derbyn."

– Darparwr gwasanaeth LAA6

Dywedodd gwasanaethau mewn ardaloedd llai trefol fod y prawf yn

annheg, gan gydnabod y rhwystrau ychwanegol a grëwyd i unigolion lle nad yw anghenion yn cael eu diwallu. Dadleuodd cyfranogwyr y gallai effeithio'n negyddol ar unigolyn, yn enwedig lle byddent yn ymbellhau oddi wrth rwydweithiau cymorth. Mae hwn yn fater arwyddocaol mewn ardaloedd mwy gwledig, sy'n cael ei briodoli gan ymchwil gynharach i 'denuwch daearyddol gwasanaethau'.¹²¹

"nid yw'n addas i bawb. A dydw i ddim yn dweud y gallwch chi ei ddewis a'i ddethol. Gallwch ei ddefnyddio fel rheswm dros gael rhywun i aros ond dydw i ddim yn credu y dylai fod yn rheswm dros ddweud na wrth bobl. Oherwydd nad oes ganddyn nhw gysylltiad lleol. Oherwydd pan dw i'n meddwl am yr holl amseroedd dw i wedi symud o gwmpas...Fe wnes i gryn dipyn o deithio ac rwyf wedi byw a gweithio mewn mannau a, wyddoch chi, rydych chi'n troi fyny."

120 Johnsen, S., Jones, A. (2015) *The reconnection of rough sleepers within the UK: an evaluation*. Llundain: Crisis.

121 Gibbons, A., Madoc-Jones, I., Ahmed, A. et al. (2020) Digartrefedd yng nghefn gwlad: Arferion atal yng Nghymru. *Social Policy and Society*, 19(1). tt. 133-144.

A wyddoch chi, dydych chi ddim yn meddwl nad oes gennych chi hawl i fod yno. Wyddoch chi, mae gan bobl hawl i fyw ble bynnag maen nhw... ac weithiau lle maen nhw'n cyrraedd ydy hynny, ynde? I ba amgylchiadau bynnag sydd wedi eu harwain at y pwynt hwnnw. Felly, dydw i ddim yn meddwl ei fod yn... Dw i'n meddwl i'w ddefnyddio fel, wn i ddim, fel... offeryn mesur i weld a ydych yn gadael i rywun aros ai peidio, rwy'n credu ei fod yn hurt."

– Darparwr gwasanaeth LAA3

"Os yw eich metrig cefnogaeth neu beth bynnag yn ddwy awr i ffwrdd er enghraifft ac nad oes gennych chi unrhyw ffordd o fynd yno, siawns nad yw'n gwneud synnwyr i chi gael eich llety ddwy awr i ffwrdd dim ond i dicio'r blwch

llety oherwydd, mae'n debyg na fydddech chi hyd yn oed yn aros yno, byddai'n gwneud i chi deimlo ddeg gwaith yn waeth ac efallai y byddai rhywun hyd yn oed yn dadlau y byddai'n well aros ar y stryd yn lleol lle rydych chi'n adnabod y lle ac mae pobl eraill o gwmpas na bod yn ddiarth ddwy awr i ffwrdd."

– Darparwr gwasanaeth LAA1

Awgrymodd gwasanaethau cymorth fod angen mwy o ddealltwriaeth am ei ddefnydd, gan ddeall pam y gallai rhywun ddewis byw yn rhywle arall – cysylltiadau emosiynol, ymdeimlad o ddiogelwch, rhwydweithiau presennol, neu fynediad at gyfleoedd – a beth yw cysylltiad lleol. Rydym wedi awgrymu bod angen mwy o hyblygrwydd o ran deall pryd mae rhywun wedi sefydlu cysylltiad lleol yn *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*.¹²²



122 Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

Claire



Roedd mor frawychus, a dim ond 19 mlwydd oed oeddwn i ... roedd yn frawychus iawn ac yn ddychrynlyd iawn i mi. Felly, pan es i oddi yno, roeddwn i'n amlwg yn ofidus. Fe wnaethon ni fynd drwy ffurflenni a phopeth ac yn y bôn, fe wnaeth hi droi ataf a dweud, 'dwyt ti ddim yn flaenoriaeth'.

Gofynnodd Claire am gymorth gan ei chyngor ar ôl gorfod gadael cartref ei mam. Roedden nhw wedi cweryla ac roedd Claire wedi teimlo dan fygythiad gan ei mam. Pan ymwelodd â'i hawdurdod lleol, roedd Claire yn poeni'n fawr y byddai'n rhaid iddi aros ar y stryd pe na allent helpu.

Roedd gen i apwyntiad gyda menyw, pan es i mewn i'r ystafell, roeddwn i'n meddwl bod hyn am fod yn gadarnhaol, maen nhw'n mynd i'm helpu ac roedden nhw'n mynd i roi rhywle i mi aros, mewn hostel neu rywbeth.

Roedd mynd at y cyngor yn 'frawychus' ac yn 'ddychrynlyd' ac roedd y broses yn cynnwys llawer o lenwi ffurflenni. Teimlai Claire fod y swyddog tai yn amheus o'r rheswm yr oedd hi'n cysylltu am gymorth. Daeth yr asesiad i ben gyda'r swyddog tai yn dweud wrth Claire, gan nad oedd ei mam wedi'i tharo, ac y gallai ddychwelyd at ei thad, nad oedd angen blaenoriaethol am gymorth.

Roedd yn teimlo fel nad oedden nhw'n fy nghredu gan eu bod nhw eisiau rhif fy mam a phopeth, dim ond i wneud yn siŵr fy mod i'n ddigartref. Dyna pryd y dechreuais deimlo, wel, arhoswch funud nawr, pam nad ydych chi'n fy nghredu i?

Rhoddwyd llyfryn gwybodaeth i Claire a dywedwyd wrthi am edrych yno os oedd am gael llety arall. Ni roddwyd esboniad o sut y gallai'r prosesau ymgeisio weithio na'r hyn a allai fod yn fforddiadwy iddi. Ni thynnwyd ei sylw ychwaith at wasanaethau sy'n benodol i bobl ifanc.

Roedd mor frawychus, a dim ond 19 mlwydd oed oeddwn i ... roedd yn frawychus iawn ac yn ddychrynlyd iawn i mi. Felly, pan es i oddi yno, roeddwn i'n amlwg yn ofidus. Fe wnaethon ni fynd drwy ffurflenni a phopeth ac yn y bôn, fe wnaeth hi droi ataf a dweud, 'dwyt ti ddim yn flaenoriaeth'.

Roedd clywed nad oedd hi'n flaenoriaeth yn anodd ac fe wnaeth iddi deimlo'n isel iawn heb unman i droi am help. Dim ond ar ôl cysylltu â sefydliad penodol, a argymhellwyd gan fam ffrind, y llwyddodd Claire i ddod o hyd i lety yn benodol ar gyfer pobl ifanc ddigartref.

Fe wnaeth hynny fy nharo ... Roeddwn i'n meddwl fy mod wedi cyrraedd y gwaelod i fod yn onest oherwydd ei fod yn teimlo fel bod y byd yn fy erbyn.

Roedd Claire eisoes yn agored i niwed, ac fe wnaeth penderfyniad y cyngor iddi deimlo'n waeth. Roedd yn teimlo iddi fel eu bod am ei gorfodi'n ôl at ei mam a'r amgylchiadau anodd yno, yn hytrach nag archwilio realiti ei hamgylchiadau a'r hyn y byddai'n ei olygu iddi gael ei gwrthod heb gymorth priodol na rhywle i aros.

Roeddwn i'n teimlo'n drist. Roeddwn i'n teimlo a oedd unrhyw bwynt fy mod wedi dod yma? I roi llyfryn allan a dweud hynny wrthym, a dweud nad ydych chi'n flaenoriaeth gan nad ydych chi wedi cael profiad o drais?

Pennod 6:

Beth rydym yn ei wybod am: angen blaenoriaethol

Mae'r prawf angen blaenoriaethol yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r systemau a'r diwylliant digartrefedd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r prawf wedi bod yn destun craffu ers peth amser ac mae wedi newid ers ei gyflwyno yn Neddf 1977. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel anghyfiawnder, anfoesol a hen ffasiwn.¹²³

"Rwyf wedi gweithio....amser hir, yn rhy hir mewn digartrefedd ac ers amser maith rwyf wedi meddwl bod yr holl syniad o angen blaenoriaethol yn anwar, mae'n anfoesol a phob dydd mae'n rhaid i mi wneud penderfyniadau yr wyf yn credu yn fefnol, yn y bôn, sydd yn anghywir."¹²⁴
– cyfranogwr Awdurdod Lleol, Adolygiad o angen blaenoriaethol

Mae beirniadaeth wedi canolbwyntio ar sut mae system amodol, ac yn

¹²³ Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Mousteri, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

¹²⁴ Ibid. t.29

¹²⁵ Ibid.

¹²⁶ Ibid.

enwedig angen blaenoriaethol, yn annog ffocws ar brosesu ymgeiswyr i benderfynu p'un a ydynt yn perthyn i gategori penodol, yn hytrach na diwallu angen.¹²⁵ Cefnogir hyn gan dystiolaeth o anghysondebau yn y ffordd mae'n cael ei ddefnyddio, yn enwedig i bobl ifanc, pobl sy'n cysgu ar y stryd, a'r rhai sy'n gadael y carchar, sydd wedi elwa leiaf o dan y fframwaith cyfreithiol newydd.¹²⁶

"Roedd fel siarad â pheiriant ar ben arall y ffôn..."
– astudiaeth achos Profiad Byw

"A dyna'r unig ffordd y gallaf eu disgrifio, robotig. Mae fel siarad â pheiriant. Does dim dadlau ag ef. Does dim modd mynd drwodd ato. Does dim ots pwy sydd ar ben arall y ffôn neu o'ch blaen, dim lwc. Ta ta. Hwyl."
– astudiaeth achos profiad byw

Rhwystro pobl rhag ceisio cymorth

Mae rhai aelwydydd hefyd yn cael eu rhwystro rhag ceisio cymorth ar sail eu statws tebygol nad ydynt yn flaenoriaeth, gyda goblygiadau i allu gwasanaethau i ymgysylltu ag unigolion sydd fwyaf aml mewn amgylchiadau eithriadol o agored i niwed.¹³¹

"Mae gennym bobl sengl nad ydynt yn cysylltu â'n gwasanaeth oherwydd mae'n debyg eu bod wedi cael cyngor nad oes ganddynt angen blaenoriaethol, nid ydynt yn cael yr asesiad, maen nhw'n rhyw fath o gael yr asesiad wedi'i wneud gan rywffaint o gymorth neu rai grwpiau, ac yn cael gwybod, 'peidiwch â thrafferthu, oherwydd nid oes gennych chi angen blaenoriaethol', heb ddeall y byddai gennym ddyletswydd o dan 62, 66, 73. Felly maen nhw'n colli hynny i gyd dim ond am fod rhywun wedi'u cynghori, 'Fyddan nhw ddim yn eich helpu chi, nid oes gennych chi angen blaenoriaethol.'"

– Cyfranogydd Awdurdod Lleol, Adolygiad o angen blaenoriaethol

Mae hefyd yn broses sy'n defnyddio llawer o adnoddau, gyda phryder am y trothwy uchel ar gyfer bod yn agored i niwed a'i ofynion tystiolaethol.¹²⁷

¹²⁸ Mae pryder hefyd ynghylch disgwyliadau ar staff i lunio barn wybodus am angen meddygol.¹²⁹ Mae hyn yn cynnwys staff sy'n defnyddio peiriannau chwilio ar-lein i *"sefydlu pa feddyginiaeth sy'n gweithio gyda beth....a sut y gall hynny eich gwneud yn agored i niwed"*.¹³⁰ Mae hyn yn amlygu'r cyfle i amrywio'r cymorth rhwng staff Opsiynau Tai o fewn ac ar draws awdurdodau lleol, ac i anghenion cymorth unigol gael eu camddeall.

Mae'r ddibyniaeth ar dystiolaeth i asesu bregusrwydd yn achosi amwysedd ac ansicrwydd ymhlith staff Opsiynau Tai, gyda staff yn aml yn ofynnol i lunio barn am lefel y bregusrwydd ar sail meddyginiaeth. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cyflogi ymarferwyr iechyd

meddwl i gynghori a gweithio ochr yn ochr â staff Opsiynau Tai.¹³² Mae hyn hefyd yn cyfeirio at natur ddwys asesu cymhwysedd a bregusrwydd o ran adnoddau.

"...mae wedi bod yn faes llwyd gyda'r iechyd meddwl, oherwydd mae iselder a phryder yn ddatganiad eithaf cyffredin y mae pawb yn tueddu i'w ddweud yn ystod asesiad digartref, felly rydym yn gofyn iddynt yn nhermau, "Pa feddyginiaeth ydych chi arnyn nhw?" "Ydych chi o dan feddyg?" ac yna rydym yn barnu'r angen blaenoriaethol yn seiliedig ar faint o feddyginiaeth, dos y feddyginiaeth, y math o feddyginiaeth, yn y lle cyntaf hwnnw, ac yn amlwg rydyn ni'n gofyn am wybodaeth feddygol a gwybodaeth bellach i gyd-fynd â'r hyn mae'r ddeddfwriaeth am i ni ei wneud."
– Rheolwr Opsiynau Tai ALL LAA2

¹²⁷ Ibid.

¹²⁸ Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I., Madoc-Jones M., Wilding, A., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I., Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: adroddiad terfynol. Adroddiad Prosiect*. Llywodraeth Cymru

¹²⁹ Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Mousteri, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

¹³⁰ Ibid.

¹³¹ Ibid.

¹³² Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Mousteri, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t.36

Pennod 7:

Yr opsiwn amgen: Neb Heb Help

Mae Covid-19 wedi ein hatgoffa ni i gyd o ba mor hanfodol yw cartref fel sylfaen i adeiladu ein bywydau arni. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyn y pandemig, roedd cynghorau a'u partneriaid wedi bod yn atal a lliniaru digartrefedd yn gyson er bod mwy o bobl yn cael eu gwthio i drothwy digartrefedd. Aethant ymhellach yn ystod y pandemig ac mewn cyfnod byr iawn llwyddwyd i ddarparu llety brys i bawb heb le diogel i aros, gan weithio gyda'r canllawiau cyfreithiol a'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Rydyn ni nawr yn sefyll ar groesffordd lle gallem ddychwelyd at y ffordd cyn pandemig o weithio neu gallem newid y gyfraith fel na fyddwn yn gadael unrhyw un allan o gymorth ailgartrefu oherwydd ble maen nhw'n byw, pwy ydyn nhw na sut y daethant yn ddiartref. Os na fydd cynghorau'n cael eu cefnogi i helpu pawb, mae llawer o bobl yn wynebu'r effaith ddinistriol o fod yn gaeth i ddiartrefedd am fwy o amser, yn aml heb unrhyw obaith o ddod o hyd i gartref newydd yn fuan.

133 Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t.36

"Rwy'n credu bod llawer iawn o fiwrocratiaeth a llawer iawn o waith y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud cyn y gallant ddechrau helpu pobl... Rwy'n credu bod faint o fiwrocratiaeth sydd gennym bellach yn amharu'n fawr ar ein gallu i helpu pobl."¹³³

– cyfranogwr Awdurdod Lleol, Adolygiad o angen blaenoriaethol

"Ie, ie, rydych chi'n hwyhau dioddefaint rhywun os ydych chi'n parhau i osod rheolau a rhwystrau a pharmedrau i'w cyflawni cyn i chi gael tŷ, wyddoch chi?"

– darparwr gwasanaeth LAA1

Fe wnaethom glywed gan awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau a'r rhai sydd â phrofiad byw o ddiartrefedd y byddent yn croesawu dull mwy agored a thosturiol. Mae ymatebion yn ystod Covid-19 wedi rhoi cipolwg i bawb o'r hyn a allai fod yn bosibl, ac effaith newid pwyslais o, 'ydych chi'n gymwys' i 'beth yw'r canlyniad llety gorau i chi'.

Cynigion Llywodraeth yr Alban ar gyfer darpariaethau cysylltiad lleol a bwriadoldeb

Roedd cytundeb cyffredinol mewn ymateb i gynigion Llywodraeth yr Alban bod y "gallu i unigolyn sy'n profi digartrefedd gael dewis o ran ble y mae'n dymuno byw yn... fuddiol o ran eu lles a'u gallu i gynnal tenantiaeth barhaus..."¹³⁴ Cyfeiriwyd at hyn gan bobl ifanc sy'n gadael gofal, lle mae meini prawf yn methu â chydabod lle mae unigolion wedi sefydlu rhwydweithiau cymorth a fyddai'n helpu i ddod â digartrefedd mynych i ben ac atal digartrefedd mynych.¹³⁵

"Felly, ers blynyddoedd maith, mae'r bobl sy'n gweithio mewn opsiynau tai—pobl ymroddedig sydd â swyddi caled, caled, yn delio â phethau anodd iawn o ddydd i ddydd—maen nhw wedi bod mewn sefyllfa o ddogni ers blynyddoedd. Felly, eu gwaith nhw fu ceisio gwneud yn siŵr nad ydych chi'n cael rhywbeth nad oes gennych chi hawl iddo, a beth bynnag. Fe wnaethon ni newid hynny dros nos i ddweud, 'Na. Mae pawb yn ei gael; mae pawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt; pawb—.' Felly, mae'r newid diwylliannol y tu mewn i'r sefydliadau hynny'n enfawr. Felly, ceisio gweithio gyda'r sefydliadau hynny a sicrhau eu bod yn croesawu'r newid diwylliannol hwnnw, ac maen nhw wedi rhoi'r gwasanaethau cymorth ar waith. Wyddoch chi, nid yw hynny i'w anwybyddu—anhawster hynny. Ac nid yw'n syndod bod rhai sefydliadau wedi gwneud y newid hwnnw'n eithaf da; mae eraill yn cael rhywfaint o drafferth gyda hynny. A bydd yn cymryd misoedd lawer i wreiddio ac ymwreiddio ffordd wahanol o weithio."

– Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AS yn siarad o flaen Pwyllgor Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 12 Hydref 2020

Byddai hyn yn ddatblygiad sylweddol mewn polisi digartrefedd ac yn awgrymu i ymgeiswyr y byddant yn cael eu trin ag urddas a thosturi ac yn cael cymorth i ailadeiladu eu bywydau. Roedd y rhai â phrofiad byw o ddiartrefedd yn glir bod colli gobaith yn sylweddol pan roedden nhw'n cael eu gwrthod.

"Rwy'n credu ei fod i'r ymgeisydd y peth yw gwybod fod rhywun yn poeni. Wyddoch chi, mae'n rhaid ei bod mor ddinistriol mynd at y gwasanaethau brys, at wasanaeth statudol, a bod y rhain yn dweud, "Nid oes gennych chi hawl i gael help". Felly, rwy'n meddwl, wyddoch chi, mae dyngarwch a gwyleidd-dra mewn cael blanced, "Rydyn ni'n mynd i roi llety i chi."

– Gwasanaeth 2 LAA6

"Dw i'n gallu tawelu meddwl fy mherson ifanc, ie, mae'n rhaid iddyn nhw eich rhoi chi yn rhywle felly o leiaf ar unwaith bydd y llwybr pryder yn cael ei ddiystyru oherwydd eu bod yn gwybod bod y gyfraith yn dweud bod yn rhaid iddyn nhw fy rhoi yn rhywle."

– Gwasanaeth LAA2

Soniodd y rhai â phrofiad byw o ddiartrefedd am sut y byddai hyn o fudd i'w lles, eu hyder a'u hymdeimlad o hunanwerth, yn ogystal â'r budd

134 Llywodraeth yr Alban (2019). Ymgynghoriad ar ddarpariaethau cysylltiad lleol a bwriadoldeb mewn deddfwriaeth ddiartrefedd. Ar gael yn: <https://consult.gov.scot/housing-regeneration-and-welfare/local-connection-and-intentionality/>

135 Bridgeman, J., Russell, H. (2020). *Peidiwch â Gadael i mi Syrthio drwy'r Craciau: Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc â Phrofiad o Ofal yng Nghymru*.

Realiti bod heb help - byw mewn ofn

Clywsom gan y rhai â phrofiad byw fod eu hanghenion tai wedi'u gwaethygu o ganlyniad i beidio â haeddu dyletswydd, a'u bod nhw'n byw mewn ofn o fod yn ddigartref ar y stryd o ganlyniad i gael eu gadael heb gymorth.

"A byw gyda'r ofn hwnnw, o ddydd i ddydd, yn meddwl y gallech chi fynd ar y strydoedd. Gallech fynd i'r oerfel, i'r glaw. Pob tywydd. 24/7 Dim bwyd. Dim dŵr. Dim nwy. Ddim yn gallu golchi eich dillad. Mae'n frawychus. Mae'n gyfnod brawychus o'ch bywyd. Mae wir yn."

materol o gael cymorth i gael mynediad i gartref diogel. Roedd hyn yn bwysig i'r unigolion hynny oedd yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a'u lles y canfuwyd nad oeddent yn ddigon agored i niwed fel eu bod yn haeddu dyletswydd, fel Denise a siaradodd â ni am ei phrofiadau.

"Wel rwy'n meddwl i mi fy hun a phobl rwy'n gweithio gyda nhw, fel y dywedais yn gynharach, rydyn ni'n cael sgwrs llawer mwy cysurion gyda chleientiaid. Byddwn i'n dweud ei bod yn amlwg yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd meddwl a'n lles oherwydd, wyddoch chi, dyna'r rhai nad ydyn ni'n eu diystyru."

– Gwasanaeth LAA6

7.1 Camau nesaf

Arweiniodd Cymru'r ffordd o ran newid cyfraith digartrefedd yn 2014, gan sicrhau bod yn rhaid i gynghorau gynnig cymorth i fwy o bobl yn gynharach, gan ddarparu sylfaen gref ar gyfer newid. Ond o dan y gyfraith mae rhai pobl yn parhau i golli allan ar gymorth. Yn ystod y pandemig mae cynghorau wedi darparu miloedd o bobl nad oedd ganddynt unman diogel i aros gyda chymorth ychwanegol a llety brys.

Oni bai y byddwn yn newid y gyfraith bresennol a gwella'r cymorth sy'n cael ei gynnig, bydd pobl yn parhau i wynebu bod yn ddigartref ar y stryd, ar soffas neu mewn hosteli, heb unrhyw gyfle i symud ymlaen ac ailadeiladu eu

bywyd. Bydd nifer sylweddol o bobl yn parhau i fod yn ddigartref oherwydd pwy ydyn nhw, ble maen nhw'n byw, a pham y daethant yn ddigartref.

Fodd bynnag, dim ond cam cyntaf yw newid cyfreithiol. Yn ogystal â newid cyfreithiol, mae angen yr adnoddau a'r offer cywir ar ein gweithluoedd i roi terfyn ar ddigartrefedd. Tynnodd cyfranogwyr sylw at yr heriau presennol gyda phrinder staff a llwythi achosion uchel, gan nodi'r angen i fynd i'r afael â'r rhain er mwyn galluogi staff i weithio'n agosach gydag unigolion i ddod o hyd i atebion parhaol a nodi ymyriadau sy'n mynd i'r afael yn ystyrlon ag anghenion cymorth.

"Rwy'n credu bod yr elfen gymorth, unwaith y byddwch yn rhoi pobl yn yr unedau hynny, yn gwbl hanfodol ... a byddai angen arian a refeniw i ddarparu'r cymorth hwnnw gan nad oes diben rhoi rhywun ag anghenion mewn eiddo lle rydych chi'n gwybod eu bod yn mynd i fethu ... a dyna sy'n digwydd ar hyn o bryd. ... Rwy'n credu y byddai'n rhaid cynyddu'r gwasanaethau cymorth a fyddai ar gael i adrannau digartrefedd yn sylweddol ... oni bai eich bod yn rhoi mwy o adnoddau iddo i ddelio ag ef oherwydd yn amlwg, byddwn yn delio â llawer mwy o bobl ddigartref nag yr ydym wedi arfer â nhw."

– Rheolwr Opsiynau Tai LAA2

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru nodi'r rhaglen ddiwygio sydd ei hangen i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru,

gan gynnwys amserlen ar gyfer dileu pob un o'r tri phrawf cyfreithiol o'r system ddigartrefedd statudol. Rhaid cael gwared ar bob un o'r tri phrawf cyfreithiol fesul cam, gan sicrhau nad oes unrhyw fecanweithiau cyfreithiol ar gyfer gadael pobl heb gymorth.

Nid yw'r adroddiad hwn wedi ceisio nodi trywydd ar gyfer y broses hon ond mae'n tynnu sylw at wersi o ddiwygiadau cyfreithiol a diwygiadau eraill i'r system mewn digartrefedd. Yn seiliedig ar hyn, dylai Llywodraeth nesaf Cymru, fel rhan o gynllun ehangach i roi terfyn ar ddigartrefedd wneud y canlynol:

- **Cyflwyno deddfwriaeth yn y Senedd nesaf** gan ddarparu 'pwynt terfyn' i weithio tuag ato i ddiddymu'r tri phrawf.
- **Nodi canllawiau cenedlaethol** ar gyfer cyflwyno'r fframwaith newydd, gyda disgresiwn priodol ar lefel leol, gan gynnwys sut i gefnogi pobl sy'n ceisio cymorth y tu allan i ardal eu cyngor 'cartref'.
- **Sicrhau cyllid digonol** ar sail hirdymor a throsiannol ar draws llywodraeth leol, y cyflenwad tai, a chymorth tai, ac ariannu llwybrau atal ar draws gwasanaethau cyhoeddus.
- **Sicrhau bod atebion sy'n cael eu harwain gan dai ac ailgartrefu cyflym** wrth wraidd ein hymateb i ddigartrefedd.
- **Cefnogi a buddsoddi mewn gweithluoedd** i fodloni'r gofynion newydd, gan gynnwys adolygu trefniadau comisiynu.
- **Gwella a mireinio'r broses o gasglu, monitro ac adrodd ar ddata**, gan gynnwys cysylltu data ar

draws gwasanaethau cyhoeddus, mesur nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd mewn amser real, wedi'i lywio gan Rwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd, a chasglu data'n well ar nifer y ceisiadau unigryw, digartrefedd mynych, yr amser sy'n cael ei dreulio mewn llety dros dro ac yn y blaen.

Os ydym am roi terfyn ar ddigartrefedd a sicrhau bod gan bawb ddiogelwch ac urddas cartref, mae angen i ni sefydlu ymateb cynhwysfawr i atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd sy'n cael ei gefnogi gan y gyfraith.

Gan ddefnyddio pob un o'r tair system ddigartrefedd ym Mhrydain Fawr, a thystiolaeth ryngwladol, nododd Crisis egwyddorion allweddol system ddigartrefedd ddelfrydol yn *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Roedd hyn yn cynnwys:¹³⁶

Egwyddor 2: Pan fo camau rhesymol i atal digartrefedd yn aflwyddiannus, rhaid i rwyd ddiogelwch statudol gyflawn sy'n darparu mynediad i lety sefydlog addas ymestyn ar draws yr holl bobl ddigartref.

Egwyddor 3(b): Dylid diddymu bwriadoldeb ar ei ffurf bresennol. Mae'r prawf bwriadoldeb presennol yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol i reoli'r hyn y gellid ei ystyried yn unrhyw gymhellion gwrthnysig i gael cymorth digartrefedd.

Egwyddor 4: Dylai cysylltiad lleol beidio â bod yn rhwystr i gymorth.

Egwyddor 5. Rhaid gwneud darpariaeth briodol ar gyfer aelwydydd sy'n parhau'n ddigartref ar ôl dihybyddu eu hawlau o dan y fframwaith statudol digartrefedd, yn enwedig teuluoedd â phlant dibynnol.

¹³⁶ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis. 385-395

Adolygiad o angen blaenoriaethol – opsiynau a dadansoddiad cost a budd

Roedd yr adolygiad diweddar o angen blaenoriaethol yn nodi amserlen o bum mlynedd a deng mlynedd ar gyfer ei diddymu, gan ychwanegu y byddai angen cyflawni newid o'r fath ochr yn ochr â buddsoddi mewn cyflenwad tai, buddsoddiad ac adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol, gweithlu â chymorth gwell, a gwell casglu a monitro data.¹³⁷ Amcangyfrifodd y grŵp adolygu anghenion blaenoriaethol y gallai Llywodraeth Cymru ddisgwyl gweld cyfanswm arbedion blynyddol o tua £5m pe bai angen blaenoriaethol yn cael ei ddiddymu dros gyfnod o bum mlynedd, ar ôl talu costau ychwanegol i awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth i ateb y galw ychwanegol. Mae angen i broses o'r fath weithio ochr yn ochr ag ymdrechion i drosglwyddo i ddulliau ailgartrefu cyflym, fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Gweithredu digartrefedd ac sy'n cael ei dderbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.¹³⁸

Angen blaenoriaethol

Dylai pawb gael mynediad at lety dros dro addas a diogel lle na ellir atal eu digartrefedd, ac nid oes ganddynt unman diogel i aros. Bydd hyn yn gofyn am adnoddau i wella ansawdd llety dros dro a dylid ei ddarparu yn unol â'r ymrwymiad i ddulliau ailgartrefu cyflym a arweinir gan dai, gan gyfyngu ar y defnydd o lety dros dro a llety brys lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y system ddigartrefedd statudol fel rhwyd diogelwch brys lle nad yw dulliau cynharach wedi gweithio i atal neu liniaru digartrefedd.

Bwriadoldeb

Mae nifer o opsiynau ar gyfer dileu'r prawf bwriadoldeb. Mae hyn yn cynnwys:

- Diddymu'r prawf yn ei gyfanrwydd.
- Diddymu'r prawf a chulhau'r diffiniad, gan ganolbwyntio ar 'drin yn fwriadol'.

- Dileu'r ddyletswydd i ymchwilio a'i ddisodli gyda disgrisiwn i wneud hynny, gan leihau'r diffiniad hefyd i ganolbwyntio ar 'drin yn fwriadol'.

Byddai trin yn fwriadol yn golygu cydgyllwynio rhwng ymgeisydd a'r rhiant neu'r deiliad tai sydd wedi'u cau allan. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddangos bod rhywun wedi rhagweld y byddai eu gweithredoedd yn arwain at fod yn ddigartref. Byddai'r goblygiadau yma yn gyfyngedig ac, er enghraifft, ni fyddai aelwydydd yn cael unrhyw ddewis ychwanegol o ran dyraniadau tai cymdeithasol ond ni fyddai unrhyw effaith ar unrhyw hawliau eraill.¹³⁹

Cysylltiad lleol

Mae sawl ffordd bosibl ymlaen, ac nid oes yr un ohonynt yn annibynnol ar ei gilydd.

- **Atal neu ddiddymu'r prawf rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru yn unig.**

¹³⁷ Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

¹³⁸ Ibid.

¹³⁹ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

- **Atal neu ddiddymu'r rheolau** ond rhoi lwfans i adnoddau ddilyn pobl, fel y gall ymgeiswyr geisio cymorth lle mae ei angen, ond gall awdurdodau lleol adennill costau lle maen nhw'n derbyn ymgeiswyr heb gysylltiad lleol (Ffigur 3).
- **Ymestyn y diffiniad statudol** i fod yn fwy hael a realistig ynghylch sut a phryd mae pobl wedi sefydlu cysylltiad lleol.

Byddai darpariaethau yn Neddf 1987 i gydweithredu ag awdurdodau lleol ledled y DU yn cael eu cadw.

Nid yw diwygio deddfwriaethol yn ateb i bopeth o ran rhoi terfyn ar ddigartrefedd. Bydd system ddigartrefedd lle nad oes neb yn cael ei adael heb y cymorth sydd ei angen arnynt i gael mynediad i gartref diogel yn cymryd mwy na newid deddfwriaethol, ond dylai fod yn sylfaen i ni gyflawni ein nodau.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd annog, drwy godau cyfarwyddyd, gydweithrediad ynghylch darparu llety addas, er enghraifft.

Egwyddor Hunan-Gyflwynydd Danaidd

Mae mynediad i mynediad at dros dro a llety mewn argyfwng yn Nenmarc yn seiliedig ar yr egwyddor 'hunan-gyflwynydd', sy'n ei gwneud yn ofynnol i fwrdeistrefi dalu am eu dinasyddion os ydynt dan fygythiad neu'n profi digartrefedd mewn bwrdeistref arall. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw anghymhelliad ariannol mewn egwyddor i fwrdeistrefi wrth ddarparu llety brys i bobl ddigartref o ardal arall.

Mae'r system yn cael ei hategu gan fecanwaith sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol lle mae rhywun yn cyflwyno'i hun yn ddigartref gael arian gan awdurdod 'cartref' yr unigolyn. Mewn achosion o anghytundeb, mae gan asiantaeth ganolog, 'The Social Appeals Board', yr awdurdod i benderfynu pa awdurdodau sy'n gyfrifol am dalu costau'r cymorth.



Pennod 8:

Casgliadau

Mae deddfwriaeth yn chwarae rhan allweddol wrth arwain ymdrechion staff a sefydliadau a llywio profiadau'r bobl hynny sy'n ceisio cymorth. Er na fydd newid deddfwriaethol ar ei ben ei hun yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd, mae'n rhan hanfodol o'r ateb ac, o'i gynllunio'n dda, mae'n alluogwr i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Y newidiadau cyfreithiol rydyn ni'n eu cynnig yma yw'r cam cyntaf tuag at sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi i helpu pawb, fel nad oes unrhyw un yn cael ei adael i wynebu digartrefedd heb y cymorth sydd ei angen arnynt i sicrhau cartref. Byddai dyletswydd ailgartrefu lawn yn creu system gyfreithiol symlach ac yn grymuso pobl a gwasanaethau i weithredu.

Rydym bellach yn wynebu'r un cyfle a greodd yr amodau ar gyfer llwyddiant *Deddf Tai (Cymru) 2014* – cydnabyddiaeth gyffredin o'r angen am newid, newidiadau mewn diwylliant ac ymarfer ers 2015, ymateb a goblygiadau Covid-19, a'r cyfeiriad a'r amcanion newydd a bennwyd gan arweinwyr gwleidyddol.

Yn benodol, mae profiadau gwasanaethau yn ystod Covid-19 wedi amlygu'r hyn a allai fod yn bosibl, ac arwain at sylweddoli manteision cael yr adnoddau a'r eglurder i roi'r cymorth sydd ei angen ar bawb pryd a ble mae ei angen.

Fel gyda Deddf 2014, mae cydnabyddiaeth bod angen ailedrych ar y fframwaith cyfreithiol presennol. Mae'n cael ei gymhwyso'n anghyson, mae'n oddrychol ac yn agored i gael ei ddehongli, a gall ei gwneud yn ofynnol i bobl ddod yn fwy agored i niwed er mwyn cael gafael ar gymorth. Yn y pen draw, gall ein system bresennol ymestyn profiad rhywun o ddigartrefedd a gadael rhai heb yr help sydd ei angen arnynt i gael mynediad i gartref diogel.

Mynegodd awdurdodau lleol, gwasanaethau, a'r rhai â phrofiad byw o ddigartrefedd i gyd ymdeimlad o rwystredigaeth bod y ffordd mae'r system ddigartrefedd yng Nghymru wedi'i chynllunio yn atal pobl rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt, ac yn atal gwasanaethau rhag darparu'r cymorth maen nhw'n gwybod sydd ei angen ar bobl i ddianc rhag digartrefedd.

Gwyddom fod manteision sylweddol i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd a staff o ran darparu system gyfreithiol

ddi-flewyn-ar-dafod drwy roi mwy o eglurder i weithluedd weithredu ac ymgeiswyr i geisio cymorth a chefnogaeth. Mae'r anghysondebau o ran cymhwyso ein system gyfreithiol bresennol yn dangos yr angen i ddileu pob un o'r tri phrawf cymhwysedd o'r system er mwyn sicrhau nad oes neb yn mynd heb y cymorth sydd ei angen arnynt.

“Maent yno, a thra maent yno, ni fyddwch byth yn cael gwared ar ddigartrefedd, na fyddwch? Oherwydd byddwch yn gallu troi pobl i ffwrdd sy'n ddigartref, gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf.”

– Rheolwyr Opsiynau Tai LAA2

Mae dyletswydd ailgartrefu lawn yn gam cyntaf tuag at sicrhau nad oes neb yn mynd heb y cymorth sydd ei angen arnynt. Fe wnaeth awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth bwysleisio'r galw am adnoddau a buddsoddiad ychwanegol mewn gweithluedd, gwasanaethau a chyflenwad cartrefi cymdeithasol i'w rhentu.

Ac eto, nid oes dim o hyn yn anorchfygol. Mae'r ymateb yn ystod Covid-19 a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni *Deddf Tai (Cymru) 2014* wedi dangos yr hyn sy'n bosibl gyda phenderfynu ar weithluedd, wedi'i gefnogi gan eglurder cyffredin, uchelgais, adnoddau, a chyfeiriad gan arweinyddiaeth wleidyddol.



Llyfryddiaeth

- Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, K., Jones, M., Rogers, I. Madoc-Jones M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: adroddiad terfynol, Adroddiad Prosiect*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Albanese, F. (2018) *Intentionality in the homelessness system in Great Britain*. Brwsel: FEANTSA
- Baptista, I., Benjaminsen, L., Pleace, N. (2015). *Local connection Rules and Access to Homelessness Services in Europe*. Brwsel: FEANTSA
- Boobis, S., Albanese, F. (2020) *The impact of COVID-19 on people facing homelessness and service provision across Great Britain*. Llundain: Crisis.
- Bramley, G., Fitzpatrick, S., Wood, J., Sosenko, F., Blenkinsopp, J., Littlewood, M., Frew, C., Bashar, T., McIntyre, J., a Johnsen, S. (2019). *Hard Edges Scotland: New conversations about severe and multiple disadvantage*. Sefydliad Lankelly Chase.
- Bramley, G., Fitzpatrick, S. (2018) Homelessness in the UK: who is most at risk? *Housing Studies*. 33(1). 96-116
- Bramley, G. (2017) *Homelessness projections: Core homelessness in Great Britain. Core homelessness in Great Britain*. Llundain.
- Bretherton, J., Hunter, C., a Johnsen, S. (2013) 'You can judge them on how they look...': Homelessness Officers, Medical Evidence and Decision-Making in England', *European Journal of Homelessness*. 7(1). 69-92
- Bridgeman, J., Russell, H. (2020). *Peidiwch â Gadael i mi Syrthio drwy'r Craciau: Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc â Phrofiad o Ofal yng Nghymru*.
- Campbell, A, J., (2011) *Effaith Penderfyniadau Digartrefedd Bwriadol ar Fywydau Aelwydydd Cymru*. Abertawe: Shelter Cymru.
- Connell, A. (2017) *Datblygu a gweithredu Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Gwersi i Bolisi ac Ymarfer yng Nghymru*. Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.
- Ymateb Cymorth Cymru (2020) i Senedd Cymru | Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Ar gael yn: <https://business.senedd.wales/documents/s103225/ELGC%20COV%2039%20-%20Cymorth%20Cymru.pdf>
- Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.
- Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. (2018). *Bywyd ar y strydoedd: atal a thaclo cysgu ar y stryd yng Nghymru*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B. ac Wood, J. (2017) *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2017*. Llundain: Crisis.

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. ac Wilcox, S. (2012) *Y Monitor Digartrefedd: Yr Alban 2012*. Llundain: Crisis.

Gibbons, A., Madoc-Jones, I., Ahmed, A. et al. (2020) Digartrefedd yng nghefn gwlad: Arferion atal yng Nghymru. *Social Policy and Society*, 19(1). tt. 133-144.

Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Homeless Link (2015) *Repeat Homelessness in Brighton*. Llundain: Homeless Link.

Johnsen, S., Jones, A. (2015) *The reconnection of rough sleepers within the UK: an evaluation*. Llundain: Crisis.

Mackie, P., Thomas, I., Bibbings, J. (2017) Homelessness Prevention: Reflecting on a Year of Pionerring Welsh Legislation in Practice. *European Journal of Homelessness*. 11(1). 81-107.

Mackie, P.; Gray, T.; Hughes, C.; Madoc-Jones, I.; Moustari, V.; Pawson, H.; Spyropoulos, N.; Stirling, T.; Taylor, H.; Watts, B. (2019). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mackie, P., Thomas, I. (2016) *Digartrefedd Sengl Trawsnewidiol yng Nghymru*. Caerdydd: WISERD.

Mackie, P. (2014) The Welsh homelessness legislation review: delivering universal access to appropriate assistance? *Contemporary Wales* 27 (1). 1-20.

Reid, B. (2021) *Preventing Homelessness in Scotland. Recommendations for legal duties to prevent homelessness: A report from the Prevention Review Group*.

Rosengard, A., Laing, I., Ridley, J., Hunter, S. (2007) *Closing the Opportunity Gap: Findings of a Literature Review on Multiple and Complex Needs. Project Report*. Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban.

Sanders, B., Boobis, S., ac Albanese, F. (2019) *'It was like a nightmare' The reality of sofa surfing in Britain today*. Llundain: Crisis.

Llywodraeth yr Alban (2019). A consultation on local connection and intentionality provisions in homelessness legislation. Ar gael yn: <https://consult.gov.scot/housing-regeneration-and-welfare/local-connection-and-intentionality/>

Taylor, P. (2020) The Regressive Power of Labelling People As Vulnerable. Ar gael yn: <https://paulitaylor.com/2020/06/25/the-regressive-power-of-labelling-people-as-vulnerable/>

Thomas, I., Mackie, P. (2020) *Measuring Repeat Homelessness*. Abertawe: ADR Wales.

Watts, B. (2014) Homelessness, empowerment and self-reliance in Scotland & Ireland: the impact of legal rights to housing and homeless people. *Journal of Social Policy*. 43(4). 793-810

Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Atodiad 1:

Dyletswyddau cyfredol yng Nghymru a'r Alban

Mae'r tabl isod yn darparu cymhariaeth o'r dyletswyddau yng Nghymru ac yn yr Alban, ac yn amlygu lle mae profion cymhwysra yn bresennol neu wedi cael eu tynnu o'r system statudol. Dengys hyn, tra bod Deddf Tai (Cymru) 2014 yn darparu dull mwy cynhwysfawr i fwy o bobl, mae'r dull mwy hael yn yr Alban yn sicrhau bod mwy o bobl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i ddianc rhag digartrefedd.

	Cymru
Dyletswydd i atal digartrefedd	<ul style="list-style-type: none"> Cymryd camau rhesymol i helpu i sicrhau bod llety addas yn parhau i fod ar gael Lle mae risg o ddigartrefedd yn y 56 diwrnod nesaf Camau rhesymol wedi'u hamlinellu yn y gyfraith Dim prawf am angen blaenoriaethol, cysylltiad lleol na bwriadoldeb
Rhoi terfyn ar y ddyletswydd cymorth atal	<ul style="list-style-type: none"> Dargadw llety presennol, neu Symud i lety newydd, lleiafswm o 6 mis Os ydynt yn dod yn ddigartref, rhagor o gymorth drwy'r ddyletswydd cymorth Os gwrthodir cynnig o lety, gall yr Awdurdod Lleol gyflawni'r ddyletswydd i'r ymgeisydd Gallant gyflawni'r ddyletswydd os yw'r ymgeisydd yn methu â chydymffurfio â'r camau rhesymol
Dyletswydd llety dros dro	Darparu llety dros dro cyn asesiad am y brif ddyletswydd (nid cyn cymorth), os oes rheswm i gredu y gallai'r ymgeisydd fod yn ddigartref, cymwys ac mewn angen blaenoriaethol
Dyletswydd i ddarparu cymorth os ydynt yn ddigartref	<p>Dyletswydd cymorth:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cymryd camau rhesymol rhagnodedig i helpu'r ymgeisydd i sicrhau bod llety addas yn dod ar gael Rhaid i lety fod ar gael am o leiaf chwe mis Gallant gyflawni'r ddyletswydd os yw'r unigolyn yn methu â chydymffurfio â'r camau rhesymol Dim prawf am angen blaenoriaethol na bwriadoldeb. Prawf am gysylltiad lleol Dod i ben ar ôl 56 diwrnod <p>Dyletswydd ailgartrefu lawn (ar ôl i ddyletswyddau atal / cymorth ddod i ben):</p> <ul style="list-style-type: none"> Ailgartrefu mewn tenantiaeth gymdeithasol neu'r sector rhentu preifat am 6 mis Yn ddarostyngedig i brofion angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol

	Yr Alban
Dyletswydd i atal digartrefedd	<ul style="list-style-type: none"> Cymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety yn parhau i fod ar gael Lle mae risg o ddigartrefedd yn y 56 diwrnod nesaf Camau rhesymol heb eu hamlinellu yn y gyfraith nac mewn canllawiau Dim prawf am angen blaenoriaethol na chysylltiad lleol. Prawf bwriadoldeb yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Lleol
Rhoi terfyn ar y ddyletswydd cymorth atal	<ul style="list-style-type: none"> Ddim dan fygythiad o ddigartrefedd mwyach, neu Ddod yn ddigartref yn statudol, sy'n sbarduno'r ddyletswydd i sicrhau llety (tenantiaeth gymdeithasol neu breifat) (D.S. mae'r diffiniad o ddigartrefedd statudol yn eang iawn, felly byddant yn aml yn dal i feddiannu llety gwreiddiol, ond ni fydd ganddynt yr hawl neu'r caniatâd i wneud hynny mwyach (e.e. wedi cael gorchymyn i adael cartref teuluol) neu nid yw'n rhesymol iddynt breswyllo yno ar hyn o bryd (e.e. dioddefwr trais domestig) (Dim gofyniad ar yr unigolyn i gydymffurfio â'r camau rhesymol)
Dyletswydd llety dros dro	Darparu llety dros dro cyn asesiad, os oes gan yr Awdurdod Lleol reswm i gredu y gallai'r ymgeisydd fod yn ddigartref. Dim prawf am angen blaenoriaethol.
Dyletswydd i ddarparu cymorth os ydynt yn ddigartref	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod llety yn dod ar gael – naill ai tenantiaeth gymdeithasol neu'r sector rhentu preifat Ddim yn ddarostyngedig i brawf angen blaenoriaethol. Yn ddarostyngedig i brawf cysylltiad lleol, prawf bwriadoldeb yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Lleol